## Atodiad 1 – Dogfennau Ymgynghori

Paratowyd y dogfennau ymgynghori canlynol gan nodi manylion y newidiadau arfaethedig:

- Darpariaeth Arbenigol i Ddysgwyr Cynradd ac Uwchradd ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol
- Darpariaeth Arbenigol i Ddysgwyr Cynradd sydd ag Anghenion Dysgu Cymhleth a / neu Awtistiaeth

# Ysgolion yr 21ain Ganrif
# Dogfen Ymgynghori 2023

## DARPARIAETH ARBENIGOL I DDYSGWYR CYNRADD AC UWCHRADD AG ANGHENION IECHYD A LLES EMOSIYNOL

**20 TACHWEDD 2023 – 19 IONAWR 2024**



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Mae fersiwn gryno o'r ddogfen hon ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolionADY
Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni ar 029 2087 2720 i drefnu hyn



CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD

# Tabl Cynnwys

**Cyflwyniad**

- Beth yw pwrpas y llyfryn hwn?
- Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

**Ymgynghoriad**

- Gyda phwy yr ydym yn ymgynghori?
- Barn plant a phobl ifanc ar y newidiadau arfaethedig
- Sut mae cael rhagor o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?
- Mae eich barn yn bwysig i ni

**Eglurhad o dermau yn y ddogfen hon**

**Cefndir**

**Yr Ymagwedd o ran Cefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghaerdydd**

**Digonolrwydd yn y Sector Arbennig**

**Canolfannau Adnoddau Arbenigol**

**Darpariaeth Iechyd a Lles Emosiynol (4 – 11 oed)**

**Darpariaeth bresennol**

**Darpariaeth Iechyd a Lles Emosiynol (11 – 19 oed)**

**Darpariaeth bresennol**

**Dosbarthiad daearyddol y Ddarpariaeth Arbenigol**

**Galw am leoedd**

- Galw am leoedd
- Cynyddu'r Ddarpariaeth i ddysgwyr ag anghenion Iechyd a Lles Emosiynol

**YSGOL GYNRADD BADEN POWELL**

**Cynnig ar gyfer lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol Ychwanegol yn Ysgol Gynradd Baden Powell**

- Nifer y lleoedd yn yr ysgol
- Y galw am leoedd yn yr ysgol
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
- Adeilad Canolfan Adnoddau Arbenigol Arfaethedig

**Ansawdd a Safonau**

- Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Cymorth ac arweiniad gofal
- Arwain a rheoli

**Beth yw manteision y newid arfaethedig?**

**Anfanteision posibl y newid arfaethedig**

**Risgiau**

**Dewisiadau amgen**

**Materion Adnoddau Dynol**

**Materion Trafnidiaeth**

**Dweud eich dweud**

## YSGOL GYNRADD Y TYLLGOED

### Cynnig ar gyfer lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol ychwanegol yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed

- Nifer y lleoedd yn yr ysgol
- Y galw am leoedd yn yr ysgol
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
- Adeilad Canolfan Adnoddau Arbenigol Arfaethedig

### Ansawdd a Safonau

- Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Cymorth ac arweiniad gofal
- Arwain a rheoli

### Beth yw manteision y newid arfaethedig?

### Anfanteision posibl y newid arfaethedig

### Risgiau

### Dewisiadau amgen

### Materion Adnoddau Dynol

### Materion Trafnidiaeth

### Dweud eich dweud

## YSGOL GYNRADD HERBERT THOMPSON

### Cynnig ar gyfer lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol ychwanegol yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson

- Nifer y lleoedd yn yr ysgol
- Y galw am leoedd yn yr ysgol
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
- Adeilad Canolfan Adnoddau Arbenigol Arfaethedig

### Ansawdd a Safonau

- Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Cymorth ac arweiniad gofal
- Arwain a rheoli

### Beth yw manteision y newid arfaethedig?

### Anfanteision posibl y newid arfaethedig

### Risgiau

### Dewisiadau amgen

### Materion Adnoddau Dynol

### Materion Trafnidiaeth

### Dweud eich dweud

## YSGOL GYNRADD LAKESIDE

### Cynnig ar gyfer lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol ychwanegol yn Ysgol Gynradd Lakeside

- Nifer y lleoedd yn yr ysgol
- Y galw am leoedd yn yr ysgol
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
- Adeilad Canolfan Adnoddau Arbenigol Arfaethedig

### Ansawdd a Safonau

- Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Cymorth ac arweiniad gofal
- Arwain a rheoli

### Beth yw manteision y newid arfaethedig?

### Anfanteision posibl y newid arfaethedig

### Risgiau

### Dewisiadau amgen

### Materion Adnoddau Dynol

### Materion Trafnidiaeth

### Dweud eich dweud

## YSGOL GYNRADD SPRINGWOOD

### Cynnig ar gyfer lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol ychwanegol yn Ysgol Gynradd Springwood

- Nifer y lleoedd yn yr ysgol
- Y galw am leoedd yn yr ysgol
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
- Adeilad Canolfan Adnoddau Arbenigol Arfaethedig

### Ansawdd a Safonau

- Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Cymorth ac arweiniad gofal
- Arwain a rheoli

### Beth yw manteision y newid arfaethedig?

### Anfanteision posibl y newid arfaethedig

### Risgiau

### Dewisiadau amgen

### Materion Adnoddau Dynol

### Materion Trafnidiaeth

### Dweud eich dweud

## YSGOL GYMRAEG PWLL COCH

**Cynnig ar gyfer lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol ychwanegol yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch**

- Nifer y lleoedd yn yr ysgol
- Y galw am leoedd yn yr ysgol
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
- Adeilad Canolfan Adnoddau Arbenigol Arfaethedig

**Ansawdd a Safonau**

- Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Cymorth ac arweiniad gofal
- Arwain a rheoli

**Beth yw manteision y newid arfaethedig?**

**Anfanteision posibl y newid arfaethedig**

**Risgiau**

**Dewisiadau amgen**

**Materion Adnoddau Dynol**

**Materion Trafnidiaeth**

**Dweud eich dweud**

## YSGOL GYFUN GYMRAEG PLASMAWR

**Cynnig ar gyfer lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol ychwanegol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr**

- Nifer y lleoedd yn yr ysgol
- Y galw am leoedd yn yr ysgol
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
- Adeilad Canolfan Adnoddau Arbenigol Arfaethedig

**Ansawdd a Safonau**

- Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Cymorth ac arweiniad gofal
- Arwain a rheoli

**Beth yw manteision y newid arfaethedig?**

**Anfanteision posibl y newid arfaethedig**

**Risgiau**

**Dewisiadau amgen**

**Materion Adnoddau Dynol**

**Materion Trafnidiaeth**

**Dweud eich dweud**

**Gwybodaeth sy'n berthnasol i bob cynnig**

**Cymorth ychwanegol i ddisgyblion**

- Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Sut yr effeithir ar y cymorth i ddisgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion Ethnig Leiafrifol?

**Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill?**

**Trefniadau derbyn**

**Trefniadau Teithio i Ddysgwyr**

**Materion Ariannol**

**Darpariaeth Iechyd**

**Trefniadau Llywodraethu**

**Effaith y cynigion ar y Gymraeg**

**Cydraddoldeb**

**Effaith Gymunedol**

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

**Tarfu Posibl i Ddisgyblion**

**Camau nesaf, sut gallwch fynegi eich barn a'r ffurflen adborth**

- Beth sy'n digwydd nesaf?
- Dyddiadau Allweddol
- Cyfnod ymgynghori
- Hysbysiad Statudol
- Adroddiad Gwrthwynebu
- Penderfynu ar y cynigion
- Hysbysiad o'r Penderfyniad

**Dweud eich dweud**

- Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

**Amdanoch Chi**

# CYFLWYNIAD

## Beth yw pwrpas y llyfryn hwn?

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer rhieni/gofalwyr, staff ysgolion, llywodraethwyr ysgolion ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghaerdydd.   Bydd o ddiddordeb penodol i rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc sy'n mynychu neu'n disgwyl mynychu ysgolion arbennig neu ganolfannau adnoddau arbenigol (CAAau) a'r rhai sydd wedi gweithio neu sydd ar hyn o bryd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag anghenion iechyd a lles emosiynol (ILlE).

Mae gan blant a phobl ifanc sydd ag Anghenion iechyd a lles emosiynol broblemau o ran meddwl, teimlo ac ymddwyn. Mae hyn yn cael effaith ar reoli sut mae bywyd yn effeithio arnynt, sut maent yn ymdopi, sut maent yn ymgysylltu ag eraill a'r dewisiadau a wnânt.   Gall plant a phobl ifanc arddangos gorbryder, hunan-barch isel, ffobia ysgol, neu anawsterau ymddygiadol.

Mae'r Cyngor am wneud newidiadau i'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr oed cynradd ac uwchradd sydd ag anghenion iechyd a lles emosiynol.

Mae'r llyfryn hwn yn nodi ystod o gynigion i gynyddu nifer y lleoedd canolfan adnoddau arbenigol cynradd ac uwchradd i ddysgwyr sydd ag anghenion iechyd a lles emosiynol a'r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig hyn.

## Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Er mwyn ateb y galw cynyddol am ddarpariaeth arbenigol i ddysgwyr oed cynradd ac uwchradd ag anghenion iechyd a lles emosiynol, cynigir:

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Baden Powell o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.
- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.  Byddai hyn yn disodli'r dosbarth lles presennol.
- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 16 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.
- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 16 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Lakeside o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.  Byddai hyn yn disodli'r dosbarth lles presennol.
- Sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Springwood o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn disodli'r dosbarth lles presennol.
- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch o fis Medi 2024 yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn disodli'r dosbarth lles presennol.
- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 20 lle ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.

Noder fod y gwaith o ddatblygu'r cynigion hyn ar y camau cychwynnol. Byddai unrhyw newid i osodiad neu ddyluniad manwl safle'r ysgolion, os oedd eu hangen, yn cael eu hystyried yn ddiweddarach.  Pe byddai angen newidiadau o'r fath, byddai cyfleoedd i roi sylwadau ar gynlluniau manwl adeg y camau cyn cynllunio a'r cais cynllunio, pe bai'r cynnigion yn cael eu datblygu.

Rydym hefyd yn ymgynghori ar gynigion ar wahân i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr cynradd sydd ag anghenion dysgu cymhleth (ADC) a/neu awtistiaeth mewn ystod o ysgolion ledled Caerdydd.

Gallwch ddod o hyd i fanylion y cynigion hyn yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolionADY

# Ymgynghoriad

## Gyda phwy yr ydym yn ymgynghori?

Rhaid i'r broses ymgynghori ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru sydd wedi eu nodi yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Fel rhan o hyn, rydym yn gofyn i bobl am eu barn ynghylch y newidiadau rydym yn eu cynnig.  Mae sawl modd y gall pobl gynnig eu barn i ni.

**Mae Tabl 1 isod yn nodi â phwy y mae'r Cyngor yn ymgynghori.**

| Tabl 1: Grwpiau y mae'r Cyngor yn ymgynghori â nhw: | |
|---|---|
| Plant a phobl ifanc | Gweinidogion Cymru |
| Rhieni/gofalwyr | Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Staff ysgol | Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD) |
| Cyrff Llywodraethu Ysgolion | Comisiynydd y Gymraeg |
| Preswylwyr lleol | Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) |
| Cynghorau Cymuned | Undebau Llafur |
| Aelodau Lleol/Aelodau Etholaeth a Rhanbarthol y Senedd (AoS)/Aelodau Seneddol (ASau) | Darparwyr gofal plant |
| Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol | Mudiad Meithrin |
| Awdurdodau Cymdogol | Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru |
| Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cymdogol o fewn Caerdydd | Clybiau Plant Cymru |
| Estyn | Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd |
| Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf | Welsh Education Forum |
| Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro | Sefydliadau Sector Gwirfoddol |
| Busnesau/sefydliadau lleol | Comisiynydd Traffig Cymru |

## Barn plant a phobl ifanc ar y newidiadau arfaethedig

Mae Caerdydd yn Ddinas sy'n Dda i Blant ac mae barn plant a phobl ifanc yn allweddol i'r modd y darperir addysg.   Mae'n bwysig wrth ddatblygu cynigion, fod trefniadau addas yn cael eu gwneud i ymgynghori â disgyblion. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â disgyblion yn yr ysgolion sy'n rhan o'r cynigion hyn a bydd y wybodaeth a gaiff ei chasglu yn y sesiynau hyn yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol.

## Sut mae cael rhagor o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?

Mae'r ddogfen ymgynghori hon a ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolionADY

Os na allwch gael mynediad i'r dogfennau ar-lein, bydd copïau print ar gael drwy'r post ar gais. Gallwch ofyn am gopi drwy e-bost ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk neu drwy ffonio 029 2087 2720.

Byddwn yn dweud wrth deuluoedd â phlant yn yr ysgolion dan sylw sut y gallant gael gafael ar gopi o'r ddogfen.

Bydd gwybodaeth hefyd yn cael ei rhoi i breswylwyr a busnesau sy'n agos at yr ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, byddwn yn cynnal cyfres o gyfarfodydd lle eglurir y newidiadau arfaethedig a lle bydd cyfle i ofyn cwestiynau.

## Cyfarfodydd Cyhoeddus (yn bersonol / ar-lein)

Byddwn yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus i unrhyw un fynychu lle bydd y newidiadau yr ydym yn eu cynnig yn cael eu hesbonio. Bydd cyflwyniad yn nodi manylion y newidiadau arfaethedig a chewch gyfle i ofyn cwestiynau fel rhan o'r cyfarfodydd hyn. Mae dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod cyhoeddus i fynd iddo'n bersonol yn y tabl isod.

Rydym yn cynnig cyfarfod ar-lein trwy Microsoft Teams. Bydd hyn yn debyg i'r cyfarfod cyhoeddus wyneb yn wyneb gyda chyflwyniad yn nodi manylion y newidiadau arfaethedig a chyfle i ofyn cwestiynau. Os hoffech fynychu'r cyfarfod cyhoeddus mewn person/ar-lein, bydd angen i chi archebu hwnnw ymlaen llaw. Cysylltwch â ni drwy e-bost **ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk** ac fe rown fanylion/dolen a chyfarwyddiadau i chi ar sut y gallwch fynychu.

## Sesiynau galw heibio (yn bersonol / ar-lein)

Byddwn hefyd yn cynnal sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb ar yr amseroedd / lleoliadau a nodir yn y tabl isod. Mae'r sesiynau galw heibio yn gyfle i unrhyw un fynychu ac maent yn gyfle i siarad â swyddogion am y cynigion a gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych. Nid oes angen archebu lle ar gyfer sesiwn galw heibio, dim ond mynychu'r lleoliad ar ryw adeg yn ystod yr amser pan fydd swyddogion ar gael.

Rydym yn cynnig sesiynau galw heibio ar-lein trwy Microsoft Teams. Mae'r rhain yn debyg i'r sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb gan eu bod yn gyfle anffurfiol i siarad â swyddogion am y cynigion a gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych. Byddai gofyn archebu slotiau ar gyfer y sesiynau galw heibio ar-lein ymlaen llaw. Os hoffech fynychu sesiwn ar-lein, cysylltwch â ni trwy e-bost: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk gan gadarnhau pa sesiwn yr hoffech ei mynychu ac fe anfonwn ddolen atoch a chyfarwyddiadau ar sut y gallwch gael mynediad i'r cyfarfod.

Bydd swyddogion y Cyngor yn cyfarfod â chyrff llywodraethu a staff yr ysgolion dan sylw.

Gallwch hefyd ysgrifennu at y Cyngor i roi eich barn.

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus wedi eu nodi isod.

**Tabl 2: Dyddiadau'r Cyfarfodydd Ymgynghori (Dyddiadau i'w cytuno)**

| Ymgynghoriad | Dyddiad ac Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| Sesiwn galw i mewn | Dydd Mercher 29 Tachwedd 2023<br>9am – 11am | Hyb Treali a Chaerau |
| Sesiwn galw i mewn | Dydd Mawrth 5 Rhagfyr 2023<br>9am – 11am | Hyb Powerhouse Llanedern |
| Sesiwn galw i mewn | Dydd Llun 8 Ionawr 2024<br>2pm – 4pm | Hyb Partneriaeth Tredelerch |
| Sesiwn galw I mewn ar-lein | Dydd Mawrth 12 Rhagfyr 2023<br>10am – 12 hanner dydd | Microsoft Teams |
| Sesiwn galw I mewn ar-lein | Dydd Gwener 12 Ionawr 2024<br>2pm – 4pm | Microsoft Teams |
| Cyfarfod cyhoeddus | Dydd Iau 11 Ionawr 2024<br>5pm – 7pm | Hyb y Llyfrgell Ganolog (Yr Aes) |
| Cyfarfod cyhoeddus ar-lein (yn Gymraeg) | Dydd Llun 15 Ionawr 2024<br>5:30pm – 7pm | Microsoft Teams |
| Cyfarfod cyhoeddus ar-lein (yn Saesneg) | Dydd Mawrth16 Ionawr 2024<br>5:30pm – 7pm | Microsoft Teams |

## Mae eich barn yn bwysig i ni

Mae eich barn yn bwysig ac rydym yn awyddus i chi ddweud wrthym beth rydych yn ei feddwl am y newidiadau rydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen.

Gallwch wneud hyn drwy:

- Fynychu cyfarfod cyhoeddus neu'r sesiynau galw heibio uchod.
- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolionADY
- Cwblhau'r ffurflen ymateb i ymgynghoriad, sydd i'w chael ar dudalen 86. Mae'r ffurflen ymgynghori ar gael yn Gymraeg, Saesneg ac amrywiaeth o ieithoedd cymunedol ar ein gwefan. Ar ôl ei llenwi, gallwch sganio'r ffurflen a'i hanfon atom i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk Os nad oes gennych fodd i ddefnyddio sganiwr, gallwch ymweld â'ch hyb lleol a gofyn iddynt sganio'r ffurflen a'i hanfon atom ar eich rhan.
- Cysylltu â'r tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk, dros y ffôn ar (029) 2087 2720 neu drwy'r post i Ystafell 463, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW. Gall hyn gynnwys gofyn i swyddog ffonio'n ôl os oes gennych gwestiwn penodol y teimlwch yr hoffech gael rhagor o wybodaeth amdano.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 19 Ionawr 2024.**

Ni fydd y Cyngor yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a geir ar ôl y dyddiad hwn.

# Eglurhad o dermau yn y ddogfen hon

Sylwer ar y termau canlynol a ddefnyddir gydol y ddogfen hon:

**Nifer Derbyn** – mae pob ysgol a gynhelir yn derbyn disgyblion hyd at eu Nifer Derbyn Cyhoeddedig o leiaf. Y nifer derbyn yw nifer y llefydd sydd ar gael i ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn.

**ADY** – Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ystyrir bod gan blentyn neu berson ifanc Anghenion Dysgu Ychwanegol os oes ganddo anawsterau sy'n cael effaith hirdymor sylweddol ar ei ddysgu. Gall anawsterau fod yn gysylltiedig â dysgu; cyfathrebu a rhyngweithio; anabledd corfforol neu synhwyraidd; neu ddatblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. (Cyfeirir weithiau at ADY fel Anghenion Addysgol Arbennig).

**Awtistiaeth** – Mae awtistiaeth yn anabledd datblygiadol gydol oes sy'n effeithio ar sut mae pobl yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio â'r byd. Sbectrwm yw awtistiaeth. Mae hyn yn golygu bod pawb ag awtistiaeth yn wahanol. Ychydig iawn o gefnogaeth sydd ei angen ar rai pobl awtistig neu ddim cymorth o gwbl. Efallai y bydd eraill angen help rhiant neu ofalwr bob dydd.

**Ysgolion Cymunedol** – ysgol gynradd neu uwchradd lle mae'r Cyngor yn trefnu derbyniadau i ysgolion.

**Anghenion Dysgu Cymhleth** – plant a phobl ifanc sydd ag amrywiaeth o broblemau a chyfuniad o anghenion haenog. Gallai'r rhain gynnwys anghenion sy'n gysylltiedig â dysgu, cyfathrebu, anableddau corfforol neu synhwyraidd.

**Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol** – plant a phobl ifanc sydd â phroblemau o ran meddwl, teimlo ac ymddwyn. Mae hyn yn cael effaith ar reoli sut mae bywyd yn effeithio arnynt, sut maent yn ymdopi, sut maent yn ymgysylltu ag eraill a'r dewisiadau a wnânt. Gall plant a phobl ifanc arddangos gorbryder, hunan-barch isel, ffobia ysgol, neu anawsterau ymddygiadol.

**Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY)** - darpariaeth addysg i ddiwallu anghenion penodol disgyblion na allant, am wahanol resymau, fynychu ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig. Mae AHY yn cyfeirio at addysg a ddarperir gan yr awdurdod lleol ac nid yw'n cwmpasu addysg ddewisol yn y cartref.

**Cynorthwy-ydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA)** – Mae'r rhaglen Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) yn ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a gydnabyddir yn genedlaethol o gefnogi plant a phobl ifanc (o'r cynradd i'r uwchradd) sydd ag ystod o anghenion cymdeithasol ac emosiynol.

**Darpariaeth yn y Sir** - Cyngor yn cynnal ac yn ariannu lleoedd mewn ysgolion neu ganolfannau adnoddau arbenigol yng Nghaerdydd.

**Cynllun Datblygu Unigol (CDU)** – Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc ag angen a nodwyd sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol Gynllun Datblygu Unigol gorfodol (CDU). Mae'r cynllun yn nodi anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc a'r camau sydd eu hangen i'w cefnogi. Mae CDU wedi disodli datganiadau AAA. Mae gan bob plentyn mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol CDU.

**Prif ffrwd** - mae ysgol brif ffrwd yn ysgol sy'n cael ei rhedeg gan y Cyngor nad yw'n ysgol arbennig. Nid yw ysgolion prif ffrwd/arbennig a gynhelir gan y Cyngor yn dethol disgyblion ac nid ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr dalu ffioedd.

**Data Nifer ar y Gofrestr** – nifer y disgyblion sydd mewn ysgol (heb gynnwys disgyblion meithrin)

**Darpariaeth y tu allan i'r Sir** - lle nad oes gan y Cyngor ddarpariaeth addas ar gyfer disgyblion sydd angen lle arbenigol, efallai y bydd yn rhaid ariannu lleoedd mewn ysgol neu ganolfan adnoddau arbenigol mewn awdurdod lleol arall neu mewn darpariaeth sy'n cael ei rhedeg gan sefydliad annibynnol.

**CYBLD** – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Ym mis Ionawr bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth gan ysgolion. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion ymhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd, data ar y Gymraeg, Anghenion Addysgol Arbennig, mamiaith a disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol Am Ddim.

**Gweithredu gan yr Ysgol** – Pan fo athro dosbarth neu bwnc yn rhoi cymorth ychwanegol i ddisgybl ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy** – Pan fo arbenigwyr o'r tu allan yn helpu staff dosbarth neu ysgol i roi cymorth ychwanegol i ddisgybl ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn wahanol neu'n ychwanegol i gymorth a roddir drwy Gweithredu gan yr Ysgol.

**Ysgol Arbennig** – ysgol ar gyfer plant ag angen dysgu ychwanegol neu anabledd, na ellir diwallu eu hanghenion mewn ysgol brif ffrwd. Mae gan y disgyblion mewn ysgol arbennig ddatganiad AAA, neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU).

**Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA)** - Dosbarth bach mewn ysgol brif ffrwd i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol. Mae gan y disgyblion mewn CAA ddatganiad AAA, neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU). Caiff y disgyblion eu haddysgu gan athrawon arbenigol a chynorthwywyr cymorth dysgu, a gallant cael cyfleoedd i ddysgu, chwarae neu gymdeithasu â disgyblion prif ffrwd eraill. Mae'r disgyblion sy'n mynychu'r CAA yn cael eu rhoi ar gofrestr yr ysgol sy'n cynnal y CAA.

**Datganiad AAA** - Dogfen sy'n disgrifio'n fanwl anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol ac sy'n nodi'r ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud i'w cefnogi. Mae'r rhain bellach yn cael eu disodli gan Gynlluniau Datblygu Unigol (CDUau).

**Thrive** – Dull therapiwtig er mwyn helpu i gefnogi plant gyda'u datblygiad cymdeithasol emosiynol Mae'r dull Thrive yn cynnig strategaethau a thechnegau ymarferol ac mae'n seiliedig ar asesiadau ar-lein sy'n nodi datblygiad emosiynol plant ac yn darparu cynlluniau gweithredu ar gyfer eu hanghenion unigol.

**Dosbarthiadau Lles** - Mae Caerdydd hefyd yn ariannu nifer o ddosbarthiadau lles sy'n rhoi cymorth dwys byrdymor i blant a phobl ifanc sy'n arddangos anghenion iechyd a lles emosiynol, er mwyn eu cefnogi i barhau â'u lleoliad yn eu hysgol brif ffrwd leol. Mae lleoliad mewn Dosbarth Lles yn un dros dro am hyd at flwyddyn. Nid yw'r disgyblion sy'n mynychu'r Dosbarth Lles yn cael eu rhoi ar gofrestr yr ysgol sy'n cynnal y Dosbarth Lles. Mae'r plentyn yn parhau i fod ar y gofrestr yn ei ysgol leol, a chaiff ei gefnogi i ddychwelyd yn llawn amser i'w ysgol leol erbyn diwedd y rhaglen.

## Cefndir

Mae gweledigaeth 2030 Caerdydd ar gyfer addysgu a dysgu yng Nghaerdydd yn gosod nod 'Hawl Dysgu', lle gall pob plentyn a pherson ifanc:

- gael mynediad at lwybrau priodol i gyfleoedd addysgu a dysgu
- ffynnu a chyflawni eu potensial
- gwireddu eu breuddwydion a'u huchelgeisiau unigol

Er mwyn gwella deilliannau dysgwyr mwyaf agored i niwed Caerdydd, â llawer ohonynt yn wynebu rhwystrau i ymgysylltu ag addysgu a dysgu, mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn allweddol.

Mae gweledigaeth Caerdydd ar gyfer 2030 ar gael i'w gweld ar **www.cardiff.gov.uk/cardiff2030**

## Yr Ymagwedd o ran Cefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghaerdydd

Mae ymagwedd effeithiol a chynhwysol o gefnogi anghenion dysgu ychwanegol yng Nghaerdydd yn cynnwys yr egwyddorion canlynol:

- Ysgolion a lleoliadau sy'n cyflwyno cwricwlwm arloesol gyda dulliau ysgol-gyfan effeithiol o ran addysgu a dysgu, iechyd a lles emosiynol.
- Gwasanaethau arbenigol rhagorol i wella gallu ysgolion a lleoliadau eraill i gynnwys plant a phobl ifanc ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol.
- Trefniadau effeithiol ar gyfer nodi'n gynnar ac ymyrraeth sy'n seiliedig ar ymchwil i atal anghenion dysgu ychwanegol rhag dwysáu lle bynnag y bo modd.
- Lefelau uchel o hygyrchedd ym mhob adeilad ysgol, gyda digon o ofod hyblyg ym mhob ysgol sy'n briodol i oedran a'r cyfnod dysgu.
- Partneriaethau cryf i sicrhau ymateb holistig, cydweithredol i anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc (gan gynnwys iechyd, gwasanaethau plant ac oedolion, darparwyr blynyddoedd cynnar ac Addysg Bellach).
- Cynllunio pontio amlasiantaethol effeithiol ar bob cam, o'r blynyddoedd cynnar hyd at gyrchfannau cynradd, uwchradd, ôl-16 ac oedolion, i gefnogi mynediad yn ddi-oed.

Mae nifer y plant a'r bobl ifanc sydd angen lleoliad arbenigol o ganlyniad i'w hanableddau dysgu wedi bod yn cynyddu yng Nghaerdydd dros y 5 mlynedd diwethaf, a chymerwyd camau ers 2018 i gynyddu nifer y lleoedd arbenigol sydd ar gael.

Mae'r cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon yn ceisio gwella mynediad i addysg yn unol â'r egwyddorion cynhwysiant uchod.

## Digonolrwydd yn y Sector Arbennig

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i egwyddorion cynhwysiant. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn mynychu ysgol brif ffrwd leol, ac yn elwa ar Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) effeithiol. Nid oes angen i'r dysgwyr hyn fynychu ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol neu ddosbarthiadau lles sy'n gweithredu fel rhan o ysgolion prif ffrwd.

Fodd bynnag, cydnabyddir, er mwyn ffynnu a chyflawni eu potensial, fod angen i blant a phobl ifanc sydd â'r anghenion dysgu ychwanegol mwyaf cymhleth gael mynediad i amgylcheddau arbenigol ac arbenigedd ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol neu ddosbarth lles.

Mae nifer y disgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth, sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol, wedi parhau i dyfu:

Mae hyn oherwydd:

- Cyfraddau goroesi gwell ar gyfer plant sy'n cael eu geni ag anableddau sylweddol, gan arwain at nifer uwch o ddisgyblion ag anableddau difrifol a chymhleth.
- Mwy o gymhlethdod o ran anghenion, sydd wedi golygu bod y galw am ddarpariaeth arbenigol wedi parhau i dyfu. Mae'r ystod o arbenigedd, cymorth arbenigol a chyfleusterau sydd eu hangen mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol hefyd wedi cynyddu.
- Mwy o achosion a mwy o gofnodi mewn perthynas ag anghenion penodol fel awtistiaeth, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADCG), anableddau corfforol a namau ar y synhwyrau
- Mwy o blant a phobl ifanc ag anghenion iechyd a lles emosiynol. Roedd hyn yn duedd cyn COVID 19 ond mae wedi'i waethygu gan ysgolion yn gorfod cau a mesurau eraill i reoli'r pandemig.

Fel ym mhob Awdurdod Lleol, mae'r effaith tymor canol i'r hirdymor ar ddysgwyr cyfnod clo Covid-19 yn ansicr. Mae ysgolion Caerdydd wedi adrodd pryderon yn ymwneud â datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol dysgwyr sydd ar hyn o bryd yn cael eu cefnogi mewn darpariaeth prif ffrwd a nodir bod cynnydd pellach wedi bod yn nifer y plant sy'n cyflwyno ag anghenion iechyd a lles emosiynol sydd wedi golygu bod angen cymorth priodol/lleoliadau mwy arbenigol. Mae gwaharddiad parhaol a diffyg presenoldeb ar sail gorbryder wedi cynyddu'n sylweddol ers 2019/20. Er y gallai hyn fod yn effaith pandemig tymor byr, gallai hyn fod yn rhan o duedd tymor hwy newydd.

## Canolfannau Adnoddau Arbenigol

Dosbarth bychan mewn ysgol prif ffrwd yw canolfan adnoddau arbenigol sy'n cael ei addysgu gan staff arbenigol.

Ar hyn o bryd, mae ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghaerdydd yn cynnal canolfannau adnoddau arbenigol. Mae'r rhain wedi'u dynodi i gefnogi plant ag anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth sydd angen cwricwlwm arbenigol a addysgir mewn amgylchedd dosbarth bach ac mae rhai wedi'u dynodi ar gyfer dysgwyr ag awtistiaeth neu nam ar eu clyw sydd angen cymorth arbenigol i allu manteisio ar ddysgu prif ffrwd, gyda mynediad i ganolfan anogaeth ar gyfer rhywfaint ddysgu ac amser anstrwythuredig.

Diben canolfan adnoddau arbenigol yw galluogi dysgwyr ag anawsterau dysgu i lwyddo mewn amgylchedd ysgol prif ffrwd. Caiff disgyblion eu haddysgu mewn dosbarth bach gan staff arbenigol ac maent yn elwa ar gwricwlwm arbenigol, tra'n elwa ar yr ystod lawn o gyfleoedd addysg sydd ar gael i bob disgybl yn yr ysgol. Lle bo'n briodol, gall disgyblion fynd i wersi a gweithgareddau ochr yn ochr â disgyblion nad ydynt yn mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol.

# Darpariaeth Iechyd a Lles Emosiynol (4 - 11 oed)

## Darpariaeth bresennol

Ar hyn o bryd mae Caerdydd yn cynnal un ysgol arbennig a phum dosbarth lles a gynhelir gan ysgolion cynradd ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol.

Mae lleoedd ysgol arbennig ar gyfer 42 o ddysgwyr oed cynradd ag anghenion iechyd a lles emosiynol yn cael eu darparu ar hyn o bryd yn Ysgol Arbennig The Court.

Mae'r Cyngor hefyd yn darparu 48 o leoliadau dros dro ar gyfer dysgwyr oed cynradd ag anghenion iechyd a lles emosiynol mewn pum dosbarth lles a gynhelir mewn ysgolion prif ffrwd ledled y ddinas, yn yr ysgolion canlynol:

- Ysgol Gynradd y Tyllgoed
- Ysgol Uwchradd Fitzalan
- Ysgol Gynradd Lakeside
- Ysgol Gynradd Springwood
- Ysgol Gymraeg Pwll Coch

Mae dysgwyr yn mynychu dosbarthiadau lles am ymyrraeth therapiwtig sydd â therfyn amser i gefnogi parhau i'w cynnwys yn eu hysgol brif ffrwd leol ar ddiwedd y cyfnod. Mae rhai dysgwyr na ellir diwallu eu hanghenion yn eu hysgol brif ffrwd leol yn trosglwyddo i ddarpariaeth arbenigol fel Ysgol Arbennig The Court.

Yn hanesyddol, mae'r lleoliadau dosbarth lles wedi bod am gyfnod a bennwyd ymlaen llaw o 6 mis neu flwyddyn. Mae nifer cynyddol o blant sydd angen lleoliad yn cyflwyno gydag anghenion sy'n gofyn am ymyrraeth hirach, sy'n awgrymu y dylai'r cyngor fabwysiadu dull mwy hyblyg wrth symud ymlaen, gan gynnwys yr opsiwn i'r cyfnod amser mewn lleoliad gael ei bennu gan gynnydd plant unigol.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu a chynyddu'r ddarpariaeth ymhellach ar gyfer dysgwyr oed cynradd sydd ag anghenion iechyd a lles emosiynol. Gallai hyn fod mewn darpariaeth llesiant dros dro sy'n cefnogi dysgwyr i barhau mewn ysgolion prif ffrwd, ac mewn darpariaeth arbenigol lle mae lleoliadau parhaol sy'n briodol.

**Mae Tabl 3 yn nodi'r ddarpariaeth anghenion iechyd a lles emosiynol i ddysgwyr cynradd sydd ar gael yng Nghaerdydd ar hyn o bryd.**

| Tabl 3: Lleoliadau anghenion Iechyd a Lles Emosiynol i ddysgwyr oed cynradd yng Nghaerdydd 2023/24 | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Capasiti Iechyd a Lles Emosiynol Cynradd presennol 2023/2024** |
| Ysgol Arbennig The Court | 42 |
| Ysgol Uwchradd Fitzalan (Dosbarth Lles) | 8 |
| Ysgol Gynradd Fairwater (Dosbarth Lles) | 8 |
| Ysgol Gynradd Springwood (Dosbarth Lles) | 8 |
| Ysgol Gynradd Lakeside (Dosbarth Lles) | 16 |
| Ysgol Gymraeg Pwll Coch (Dosbarth Lles) | 8 |
| **Cyfanswm lleoedd** | **90** |

Er mwyn mynd i'r afael â'r angen am leoedd ychwanegol, cymeradwyodd y Cyngor gynigion yn 2022 i ehangu Ysgol Arbennig The Court o 42 lle i 72 o leoedd ar draws dwy safle, yn weithredol o fis Medi 2025. Bydd hyn yn ychwanegu capasiti i'r cyfnod cynradd, gan fynd i'r afael â'r angen am fwy o leoedd. Bydd yr adeilad presennol yn cael ei ddisodli gan ddwy ysgol bwrpasol newydd â 36 lle yr un yn nwyrain a gorllewin y ddinas.

Fel rhan o ddatblygiad y ddarpariaeth newydd, bydd enw'r ysgol yn newid o Ysgol Arbennig the Court i Ysgol Cynefin o fis Medi 2025.

Nid oes darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol i ddisgyblion cynradd sydd ag anghenion iechyd a lles emosiynol yng Nghaerdydd ar hyn o bryd.

# Darpariaeth Iechyd a Lles Emosiynol (11 – 19 oed)

## Darpariaeth bresennol

Ym mis Medi 2023 roedd cyfanswm o 284 o leoedd anghenion iechyd a lles emosiynol arbenigol uwchradd (11 - 19 oed) mewn darpariaeth a gynhelir yng Nghaerdydd.

Mae Tabl 4 isod yn nodi'r ddarpariaeth iechyd emosiynol a lles cyfnod uwchradd sydd ar gael ar hyn o bryd wedi ei ddosbarthu fesul ystod oed.

| Tabl 4: Lleoedd Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol Uwchradd yng Nghaerdydd 2023/24 | | | |
|---|---|---|---|
| **Sefydliad** | **11-16 oed** | **11-19 oed** | **Cyfanswm** |
| Ysgol Greenhill | | 64 | 64 |
| Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd (CAA) | | 20 | 20 |
| Ysgol Uwchradd y Dwyrain (CAA) | 20 | | 20 |
| Canolfan Carnegie | | 90 | 90 |
| Bryn y Deryn | | 90 | 90 |
| **Cyfanswm y ddarpariaeth** | **20** | **264** | **284** |

Mae'r sefydliadau hyn i gyd yn rhai cyfrwng Saesneg. Maen nhw'n rhyw gymysg ac yn darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion na ellir eu diwallu mewn darpariaeth brif ffrwd.

Mae Ysgol Greenhill yn darparu ar gyfer dysgwyr o 11-19 oed sydd ag anghenion iechyd emosiynol a llesiant sylweddol.

Sefydlwyd Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd yn 2022 ac mae'n darparu ar gyfer dysgwyr 11 - 19 oed ag anghenion iechyd a lles emosiynol.

Sefydlwyd Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn 2023 ac mae'n darparu ar gyfer dysgwyr 11 - 16 oed sydd ag anghenion iechyd a lles emosiynol sylweddol.

Mae gan Ganolfan Carnegie ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 11-19 oed sydd ag anghenion gorbryder ac iechyd meddwl sy'n eu hatal rhag mynychu ysgol prif ffrwd.

Mae Bryn y Deryn yn Uned Cyfeirio Disgyblion ar gyfer dysgwyr 11-19 oed. Mae gan bob un o'r dysgwyr anghenion iechyd a lles emosiynol sylweddol.

Ar hyn o bryd, mae pob un o'r tair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cefnogi dysgwyr ag anghenion iechyd emosiynol a lles o fewn eu darpariaeth prif ffrwd bresennol.

Mae'r cynigion yn y ddogfen hon yn ceisio sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol newydd ar gyfer disgyblion oed cynradd ac uwchradd sydd ag anghenion iechyd a lles emosiynol, gan ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd â'r anghenion hyn.

Er bod nifer o leoliadau arbenigol ledled Caerdydd ar hyn o bryd, nid oes digon o leoedd ar gael. Mae nifer y plant a fyddai'n elwa o le wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ac amcanestynnir y bydd y niferoedd yn cynyddu ymhellach dros y blynyddoedd nesaf.

Gan nad oes digon o leoedd ysgol arbennig yng Nghaerdydd, mae'r Cyngor hefyd wedi ariannu rhai lleoedd mewn ysgolion arbennig mewn ardaloedd cynghorau eraill neu mewn ysgolion annibynnol. Cyfanswm y gwariant ar y lleoedd hyn oedd £8.9m yn 2022/23. Mae'r gyllideb ar gyfer 2023/24 ar gyfer y mathau hyn o leoedd wedi'i phennu ar hyn o bryd ar £10.3m.

Yn gyffredinol, byddai ehangu darpariaeth o fewn y Sir yn cynnig defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau ariannol y Cyngor na dibynnu ar leoedd mewn ysgolion annibynnol.


Mae'r Cyngor felly'n blaenoriaethu datblygu cynigion i ehangu darpariaeth a gynhelir y Cyngor a fyddai'n cefnogi nifer fwy o ddysgwyr Caerdydd i gael addysg yn y ddinas ac yn eu cymuned leol a byddai'n cael effaith gadarnhaol ar ddosbarthiad adnoddau ariannol y Cyngor i ysgolion ledled y ddinas

## Dosbarthiad daearyddol darpariaeth arbenigol

Gellir gweld map sy'n dangos lleoliad y ddarpariaeth arbenigol bresennol ar dudalen 17.

Gall diffyg canolfannau adnoddau arbenigol mewn rhai ardaloedd roi dysgwyr sy'n byw yn yr ardaloedd hynny dan anfantais. Mae rhai teuluoedd yn anghyfarwydd â'r ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth wedi'i lleoli. Mae'n bosibl na all rhieni neu ofalwyr deithio'n hawdd i'r ardaloedd hynny.

Er bod trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gael i blant o'r fath, mae anfon plentyn ifanc i'r ysgol mewn ardal anghyfarwydd yn benderfyniad anodd i rieni/gofalwyr. Byddai dosbarthiad gwell o ganolfannau adnoddau arbenigol ar draws y ddinas yn gwella mynediad i ddisgyblion. Byddai'n lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael.




## Galw am leoedd


Mae monitro parhaus y Cyngor o anghenion unigol dysgwyr, a sut mae anghenion pob dysgwr yn esblygu, yn caniatáu i dueddiadau data gael eu nodi sydd wedyn yn llywio'r broses o gynllunio lleoedd a chymorth i ddysgwyr.

Mae tabl 5 isod yn nodi'r twf yn nifer y dysgwyr sy'n cyrchu darpariaeth arbenigol mewn blynyddoedd diweddar:

**Tabl 5: Disgyblion Caerdydd mewn lleoliad arbenigol, 2017/18 i 2022/2023**

| Darpariaeth a gynhelir Caerdydd | 17-18 | 18-19 | 19-20 | 20-21 | 21-22 | 22-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canolfan Adnoddau Arbenigol Cynradd | 174 | 192 | 192 | 192 | 213 | 204 |
| Canolfan Adnoddau Arbenigol Uwchradd | 219 | 274 | 274 | 294 | 341 | 365 |
| Cynradd Arbennig (4-11) | 204 | 216 | 240 | 254 | 282 | 299 |
| Uwchradd Arbennig(11-19) | 186 | 196 | 205 | 208 | 210 | 227 |
| Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn (3-19) | 184 | 177 | 190 | 198 | 208 | 222 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion (cofrestriad unigol i Uned Cyfeirio Disgyblion) | 38 | 51 | 57 | 64 | 72 | 68 |
| **Is-gyfanswm - ysgolion arbennig Caerdydd, canolfannau adnoddau arbenigol ac Uned Cyfeirio Disgyblion** | **1005** | **1106** | **1158** | **1210** | **1326** | **1385** |
| Cynradd - wedi'i leoli mewn ardal Awdurdod Lleol arall | 17 | 14 | 14 | 13 | 11 | 13 |
| Uwchradd – wedi'i leoli mewn ardal Awdurdod Lleol arall | 68 | 55 | 59 | 59 | 51 | 40 |
| Cynradd Annibynnol / Addysg Heblaw yn yr Ysgol | 3 | 4 | 9 | 9 | 15 | 37 |
| Uwchradd Annibynnol / Addysg Heblaw yn yr ysgol | 312 | 279 | 267 | 228 | 257 | 272 |
| **Is-gyfanswm - arall** | **400** | **352** | **349** | **309** | **334** | **362** |
| **Cyfanswm Lleoliadau** | **1405** | **1458** | **1507** | **1519** | **1660** | **1747** |

## DISGYBLION OED CYNRADD CAERDYDD SY'N MANTEISIO AR LEOLIADAU ADDYSG ARBENIGOL





Wrth gymharu nifer y dysgwyr sydd mewn darpariaeth arbenigol gyda phoblogaeth gyffredinol yr ysgolion yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gellir nodi cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yng nghyfran y boblogaeth ddisgyblion sy'n defnyddio darpariaeth arbenigol.

Mae tabl 6 yn cynrychioli parhad o'r duedd amcanestyniad hon yn y gofyniad am leoliadau arbenigol, yn erbyn y poblogaethau disgyblion a amcanestynnir yn y cyfnodau cynradd, uwchradd ac ôl-16.

**Tabl 6: Parhad y duedd ddiweddar i ddisgyblion Caerdydd ddefnyddio lleoliad arbenigol**

| | 22-23 | 23-24 | 24-25 | 25-26 | 26-27 | 27-28 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcanestyniad o dwf parhaus | 1747 | 1776 | 1817 | 1854 | 1887 | 1915 |
| Amcanestyniad o dwf parhaus - % o'r boblogaeth | 3.4% | 3.4% | 3.5% | 3.6% | 3.7% | 3.8% |

## DISGYBLION CAERDYDD YN MANTEISIO AR LEOLIADAU ARBENIGOL A PHARHAD Y DUEDD




Y byddai tuedd y twf a nodwyd o tua 2.9% yn 2017/18 i oddeutu 3.4% yn 2022/23, pe bai'n parhau, yn cyrraedd tua 3.8% (1,915 o ddisgyblion) erbyn 2027/28. Fodd bynnag, er bod hyn yn atgyfnerthu'r angen am gynigion i ehangu'r ddarpariaeth arbenigol hyd yma, ni ellir modelu tueddiadau twf o'r fath i barhau'n amhenodol uwch law 3.8% o'r boblogaeth ysgolion gyfan.

Ni ragwelir y dylid gosod cyfran mor uchel o ddysgwyr mewn darpariaeth arbenigol, megis ysgolion arbennig, canolfannau adnoddau arbenigol ac unedau cyfeirio disgyblion. Dylai'r gefnogaeth mewn ysgolion prif ffrwd, lle bo'n briodol, ganiatáu i ddysgwyr aros o fewn eu cymuned ysgol gartref. Mae'r Cyngor yn ymchwilio i gyfleoedd i wella cyfleusterau ar gyfer atal ac ymyrryd yn gynnar mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, gan gynnwys gofodau hyblyg i ganiatáu ar gyfer dosbarthiadau llai ac ar gyfer sefydlu trefniadau anogaeth a gwahardd mewnol.

## Cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu a chynyddu'r ddarpariaeth ymhellach ar gyfer dysgwyr sydd ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol, mewn darpariaeth lesiant dros dro sy'n cefnogi dysgwyr i barhau mewn ysgolion prif ffrwd, ac mewn darpariaeth arbenigol pan fo lleoliadau parhaol yn briodol.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn y cyfnod oedran cynradd yn cynyddu nifer gyffredinol y lleoliadau ar gyfer iechyd a lles emosiynol o 90 lle i 114 lle o fis Medi 2024, gan gynyddu i 144 lle ym mis Medi 2025 yn dilyn ehangu Ysgol Arbennig The Court.

Byddai trosi'r dosbarthiadau lles presennol i statws canolfan adnoddau arbenigol, yn dod â'r model yn unol â'r dosbarthiadau newydd a gynigir yn Ysgol Gynradd Baden Powell ac Ysgol Gynradd Herbert Thompson. Byddai pob canolfan adnoddau arbenigol llesiant yn parhau i ddarparu lleoedd ymyrraeth gynnar cyfyngedig o ran amser, gyda chyfnod y lleoliad yn amrywio yn unol ag anghenion a chynnydd y plentyn.

Ni fyddai'r ddarpariaeth dosbarth lles yn Ysgol Uwchradd Fitzalan yn newid.

Byddai'r newid arfaethedig yn y cyfnod oedran uwchradd yn cynyddu nifer y lleoliadau ar gyfer lleoedd iechyd a lles emosiynol erbyn 20 o fis Medi 2024.

Mae'r ystod o gynigion yn canolbwyntio ar gefnogi disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd, lle bo hynny'n briodol, ac ar dwf cynaliadwy darpariaeth arbenigol sefydledig a llwyddiannus. Byddai hyn yn lleihau dibyniaeth y Cyngor ar lefydd y tu allan i'r sir a rhai annibynnol yn y blynyddoedd i ddod.

Byddai'r cynnydd cyffredinol yn y ddarpariaeth, i gyd-fynd yn agosach â'r angen a amcanestynnir am leoedd, yn galluogi nifer fwy o ddysgwyr i gael eu lleoli mewn darpariaeth sydd o fewn neu'n agosach at eu cymuned leol ac yn lleihau amseroedd teithio.

# Ysgol Gynradd Baden Powell



# Cynnig am leoedd Ychwanegol yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Baden Powell

Mae Ysgol Gynradd Baden Powell yn ysgol gynradd gymunedol Saesneg gyda darpariaeth feithrin wedi'i lleoli yn Heol Muirton, Tremorfa, Caerdydd, CF11 9DZ.

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth arbenigol cynradd, mae'r Cyngor yn cynnig:

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Baden Powell o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.



Nodir gwybodaeth sy'n benodol i'r cynnig hwn ar dudalennau 21-27.

## Nifer y lleoedd yn yr ysgol

**Mae Tabl 7 isod yn rhoi manylion y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Baden Powell.**

| Enw'r ysgol | Capasiti Cyhoeddedig Presennol (4-11 oed) | Lleoedd fesul grŵp blwyddyn (4-11 oed) | Lleoedd Meithrin | Cyfrwng iaith a Chategori'r Ysgol |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Baden Powell | 420 | 60 | 48 | Ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg |

Capasiti presennol Ysgol Gynradd Baden Powell yw 403 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 288 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ionawr 2023.

## Y galw am leoedd yn yr ysgol

**Mae Tabl 8 isod yn nodi manylion niferoedd diweddar ar y gofrestr ac amcanestyniadau ar gyfer Ysgol Gynradd Baden Powell.**

**Tabl 8: Niferoedd diweddar ac amcanestynnol ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Baden Powell**

| Ysgol | Nifer ar y gofrestr (CYBLD) | | | | | Amcanestyniadau disgyblion* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2023/26 | 2026/27 | 2027/28 |
| Ysgol Gynradd Baden Powell lleoedd prif ffrwd | 358 | 370 | 330 | 307 | 288 | 267 | 251 | 237 | 224 | 222 |

*Galw am leoedd disgyblion yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth a/neu ddata tuedd ADY wedi'i gapio i gapasiti ysgolion

## Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben / risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

**Tabl 9: Sgorau cyflwr ac addasrwydd**

| Sgôr | Cyflwr | Addasrwydd |
|---|---|---|
| A | Da ac yn gweithredu'n effeithlon | Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol |
| B | Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio. | Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd. |
| C | Gwael, gyda diffygion mawr. | Gwael. Amharu ar ddulliau addysgu/effaith wael ar drefn yr ysgol |
| D | Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg ddybryd o fethu. | Gwael iawn. Adeiladau'n amharu'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm. |

Yn fwyaf diweddar, cafodd Ysgol Gynradd Baden Powell sgôr o C am gyflwr a B am addasrwydd.

Byddai'r safle, a'r seilwaith lleol oddi ar y safle, yn gallu cefnogi datblygiad darpariaeth ysgol arbennig.

## Gofod Canolfan Adnoddau Arbenigol Arfaethedig

Mae Ysgol Gynradd Baden Powell yn Nhremorfa yn ymestyn i tua 2.6 erw. Nid oes angen tir ychwanegol i hwyluso sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd emosiynol a lles yn yr ysgol o fis Medi 2024.

Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol angen ystafell ddosbarth i ddarparu amgylchedd meithringar, gan gynnwys ystafell neilltuo i blant hunan-reoleiddio a gyda mynediad at ardal ddysgu ddiogel y tu allan a thoiledau.

Cynigir y byddai'r ganolfan yn cael ei lletya yn adeiladau'r ysgol bresennol.

# Ansawdd a Safonau

Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan Gonsortiwm Canolbarth y De yn ymwneud ag ansawdd a safonau yn Ysgol Gynradd Baden Powell.

- Mae prosesau hunanwerthuso yn gynyddol drwyadl a chywir, gan alluogi uwch arweinwyr i nodi cryfderau a meysydd gwella'r ysgol yn gyflym.
- Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi datblygu hanes cryf o weithredu'n llwyddiannus ar ei meysydd i'w gwella.
- Mae arweinyddiaeth sydd wedi ei ddosbarthu wedi dod yn nodwedd o'r ysgol, gydag ystod gynyddol fuddiol o staff yn dylanwadu ar ansawdd gwaith yr ysgol.
- Mae gwaith i fabwysiadu gofynion cwricwlwm i Gymru wedi bod yn rhagweithiol ac yn bwrpasol i anghenion cymuned gyfan yr ysgol.
- Mae'r ysgol yn ymgysylltu'n weithredol â'r holl randdeiliaid ac yn gweithio ar y cyd ag ystod eang o ddarparwyr, rhwydweithiau a sefydliadau allanol.
- Mae gwaith yr ysgol o ran gofynion diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gryf.
- Ar draws yr ysgol, mae cefnogaeth a darpariaeth ar gyfer llesiant disgyblion yn gadarn ac yn effeithiol.

Yn ôl arolwg mwyaf diweddar Estyn ym mis Gorffennaf 2017, barnwyd bod safonau, llesiant ac agweddau'r ysgol at ddysgu, addysgu a phrofiadau dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad yn dda. Roedd yn barnu bod addysgu ac arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol yn ddigonol.

## Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (www.addewidcaerdydd.co.uk).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau'n uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae safonau yn yr ysgol yn dda ac ni ddisgwylir y bydd sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol yn effeithio'n negyddol ar yr ysgol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg yn yr ysgol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

## Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn yr ysgol.

Trefnir ysgolion arbennig, dosbarthiadau lles a chanolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr sy'n profi anghenion iechyd a lles emosiynol i ddarparu ystod o ymyriadau a chymorth therapiwtig a meithringar. Bydd llawer o'r dysgwyr yn profi ystod o anawsterau cysylltiedig megis oedi ar lythrennedd a rhifedd, iaith lleferydd a chyfathrebu, rheoleiddio synhwyraidd ac emosiynol. Mae ysgolion yn sicrhau bod gan staff a gyflogir yn y lleoliad sgiliau a phrofiad priodol i gynllunio a gweithredu ymyriadau gan gynnwys ELSA a THRIVE.

Mae'r lleoliadau'n darparu dysgu dosbarth bach wedi'i deilwra i anghenion dysgu'r disgyblion, gan gynnwys ymyriadau i gefnogi llythrennedd a rhifedd, llafaredd, iaith a chyfathrebu. Mae'r dosbarthiadau lles yn canolbwyntio ar gefnogi ailintegreiddio a dychwelyd i ddysgu prif ffrwd ar bwynt priodol: cynllunnir i'r broses ystyried cynnydd ac anghenion y dysgwr.

Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol ac i weithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella gallu'r ysgol i fod yn gynhwysol ac o fudd i holl ddisgyblion yr ysgolion.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisïau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Mae'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ysgolion arbennig a'r canolfannau adnoddau arbenigol. Bydd gan bob dysgwr Gynllun Datblygu Unigol sy'n ddogfen statudol sy'n nodi'r hyn sy'n 'bwysig i' ac yn 'bwysig ar gyfer' y plentyn neu'r person ifanc, y deilliannau a ddymunir a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd i'w gweithredu er mwyn cyflawni'r deilliannau.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth ac arweiniad gofal.

### Arwain a Rheoli

Mae'r canolfannau adnoddau arbenigol yn cael eu dirprwyo i ysgolion. Cyrff Llywodraethu sy'n pennu'r model rheoli mwyaf priodol ar gyfer y lleoliad, yn unol â'r dull rheoli ac arweinyddiaeth ysgol gyfan a'r nod o sicrhau bod y ganolfan yn rhan gwbl integredig o'r ysgol. Gall yr awdurdod lleol ddarparu cyngor a chymorth o ran penodiadau arbenigol.

Nid yw lleoliadau newydd fel arfer yn agor i'w capasiti llawn yn y flwyddyn gyntaf. Cyn belled ag y bo modd, mae derbyniadau wedi'u gwasgaru dros 3-5 mlynedd, gan alluogi'r lleoliad i sefydlu ymarfer fesul cam.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

## Beth yw manteision y newid arfaethedig?

- Byddai'r cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd ag anghenion iechyd a lles emosiynol a byddai'n cyfrannu at ateb y galw a ragamcennir.
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol yr ysgol. Byddai hyn o fudd i bob disgybl yn yr ysgol;
- Byddai'r cynnig yn golygu y gallai disgyblion sy'n byw yn ne'r ddinas sydd angen lle mewn canolfan adnoddau arbenigol iechyd a lles emosiynol gael darpariaeth addas yn nes at adref, ac felly'n teithio pellteroedd byrrach i fanteisio ar ddarpariaeth arbenigol.

## Anfanteision posibl y newid arfaethedig

- Gall newid fod yn anodd i rai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Efallai y byddai symud i adeilad newydd ar safle newydd yn peri gofid iddynt. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r lleoliad newydd. Fodd bynnag, byddai digon o amser a phrosesau hirhoedlog i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.
- Gallai fod mwy o dagfeydd traffig o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Baden Powell i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

## Risgiau

- Pe bai angen unrhyw waith adeiladu, addasu ac adnewyddu, gallai gweithredu'r newid arfaethedig gael ei effeithio oherwydd anawsterau annisgwyl wrth benodi contractwyr priodol, oedi wrth gyflawni prosiectau neu sicrhau cyllid digonol. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni ystod o brosiectau adeiladu ysgolion yn llwyddiannus o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr sy'n tyfu a byddai'r gwersi a ddysgwyd drwy hyn yn cyfyngu ar effaith unrhyw faterion annisgwyl a allai godi. Bydd amrywiaeth o opsiynau'n cael eu datblygu yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad. Yna cynhelid gwerthusiad ariannol llawn. Bydd hyn yn sicrhau fforddiadwyedd ac yn cyfyngu ar y pwysau cyllidebol ar y Cyngor.

## Dewisiadau amgen

Gallai opsiynau amgen i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol i blant ag anghenion iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Baden Powell gynnwys:

- Gwneud dim. Nid oes digon o leoedd arbenigol yng Nghaerdydd. Byddai ehangu darpariaeth o fewn y Sir yn cynnig defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau ariannol y Cyngor na dibynnu ar leoedd mewn ysgolion annibynnol.
- Sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill a/neu niferoedd gwahanol o leoedd yn y canolfannau presennol neu arfaethedig.

Fodd bynnag, mae prinder darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol yn yr ardal hon o'r ddinas. Mae safonau yn Ysgol Gynradd Baden Powell yn dda ac mae gan yr ysgol hanes profedig o gefnogaeth o ansawdd uchel i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae lleoliad yr ysgol hefyd yn cefnogi dosbarthu lleoedd iechyd a lles emosiynol cynradd ledled y ddinas ac mae lle i ddatblygu'r gofod gofynnol o fewn yr adeiladau presennol.

Felly, ystyrir bod ehangu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Gynradd Baden Powell yn opsiwn a ffefrir.

## Materion Adnoddau Dynol

Byddai cynigion i sefydlu canolfannau adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Baden Powell yn gofyn bod y corff llywodraethu i ystyried y gofynion gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangu. Byddai'r corff llywodraethu'n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion.

Bydd Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda'r corff llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau AD sy'n deillio o sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo corff llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i sefydlu'r ganolfan adnoddau arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff ysgolion sydd ar y gofrestr adleoli.

## Materion trafnidiaeth

Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol arfaethedig ar safle Ysgol Gynradd Baden Powell yn gwasanaethu disgyblion yn ne Caerdydd a byddai'n lleihau'r pellter teithio i'r ysgol i blant yn y rhan hon o'r ddinas sydd angen lleoliad mewn canolfan adnoddau arbenigol ac sy'n teithio i rannau eraill o'r ddinas ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r maen prawf pellter cerdded cymwys statudol o ddwy filltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim o'u cartref i ysgol gynradd, gan gynnwys i ysgolion arbennig ac i gyfleusterau canolfan adnoddau arbenigol. Ni fyddai disgyblion sy'n mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Baden Powell ac yn byw o fewn dwy filltir i'r ysgol, yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim oni bai bod hyn yn angenrheidiol er mwyn diwallu eu hanghenion dysgu unigol a'u problemau cymdeithasol.

Mae anghenion unigol disgyblion mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol, ynghyd â'r pellteroedd mwy a deithir, yn cyfyngu ar y cyfle i gael cyfraddau teithio llesol uchel o gymharu â disgyblion ysgolion prif ffrwd.

Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy ymhlith y garfan Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan gynnwys Hyfforddiant Teithio Annibynnol i ddisgyblion hŷn, cynnal a chadw beiciau a hyfforddiant beicio.

Gall rhai disgyblion deithio'n annibynnol neu gyda rhiant/gofalwyr ac os ydynt yn byw o fewn y pellter cymwys o ddwy filltir, efallai na fyddant yn gymwys ar gyfer Trafnidiaeth i Ddysgwyr.

Byddai darparu'r gwelliannau a argymhellir ar gyfer teithio llesol o fudd i'r disgyblion hyn yn ogystal ag unrhyw ddisgyblion prif ffrwd, staff ac ymwelwyr â'r safleoedd. Gallai'r rhain gynnwys gwelliannau diogelwch priodol ar y ffyrdd megis croesfannau, cyfleusterau beicio, parcio beic diogel, a gwelliannau i gyfleusterau aros am fysiau.

Gan y byddai uchafswm o 8 o blant yn mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol, rhagwelir y byddai nifer fach o blant yn cyrraedd ar drafnidiaeth ysgol am ddim mewn tacsis a rennir. Bydd angen cyfleusterau priodol ar y Trafnidiaeth i Ddysgwyr yma er mwyn gollwng a chasglu a chaiff hyn ei ystyried fel rhan o'r cynigion.

Rhagwelir y byddai angen ardal gollwng a chasglu ar gyfer trafnidiaeth ysgol i 3 thacsi.  Nid oes lle ar gael ar y safle ac mae angen astudiaeth dichonoldeb pellach. Mae'r posibilrwydd o ddefnyddio maes parcio Hyb y STAR gyferbyn gyda staff i hebrwng disgyblion yn cael ei ystyried.

Gan fod y Cyngor yn ceisio cyflawni dosbarthiad gwell o ddarpariaeth canolfan adnoddau arbenigol ledled y ddinas, disgwylir y byddai'r pellter teithio cyfartalog i ganolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr unigol yn lleihau yn y dyfodol.

# Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur. Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynigion. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai ohonynt yn unig, fel sydd orau gennych.

Fel arall, gallwch anfon eich barn atom drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolionADY
- E-bostio eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 19 Ionawr 2024.**



# Ysgol Gynradd y Tyllgoed

# Cynnig ar gyfer lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol ychwanegol yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed

Ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg yw Ysgol Gynradd y Tyllgoed sydd wedi'i lleoli yn Wellwright Road, Y Tyllgoed, Caerdydd, CF5 3ED.

Mae'r ysgol yn cynnal dosbarth lles i ddisgyblion ag anghenion iechyd a lles emosiynol.

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth arbenigol cynradd, mae'r Cyngor yn cynnig:

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn disodli'r dosbarth lles presennol.

Nodir gwybodaeth sy'n benodol i'r cynnig hwn ar dudalennau 29-35.




## Nifer y lleoedd yn yr ysgol

Mae Tabl 10 isod yn rhoi manylion y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed

**Tabl 10: Lleoedd yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed**

| Enw'r ysgol | Capasiti Cyhoeddedig Presennol (4-11 oed) | Lleoedd fesul grŵp blwyddyn (4-11 oed) | Lleoedd Meithrin | Cyfrwng iaith a Chategori'r Ysgol |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd y Tyllgoed (lleoedd prif ffrwd) | 256 | 40 | - | Ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg |
| Ysgol Gynradd y Tyllgoed (lleoedd dosbarth lles) | 8 | Dd/B | Dd/B | |

Capasiti presennol Ysgol Gynradd y Tyllgoed yw 256 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 175 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ionawr 2023.

## Y galw am leoedd yn yr ysgol

**Mae Tabl 11 isod yn nodi manylion niferoedd diweddar ar y gofrestr ac amcanestyniadau ar gyfer Ysgol Gynradd y Tyllgoed.**

**Tabl 11: Niferoedd diweddar ac amcanestynnol ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed**

| Ysgol | Nifer ar y gofrestr (CYBLD) | | | | | Amcanestyniadau disgyblion* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2023/26 | 2026/27 | 2027/28 |
| Ysgol Gynradd y Tyllgoed lleoedd prif ffrwd | 243 | 224 | 209 | 198 | 175 | 172 | 169 | 154 | 157 | 154 |

*Galw am leoedd disgyblion yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth a/neu ddata tuedd ADY wedi'i gapio i gapasiti ysgolion

## Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben / risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

**Tabl 12: Sgorau cyflwr ac addasrwydd**

| Sgôr | Cyflwr | Addasrwydd |
|---|---|---|
| A | Da ac yn gweithredu'n effeithlon | Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol |
| B | Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio. | Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd. |
| C | Gwael, gyda diffygion mawr. | Gwael. Amharu ar ddulliau addysgu/effaith wael ar drefn yr ysgol |
| D | Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg ddybryd o fethu. | Gwael iawn. Adeiladau'n amharu'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm. |

Cafodd Ysgol Gynradd y Tyllgoed sgôr diweddar o B ar gyfer cyflwr a B ar gyfer addasrwydd.

Byddai'r safle, a'r seilwaith lleol oddi ar y safle, yn gallu cefnogi datblygiad darpariaeth ysgol arbennig.

## Gofod Canolfan Adnoddau Arbenigol Arfaethedig

Mae Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn y Tyllgoed yn ymestyn i tua 12.1 erw. Bwriedir i ran o'r safle gael ei feddiannu gan Ysgol Arbennig The Court (Ysgol Cynefin) o fis Medi 2025.

Nid oes angen prynu tir ychwanegol i hwyluso sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn yr ysgol o fis Medi 2024.

Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol angen ystafell ddosbarth i ddarparu amgylchedd meithringar, gan gynnwys ystafell i neilltuo er mwyn i blant hunanreoleiddio ynghyd â mynediad i ardal ddysgu ddiogel y tu allan a thoiledau. Mae hyn eisoes ar waith ar gyfer y ddarpariaeth dosbarth llesiant bresennol.

Cynigir y byddai'r ganolfan yn cael lle yn yr adeiladau presennol ac yn disodli'r dosbarth llesiant presennol.

# Ansawdd a Safonau

Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan Gonsortiwm Canolbarth y De yn ymwneud ag ansawdd a safonau yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed.

- Mae'r ysgol yn gwybod ei chryfderau a'i meysydd i'w datblygu. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei llywio gan ystod o weithgareddau monitro dros gyfnod y flwyddyn academaidd, ac mae'r partner gwella wedi bod ynghlwm wrth lawer ohonynt.
- Caiff blaenoriaethau gwella'r ysgol eu monitro'n ofalus a'u gwerthuso i sicrhau effaith gadarnhaol ar les a safonau dysgu disgyblion.
- Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu ei chwricwlwm yn unol â chanllawiau ac mewn cydweithrediad ag ymarferwyr arweiniol Consortiwm Canolbarth y De.
- Mae'r ysgol wedi ymateb i ofynion y diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol ac yn cyflawni ei dyletswyddau statudol yn hyn o beth.
- Defnyddir cyllid grant i ddarparu ymyrraeth a chymorth i ddisgyblion a nodwyd. Mae llawer o'r ymyriadau hyn yn ceisio diwallu anghenion lles ac emosiynol dysgwyr.
- Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu cyfranogiad rhieni ac yn cyfeirio at ddogfen "Ymgysylltu â Theuluoedd a Chymunedau" Llywodraeth Cymru i wella hyn ymhellach.
- Mae'r pennaeth newydd ac arweinwyr yr ysgol yn cefnogi pob disgybl, a'u teuluoedd, i gyrraedd eu potensial llawn.

Yn ôl arolwg mwyaf diweddar Estyn ym mis Chwefror 2020, barnwyd bod safonau, lles ac agweddau'r ysgol at ddysgu, addysgu a phrofiadau dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda.

## Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (www.addewidcaerdydd.co.uk).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau'n uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae safonau yn yr ysgol yn dda ac ni ddisgwylir y bydd sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol yn effeithio'n negyddol ar yr ysgol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg yn yr ysgol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

## Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn yr ysgol.

Trefnir ysgolion arbennig, dosbarthiadau lles a chanolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr sy'n profi anghenion iechyd a lles emosiynol i ddarparu ystod o ymyriadau a chymorth therapiwtig a meithringar. Bydd llawer o'r dysgwyr yn profi ystod o anawsterau cysylltiedig megis oedi ar lythrennedd a rhifedd, llefaredd, iaith a chyfathrebu, rheoleiddio synhwyraidd ac emosiynol. Mae ysgolion yn sicrhau bod gan staff a gyflogir yn y lleoliad sgiliau a phrofiad priodol i gynllunio a gweithredu ymyriadau gan gynnwys ELSA a THRIVE.

Mae'r lleoliadau'n darparu dysgu dosbarth bach wedi'i deilwra i anghenion dysgu'r disgyblion, gan gynnwys ymyriadau i gefnogi llythrennedd a rhifedd, llefaredd, iaith a chyfathrebu. Mae'r dosbarthiadau lles yn canolbwyntio ar gefnogi ailintegreiddio a dychwelyd i ddysgu prif ffrwd ar bwynt priodol: bwriedir i'r broses ystyried cynnydd ac anghenion y dysgwr.

Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol ac i weithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella gallu'r ysgol i fod yn gynhwysol ac o fudd i holl ddisgyblion yr ysgolion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisïau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Mae'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ysgolion arbennig a'r canolfannau adnoddau arbenigol. Bydd gan bob dysgwr Gynllun Datblygu Unigol sy'n ddogfen statudol sy'n nodi'r hyn sy'n 'bwysig i' ac yn 'bwysig ar gyfer' y plentyn neu'r person ifanc, y deilliannau a ddymunir a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd i'w gweithredu er mwyn cyflawni'r deilliannau.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth ac arweiniad gofal.

## Arwain a Rheoli

Mae'r canolfannau adnoddau arbenigol yn cael eu dirprwyo i ysgolion. Cyrff Llywodraethu sy'n pennu'r model rheoli mwyaf priodol ar gyfer y lleoliad, yn unol â'r dull rheoli ac arweinyddiaeth ysgol gyfan a'r nod o sicrhau bod y ganolfan yn rhan gwbl integredig o'r ysgol. Gall yr awdurdod lleol ddarparu cyngor a chymorth o ran penodiadau arbenigol.

Nid yw lleoliadau newydd fel arfer yn agor i'w capasiti llawn yn y flwyddyn gyntaf. Cyn belled ag y bo modd, mae derbyniadau wedi'u gwasgaru dros 3-5 mlynedd, gan alluogi'r lleoliad i sefydlu ymarfer fesul cam.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

# Beth yw manteision y newid arfaethedig?

- Byddai'r cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd ag anghenion iechyd a lles emosiynol a byddai'n cyfrannu at ateb y galw a ragamcennir.
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol yr ysgol. Byddai hyn o fudd i bob disgybl yn yr ysgol;
- Byddai cydleoli'r ganolfan adnoddau arbenigol arfaethedig ar yr un safle â'r Ysgol The Court (Ysgol Cynefin) newydd yn caniatáu i staff rannu arfer gorau, cryfhau perthnasoedd â darpariaeth ysgolion

arbennig, caniatáu ar gyfer cyfleoedd dysgu proffesiynol ac ar gyfer gweithio amlasiantaethol.

- Byddai'r cynnig yn golygu y gallai disgyblion sy'n byw yng ngorllewin y ddinas ac sydd angen lle mewn canolfan adnoddau arbenigol iechyd a lles emosiynol gael darpariaeth addas yn nes at adref, ac felly'n teithio pellteroedd byrrach i fanteisio ar ddarpariaeth arbenigol.

## Anfanteision posibl y newid arfaethedig

- Gall newid fod yn anodd i rai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Efallai y byddai symud i adeilad newydd ar safle newydd yn peri gofid iddynt. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r lleoliad newydd. Fodd bynnag, byddai digon o amser a phrosesau hirhoedlog i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.
- Gallai fod mwy o dagfeydd traffig o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Fodd bynnag, gan na fyddai nifer y dysgwyr sy'n defnyddio'r ganolfan yn newid o'r nifer sy'n mynychu'r Dosbarth Lles ar hyn o bryd, mae'n debygol na fydd unrhyw effaith wahanol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd y Tyllgoed i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

## Risgiau

- Pe bai angen unrhyw waith adeiladu, addasu ac adnewyddu, gallai gweithredu'r newid arfaethedig gael ei effeithio oherwydd anawsterau annisgwyl wrth benodi contractwyr priodol, oedi wrth gyflawni prosiectau neu sicrhau cyllid digonol. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni ystod o brosiectau adeiladu ysgolion yn llwyddiannus o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr sy'n tyfu a byddai'r gwersi a ddysgwyd drwy hyn yn cyfyngu ar effaith unrhyw faterion annisgwyl a allai godi. Bydd amrywiaeth o opsiynau'n cael eu datblygu yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad. Yna cynhelid gwerthusiad ariannol llawn. Bydd hyn yn sicrhau fforddiadwyedd ac yn cyfyngu ar y pwysau cyllidebol ar y Cyngor.

## Dewisiadau amgen

Gallai opsiynau amgen i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer plant ag anghenion iechyd a lles emosiynol yng Nghanolfan Ysgol Gynradd y Tyllgoed gynnwys:

- Gwneud dim. Nid oes digon o leoedd arbenigol yng Nghaerdydd. Byddai ehangu darpariaeth o fewn y Sir yn cynnig defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau ariannol y Cyngor na dibynnu ar leoedd mewn ysgolion annibynnol.
- Sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill a/neu niferoedd gwahanol o leoedd yn y canolfannau presennol neu arfaethedig.

Fodd bynnag, mae prinder darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol yn yr ardal hon o'r ddinas. Mae safonau yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn dda ac mae gan yr ysgol hanes profedig o gefnogaeth o ansawdd uchel i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae lleoliad yr ysgol hefyd yn cefnogi dosbarthu lleoedd anghenion iechyd a lles emosiynol cynradd ledled y ddinas ac mae lle i ddatblygu'r gofod gofynnol o fewn yr adeiladau presennol.

Felly, ystyrir sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn opsiwn a ffefrir.

## Materion Adnoddau Dynol

Byddai cynigion i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn gofyn bod y corff llywodraethu yn ystyried y gofynion o ran y gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangu. Byddai'r corff llywodraethu'n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion.

Bydd y Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda'r corff llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau AD sy'n deillio o sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo corff llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i sefydlu'r ganolfan adnoddau arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff ysgolion sydd ar y gofrestr adleoli.

## Materion trafnidiaeth

Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol arfaethedig ar safle Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn gwasanaethu disgyblion yng ngorllewin Caerdydd a gallai leihau'r pellter a deithir i'r ysgol i blant yn yr ardal hon o'r ddinas sydd angen lleoliad mewn canolfan adnoddau arbenigol ac sy'n teithio i rannau eraill o'r ddinas ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r maen prawf pellter cerdded cymwys statudol o ddwy filltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim o'u cartref i ysgol gynradd, gan gynnwys i ysgolion arbennig ac i gyfleusterau canolfan adnoddau arbenigol. Ni fyddai disgyblion sy'n mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed sy'n byw o fewn dwy filltir i'r ysgol, yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim oni bai bod hyn yn angenrheidiol er mwyn diwallu eu hanghenion dysgu unigol a'u problemau cymdeithasol.

Mae anghenion unigol disgyblion mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol, ynghyd â'r pellteroedd mwy a deithir, yn cyfyngu ar y cyfle i gael cyfraddau teithio llesol uchel o gymharu â disgyblion ysgolion prif ffrwd.

Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy ymhlith y garfan Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan gynnwys Hyfforddiant Teithio Annibynnol i ddisgyblion hŷn, cynnal a chadw beiciau a hyfforddiant beicio.

Gall rhai disgyblion deithio'n annibynnol neu gyda rhiant/gofalwyr ac os ydynt yn byw o fewn y pellter cymwys o ddwy filltir, efallai na fyddant yn gymwys ar gyfer Trafnidiaeth i Ddysgwyr.

Byddai darparu'r gwelliannau a argymhellir ar gyfer teithio llesol o fudd i'r disgyblion hyn yn ogystal ag unrhyw ddisgyblion prif ffrwd, staff ac ymwelwyr â'r safleoedd. Gallai'r rhain gynnwys gwelliannau diogelwch priodol ar y ffyrdd megis croesfannau, cyfleusterau beicio, parcio beic diogel, a gwelliannau i gyfleusterau aros am fysiau.

Gan y byddai uchafswm o 8 o blant yn mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol, rhagwelir y byddai nifer fach o blant yn cyrraedd ar drafnidiaeth ysgol am ddim mewn tacsis a rennir. Bydd angen cyfleusterau priodol ar y Trafnidiaeth i Ddysgwyr yma er mwyn gollwng a chasglu a chaiff hyn ei ystyried fel rhan o'r cynigion.

Rhagwelir y byddai angen ardal gollwng a chasglu ar gyfer trafnidiaeth ysgol ar gyfer 3 thacsi. Mae'r lle gofynnol ar gael ar y safle drwy ad-drefnu'r cyfleusterau presennol.

Gan fod y Cyngor yn ceisio cyflawni dosbarthiad gwell o ddarpariaeth canolfan adnoddau arbenigol ledled y ddinas, disgwylir y byddai'r pellter teithio cyfartalog i ganolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr unigol yn lleihau yn y dyfodol.

# Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur. Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynigion. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai ohonynt yn unig, fel sydd orau gennych.

Fel arall, gallwch anfon eich barn atom drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolionADY
- E-bostio eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 19 Ionawr 2024**



# Ysgol Gynradd Herbert Thompson

# Cynnig ar gyfer lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol ychwanegol yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson

Mae Ysgol Gynradd Herbert Thompson yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg gyda darpariaeth feithrin wedi'i lleoli yn Heol Coed Plymouth, Trelái, Caerdydd, CF5 4XD.

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth arbenigol cynradd, mae'r Cyngor yn cynnig:

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 16 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.



Nodir gwybodaeth sy'n benodol i'r cynnig hwn ar dudalennau 37-43.

## Nifer y lleoedd yn yr ysgol

Mae Tabl 13 isod yn rhoi manylion y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson

**Tabl 13: Lleoedd ar gael yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson**

| Enw'r ysgol | Capasiti Cyhoeddedig Presennol (4-11 oed) | Lleoedd fesul grŵp blwyddyn (4-11 oed) | Lleoedd Meithrin | Cyfrwng iaith a Chategori'r Ysgol |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Herbert Thompson | 420 | 60 | 80 | Ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg |

Capasiti presennol Ysgol Gynradd Herbert Thompson yw 420 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 406 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ionawr 2023.

## Y galw am leoedd yn yr ysgol

**Mae Tabl 14 isod yn nodi manylion niferoedd diweddar ar y gofrestr ac amcanestyniadau ar gyfer Ysgol Gynradd Herbert Thompson.**

| Tabl 14: Niferoedd diweddar ac amcanestynnol ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | Nifer ar y gofrestr (CYBLD) | | | | | Amcanestyniadau disgyblion* | | | | |
| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2023/26 | 2026/27 | 2027/28 |
| Ysgol Gynradd Herbert Thompson lleoedd prif ffrwd | 440 | 443 | 431 | 423 | 406 | 400 | 387 | 389 | 384 | 378 |

*Galw am leoedd disgyblion yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth a/neu ddata tuedd ADY wedi'i gapio i gapasiti ysgolion

## Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben / risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

**Tabl 15: Sgorau cyflwr ac addasrwydd**

| Sgôr | Cyflwr | Addasrwydd |
|---|---|---|
| A | Da ac yn gweithredu'n effeithlon | Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol |
| B | Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio. | Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd. |
| C | Gwael, gyda diffygion mawr. | Gwael. Amharu ar ddulliau addysgu/effaith wael ar drefn yr ysgol |
| D | Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg ddybryd o fethu. | Gwael iawn. Adeiladau'n amharu'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm. |

Y sgôr diweddaraf i Ysgol Gynradd Herbert Thompson oedd C am gyflwr a B am addasrwydd.

Byddai'r safle, a'r seilwaith lleol oddi ar y safle, yn gallu cefnogi datblygiad darpariaeth ysgol arbennig.

## Gofod Canolfan Adnoddau Arbenigol Arfaethedig

Mae Ysgol Gynradd Herbert Thompson yn Nhrelái yn ymestyn i tua 3.0 erw. Nid oes angen tir ychwanegol i hwyluso sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 16 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn yr ysgol o fis Medi 2024.

Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol angen dwy ystafell ddosbarth i ddarparu amgylchedd meithringar, gan gynnwys ystafell neilltuo i blant hunanreoleiddio ynghyd â mynediad i ardal ddysgu ddiogel y tu allan.

Cynigir y byddai'r ganolfan yn cael ei lletya yn adeiladau'r ysgol bresennol.

## Ansawdd a Safonau

Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan Gonsortiwm Canolbarth y De yn ymwneud ag ansawdd a safonau yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson.

- Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol ac mae'n cael ei gefnogi'n dda gan yr holl uwch staff.
- Mae gan yr ysgol weledigaeth glir a phwrpasol sy'n cwmpasu ei holl ddarpariaeth, ei chwricwlwm a'i chymuned. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt symud drwy'r ysgol.
- Mae dull trylwyr o hunanwerthuso sy'n cynnwys pob aelod o staff. Gan ddefnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol, mae'r ysgol yn effeithiol wrth nodi ei chryfderau a'i meysydd i'w gwella.
- Mae gan yr ysgol hanes hirsefydlog o fynd i'r afael â'i meysydd ar gyfer gwella'n llwyddiannus.
- Mae'r ysgol yn gweithio'n adeiladol gydag asiantaethau allanol ac wedi darparu cefnogaeth i ystod o ysgolion. Mae yno ddiwylliant sy'n edrych tuag allan sy'n galluogi staff i rannu eu hymarfer a dysgu gan eraill yn rheolaidd.
- Mae'r ysgol wedi gweithio'n ddiwyd i sicrhau ei bod yn cydymffurfio'n llawn â'r agenda ddiwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol parhaus.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer llesiant disgyblion yn gryfder i'r ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod dda o raglenni, sy'n galluogi diwallu ang henion disgyblion sy'n agored i niwed yn dda.

Yn dilyn arolygiad diweddaraf yr ysgol ym mis Hydref 2022, gofynnwyd i'r pennaeth ddarparu astudiaeth achos arfer gorau i rannu ac enghreifftio effeithiolrwydd arweinyddiaeth yr ysgol.

Yn ôl arolwg mwyaf diweddar Estyn ym mis Hydref 2022, barnwyd bod safonau, llesiant ac agweddau'r ysgol at ddysgu, addysgu a phrofiadau dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda.

### Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (www.addewidcaerdydd.co.uk).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau'n uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae safonau yn yr ysgol yn dda ac ni ddisgwylir y bydd sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol yn effeithio'n negyddol ar yr ysgol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg yn yr ysgol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

### Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn yr ysgol.

Trefnir ysgolion arbennig, dosbarthiadau lles a chanolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr sy'n profi anghenion iechyd a lles emosiynol i ddarparu ystod o ymyriadau a chymorth therapiwtig a meithringar. Bydd llawer o'r dysgwyr yn profi ystod o anawsterau cysylltiedig megis oedi ar lythrennedd a rhifedd, lleferedd, iaith a chyfathrebu, rheoleiddio synhwyraidd ac emosiynol. Mae ysgolion yn sicrhau bod

gan staff a gyflogir yn y lleoliad sgiliau a phrofiad priodol i gynllunio a gweithredu ymyriadau gan gynnwys ELSA a THRIVE.

Mae'r lleoliadau'n darparu dysgu dosbarth bach wedi'i deilwra i anghenion dysgu'r disgyblion, gan gynnwys ymyriadau i gefnogi llythrennedd a rhifedd, llefaredd, iaith a chyfathrebu. Mae'r dosbarthiadau lles yn canolbwyntio ar gefnogi ailintegreiddio a dychwelyd i ddysgu prif ffrwd ar bwynt priodol: bwriedir i'r broses ystyried cynnydd ac anghenion y dysgwr.

Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol ac i weithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella gallu'r ysgol i fod yn gynhwysol ac o fudd i holl ddisgyblion yr ysgolion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisïau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Mae'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ysgolion arbennig a'r canolfannau adnoddau arbenigol. Bydd gan bob dysgwr Gynllun Datblygu Unigol sy'n ddogfen statudol sy'n nodi'r hyn sy'n 'bwysig i' ac yn 'bwysig ar gyfer' y plentyn neu'r person ifanc, y deilliannau a ddymunir a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd i'w gweithredu er mwyn cyflawni'r deilliannau.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth ac arweiniad gofal.

## Arwain a Rheoli

Mae'r canolfannau adnoddau arbenigol yn cael eu dirprwyo i ysgolion. Cyrff Llywodraethu sy'n pennu'r model rheoli mwyaf priodol ar gyfer y lleoliad, yn unol â'r dull rheoli ac arweinyddiaeth ysgol gyfan a'r nod o sicrhau bod y ganolfan yn rhan gwbl integredig o'r ysgol. Gall yr awdurdod lleol ddarparu cyngor a chymorth o ran penodiadau arbenigol.

Nid yw lleoliadau newydd fel arfer yn agor i'w capasiti llawn yn y flwyddyn gyntaf. Cyn belled ag y bo modd, mae derbyniadau wedi'u gwasgaru dros 3-5 mlynedd, gan alluogi'r lleoliad i sefydlu ymarfer fesul cam.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

## Beth yw manteision y newid arfaethedig?

- Byddai'r cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd ag anghenion iechyd a lles emosiynol a byddai'n cyfrannu at ateb y galw a ragamcennir.
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol yr ysgol. Byddai hyn o fudd i bob disgybl yn yr ysgol;
- Byddai'r cynnig yn golygu y gallai disgyblion sy'n byw yn ne-orllewin y ddinas sydd angen lle mewn canolfan adnoddau arbenigol iechyd a lles emosiynol gael darpariaeth addas yn nes at adref, ac felly'n teithio pellteroedd byrrach i fanteisio ar ddarpariaeth arbenigol.

## Anfanteision posibl y newid arfaethedig

- Gall newid fod yn anodd i rai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Efallai y byddai symud i adeilad newydd ar safle newydd yn peri gofid iddynt. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r lleoliad newydd. Fodd bynnag, byddai digon o amser a phrosesau hirhoedlog i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.
- Gallai fod mwy o dagfeydd traffig o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Herbert Thompson i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

## Risgiau

- Pe bai angen unrhyw waith adeiladu, addasu ac adnewyddu, gallai hynny effeithio ar weithredu'r newid arfaethedig oherwydd anawsterau annisgwyl wrth benodi contractwyr priodol, oedi wrth gyflawni prosiectau neu sicrhau cyllid digonol. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni ystod o brosiectau adeiladu ysgolion yn llwyddiannus o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr sy'n tyfu a byddai'r gwersi a ddysgwyd drwy hyn yn cyfyngu ar effaith unrhyw faterion annisgwyl a allai godi. Bydd amrywiaeth o opsiynau'n cael eu datblygu yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad. Yna cynhelid gwerthusiad ariannol llawn. Bydd hyn yn sicrhau fforddiadwyedd ac yn cyfyngu ar y pwysau cyllidebol ar y Cyngor.

## Dewisiadau amgen

Gallai opsiynau amgen i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer plant ag anghenion iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson gynnwys:

- Gwneud dim. Nid oes digon o leoedd arbenigol yng Nghaerdydd. Byddai ehangu darpariaeth o fewn y Sir yn cynnig defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau ariannol y Cyngor na dibynnu ar leoedd mewn ysgolion annibynnol.
- Sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill a/neu niferoedd gwahanol o leoedd yn y canolfannau presennol neu arfaethedig.

Fodd bynnag, mae prinder darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol yn yr ardal hon o'r ddinas.  Mae safonau yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson yn dda ac mae gan yr ysgol hanes profedig o gefnogaeth o ansawdd uchel i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.   Mae lleoliad yr ysgol hefyd yn cefnogi dosbarthu lleoedd anghenion iechyd a lles emosiynol cynradd ledled y ddinas ac mae lle i ddatblygu'r gofod gofynnol o fewn yr adeiladau presennol.

Felly, ystyrir sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson yn opsiwn a ffefrir.

## Materion Adnoddau Dynol

Byddai cynigion i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson yn gofyn bod y corff llywodraethu yn ystyried gofynion o ran y gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangu.  Byddai'r corff llywodraethu'n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion.

Bydd y Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda'r corff llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau AD sy'n deillio o sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo corff llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i sefydlu'r ganolfan adnoddau arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff ysgolion sydd ar y gofrestr adleoli.

## Materion trafnidiaeth

Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol arfaethedig ar safle Ysgol Gynradd Herbert Thompson yn gwasanaethu disgyblion yng ngorllewin Caerdydd a byddai'n lleihau'r pellter teithio i'r ysgol i blant yn y rhan hon o'r ddinas sydd angen lleoliad mewn canolfan adnoddau arbenigol ac sy'n teithio i rannau eraill o'r ddinas ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r maen prawf pellter cerdded cymwys statudol o ddwy filltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim o'u cartref i ysgol gynradd, gan gynnwys i ysgolion arbennig ac i gyfleusterau canolfan adnoddau arbenigol. Ni fyddai disgyblion sy'n mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson ac yn byw o fewn dwy filltir i'r ysgol, yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim oni bai bod hyn yn angenrheidiol er mwyn diwallu eu hanghenion dysgu unigol a'u problemau cymdeithasol.

Mae anghenion unigol disgyblion mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol, ynghyd â'r pellteroedd mwy a deithir, yn cyfyngu ar y cyfle i gael cyfraddau teithio llesol uchel o gymharu â disgyblion ysgolion prif ffrwd.

Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy ymhlith y garfan Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan gynnwys Hyfforddiant Teithio Annibynnol i ddisgyblion hŷn, cynnal a chadw beiciau a hyfforddiant beicio.

Gall rhai disgyblion deithio'n annibynnol neu gyda rhiant/gofalwyr ac os ydynt yn byw o fewn y pellter cymwys o ddwy filltir, efallai na fyddant yn gymwys ar gyfer Trafnidiaeth i Ddysgwyr.

Byddai darparu'r gwelliannau a argymhellir ar gyfer teithio llesol o fudd i'r disgyblion hyn yn ogystal ag unrhyw ddisgyblion prif ffrwd, staff ac ymwelwyr â'r safleoedd. Gallai'r rhain gynnwys gwelliannau diogelwch priodol ar y ffyrdd megis croesfannau, cyfleusterau beicio, parcio beic diogel, a gwelliannau i gyfleusterau aros am fysiau.

Gan y byddai uchafswm o 16 o blant yn mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol, rhagwelir y byddai nifer fach o blant yn cyrraedd ar drafnidiaeth ysgol am ddim mewn tacsis a rennir. Bydd angen cyfleusterau priodol ar y Trafnidiaeth i Ddysgwyr yma er mwyn gollwng a chasglu a chaiff hyn ei ystyried fel rhan o'r cynigion.

Rhagwelir y byddai angen ardal gollwng a chasglu ar gyfer trafnidiaeth ysgol i 6 tacsi. Mae'r lle gofynnol ar gael ar y safle drwy ad-drefnu'r cyfleusterau presennol.

Gan fod y Cyngor yn ceisio cyflawni dosbarthiad gwell o ddarpariaeth canolfan adnoddau arbenigol ledled y ddinas, disgwylir y byddai'r pellter teithio cyfartalog i ganolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr unigol yn lleihau yn y dyfodol.

## Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur. Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynigion. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai ohonynt yn unig, fel sydd orau gennych.

Fel arall, gallwch anfon eich barn atom drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn **www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolionADY**
- E-bostio eich barn i: **ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk**
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 19 Ionawr 2024**

# Ysgol Gynradd Lakeside



# Cynnig ar gyfer lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol ychwanegol yn Ysgol Gynradd Lakeside

Mae Ysgol Gynradd Lakeside yn ysgol gynradd gymunedol Saesneg gyda darpariaeth feithrin wedi'i lleoli yn Ontario Way, Lakeside, Caerdydd, CF11 9DZ.

Mae'r ysgol yn cynnal dosbarth lles ar gyfer disgyblion ag anghenion iechyd a lles emosiynol.

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth arbenigol cynradd, mae'r Cyngor yn cynnig:

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 16 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Lakeside o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn disodli'r dosbarth lles presennol.

Nodir gwybodaeth sy'n benodol i'r cynnig hwn ar dudalennau 45-51.




## Nifer y lleoedd yn yr ysgol

Mae Tabl 16 isod yn rhoi manylion y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Lakeside.

**Tabl 16: Lleoedd ar gael yn Ysgol Gynradd Lakeside**

| Enw'r ysgol | Capasiti Cyhoeddedig Presennol (4-11 oed) | Lleoedd fesul grŵp blwyddyn (4-11 oed) | Lleoedd Meithrin | Cyfrwng iaith a Chategori'r Ysgol |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Lakeside (lleoedd prif ffrwd) | 420 | 60 | 80 | Ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg |
| Ysgol Gynradd Lakeside (lleoedd dosbarth lles) | 16 | Dd/B | Dd/B | |

Capasiti presennol Ysgol Gynradd Lakeside yw 420 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 418 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ionawr 2023.

## Y galw am leoedd yn yr ysgol

**Mae Tabl 17 isod yn nodi manylion niferoedd diweddar ar y gofrestr ac amcanestyniadau ar gyfer Ysgol Gynradd Lakeside.**

| Tabl 17: Niferoedd diweddar ac amcanestynnol ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Lakeside | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | Nifer ar y gofrestr (CYBLD) | | | | | Amcanestyniadau disgyblion* | | | | |
| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2023/26 | 2026/27 | 2027/28 |
| Ysgol Gynradd Lakeside lleoedd prif ffrwd | 446 | 412 | 414 | 415 | 418 | 399 | 389 | 371 | 355 | 339 |

*Galw am leoedd disgyblion yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth a/neu ddata tuedd ADY wedi'i gapio i gapasiti ysgolion

## Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben / risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

**Tabl 18: Sgorau cyflwr ac addasrwydd**

| Sgôr | Cyflwr | Addasrwydd |
|---|---|---|
| A | Da ac yn gweithredu'n effeithlon | Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol |
| B | Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio. | Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd. |
| C | Gwael, gyda diffygion mawr. | Gwael. Amharu ar ddulliau addysgu/effaith wael ar drefn yr ysgol |
| D | Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg ddybryd o fethu. | Gwael iawn. Adeiladau'n amharu'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm. |

Sgôr diweddaraf Ysgol Gynradd Lakeside oedd C am gyflwr a B am addasrwydd.

Byddai'r safle, a'r seilwaith lleol oddi ar y safle, yn gallu cefnogi datblygiad darpariaeth ysgol arbennig.

## Gofod Canolfan Adnoddau Arbenigol Arfaethedig

Mae Ysgol Gynradd Lakeside yn Lakeside yn ymestyn i tua 6.9 erw. Nid oes angen tir ychwanegol i hwyluso sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 16 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn yr ysgol o fis Medi 2024.

Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol angen dwy ystafell ddosbarth i ddarparu amgylchedd meithringar, gan gynnwys ystafell neilltuo i blant hunanreoleiddio ynghyd â mynediad i ardal ddysgu ddiogel y tu allan. Mae hyn eisoes ar waith ar gyfer darpariaeth y dosbarth lles presennol.

Cynigir y byddai'r ganolfan yn cael lle yn yr adeiladau presennol ac yn disodli'r dosbarth llesiant presennol.

# Ansawdd a Safonau

Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan Gonsortiwm Canolbarth y De yn ymwneud ag ansawdd a safonau yn Ysgol Gynradd Lakeside.

- Mae arweinyddiaeth yn yr ysgol yn parhau i fod yn hynod effeithiol. Mae diwylliant dysgu cyffrous yn treiddio trwy'r ysgol ac mae llais y disgybl wrth wraidd dull hynod greadigol o gynllunio'r cwricwlwm ac addysgeg.
- Mae strategaeth glir ar gyfer gwella, ac mae hyn wedi arwain at ddeilliannau parhaus ym mron pob maes dysgu. Mae gan bob aelod o staff rolau a chyfrifoldebau clir ac maent yn cydweithio'n effeithiol. Mae'r Uwch Dîm Arwain yn cefnogi datblygiad y weledigaeth strategol ar gyfer yr ysgol yn effeithiol.
- Mae cynllunio gwella yn rhoi sylw da i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol sy'n ymwneud â llythrennedd, rhifedd, a chyflawniad disgyblion PYaDd. O ganlyniad, mae'r cynllun gwella ysgol (CGY) yn darparu strategaeth effeithiol sydd wedi arwain at welliant parhaus mewn deilliannau i bron pob dysgwr.
- Mae'r CGY yn nodi'r canlyniadau y mae'r ysgol yn disgwyl eu cyflawni, ac mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn ei ddefnyddio'n effeithiol i fonitro cynnydd yn erbyn targedau, meini prawf llwyddiant a cherrig milltir.
- Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer hunanwerthuso ac mae'r adroddiad hunanwerthuso (Adroddiad Gwerthuso Ysgol) yn rhoi darlun cywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella.
- Mae asesu ac olrhain cynnydd ac ymyrraeth disgyblion i gefnogi gwelliant yn gryf ac, o ganlyniad, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da o leiaf.
- Mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn mynychu hyfforddiant a chyfarfodydd clwstwr ac yn rhoi adborth i staff a llywodraethwyr. Mae proffiliau un dudalen manwl yn cael eu datblygu ar gyfer pob disgybl a staff i ddatblygu targedau penodol ar gyfer dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol uwch law'r hyn sydd ar gael yn y ddarpariaeth gyffredinol.

Yn ôl arolwg mwyaf diweddar Estyn ym mis Tachwedd 2014, barnwyd bod safonau'r ysgol, ac agweddau at ddysgu, addysgu a phrofiadau dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda. Roedd yn barnu bod llesiant yr ysgol yn ddigonol.

## Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (www.addewidcaerdydd.co.uk).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae safonau yn yr ysgol yn dda ac ni ddisgwylir y bydd sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol yn effeithio'n negyddol ar yr ysgol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg yn yr ysgol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

## Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn yr ysgol.

Trefnir ysgolion arbennig, dosbarthiadau lles a chanolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr sy'n profi anghenion iechyd a lles emosiynol i ddarparu ystod o ymyriadau a chymorth therapiwtig a meithringar. Bydd llawer o'r dysgwyr yn profi ystod o anawsterau cysylltiedig megis oedi ar lythrennedd a rhifedd, llefaredd, iaith a chyfathrebu, rheoleiddio synhwyraidd ac emosiynol. Mae ysgolion yn sicrhau bod gan staff a gyflogir yn y lleoliad sgiliau a phrofiad priodol i gynllunio a gweithredu ymyriadau gan gynnwys ELSA a THRIVE.

Mae'r lleoliadau'n darparu dysgu dosbarth bach wedi'i deilwra i anghenion dysgu'r disgyblion, gan gynnwys ymyriadau i gefnogi llythrennedd a rhifedd, llefaredd, iaith a chyfathrebu. Mae'r dosbarthiadau lles yn canolbwyntio ar gefnogi ailintegreiddio a dychwelyd i ddysgu prif ffrwd ar bwynt priodol: bwriedir i'r broses ystyried cynnydd ac anghenion y dysgwr.

Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol ac i weithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella gallu'r ysgol i fod yn gynhwysol ac o fudd i holl ddisgyblion yr ysgolion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisïau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Mae'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ysgolion arbennig a'r canolfannau adnoddau arbenigol. Bydd gan bob dysgwr Gynllun Datblygu Unigol sy'n ddogfen statudol sy'n nodi'r hyn sy'n 'bwysig i' ac yn 'bwysig ar gyfer' y plentyn neu'r person ifanc, y deilliannau a ddymunir a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd i'w gweithredu er mwyn cyflawni'r deilliannau.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth ac arweiniad gofal.

## Arwain a Rheoli

Mae'r canolfannau adnoddau arbenigol yn cael eu dirprwyo i ysgolion. Cyrff Llywodraethu sy'n pennu'r model rheoli mwyaf priodol ar gyfer y lleoliad, yn unol â'r dull rheoli ac arweinyddiaeth ysgol gyfan a'r nod o sicrhau bod y ganolfan yn rhan gwbl integredig o'r ysgol. Gall yr awdurdod lleol ddarparu cyngor a chymorth o ran penodiadau arbenigol.

Nid yw lleoliadau newydd fel arfer yn agor i'w capasiti llawn yn y flwyddyn gyntaf. Cyn belled ag y bo modd, mae derbyniadau wedi'u gwasgaru dros 3-5 mlynedd, gan alluogi'r lleoliad i sefydlu ymarfer fesul cam.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

## Beth yw manteision y newid arfaethedig?

- Byddai'r cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd ag anghenion iechyd a lles emosiynol a byddai'n cyfrannu at ateb y galw a ragamcennir.
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol yr ysgol.  Byddai hyn o fudd i bob disgybl yn yr ysgol;
- Byddai'r cynnig yn golygu y gallai disgyblion sy'n byw yng ngogledd/canol y ddinas sydd angen lle mewn canolfan adnoddau arbenigol iechyd a lles emosiynol gael darpariaeth addas yn nes at adref, ac felly'n teithio pellteroedd byrrach i allu manteisio ar ddarpariaeth arbenigol.

## Anfanteision posibl y newid arfaethedig

- Gall newid fod yn anodd i rai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Efallai y byddai symud i adeilad newydd ar safle newydd yn peri gofid iddynt.  Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r lleoliad newydd.  Fodd bynnag, byddai digon o amser a phrosesau hirhoedlog i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.
- Gallai fod mwy o dagfeydd traffig o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.  Fodd bynnag, gan na fyddai nifer y dysgwyr sy'n defnyddio'r ganolfan yn newid o'r nifer sy'n mynychu'r dosbarth lles ar hyn o bryd, mae'n debygol na fydd unrhyw effaith wahanol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Lakeside i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

## Risgiau

- Pe bai angen unrhyw waith adeiladu, addasu ac adnewyddu, gallai hynny effeithio ar weithredu'r newid arfaethedig oherwydd anawsterau annisgwyl wrth benodi contractwyr priodol, oedi wrth gyflawni prosiectau neu sicrhau cyllid digonol.  Fodd bynnag, mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni ystod o brosiectau adeiladu ysgolion yn llwyddiannus o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr sy'n tyfu a byddai'r gwersi a ddysgwyd drwy hyn yn cyfyngu ar effaith unrhyw faterion annisgwyl a allai godi.  Bydd amrywiaeth o opsiynau'n cael eu datblygu yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad. Yna cynhelid gwerthusiad ariannol llawn. Bydd hyn yn sicrhau fforddiadwyedd ac yn cyfyngu ar y pwysau cyllidebol ar y Cyngor.

## Dewisiadau amgen

Gallai opsiynau amgen i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer plant ag anghenion iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Lakeside gynnwys:

- Gwneud dim.  Nid oes digon o leoedd arbenigol yng Nghaerdydd.   Byddai ehangu darpariaeth o fewn y Sir yn cynnig defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau ariannol y Cyngor na dibynnu ar leoedd mewn ysgolion annibynnol.
- Sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill a/neu niferoedd gwahanol o leoedd yn y canolfannau presennol neu arfaethedig.

Fodd bynnag, mae prinder darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol yn yr ardal hon o'r ddinas. Mae safonau yn Ysgol Gynradd Lakeside yn dda ac mae gan yr ysgol hanes profedig o gefnogaeth o ansawdd uchel i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae lleoliad yr ysgol hefyd yn cefnogi dosbarthu lleoedd anghenion iechyd a lles emosiynol cynradd ledled y ddinas ac mae lle i ddatblygu'r gofod gofynnol o fewn yr adeiladau presennol.

Felly, ystyrir sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Lakeside yn opsiwn a ffefrir.

## Materion Adnoddau Dynol

Byddai cynigion i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Lakeside yn gofyn bod y corff llywodraethu yn ystyried y gofynion o ran gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangu. Byddai'r corff llywodraethu'n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion.

Bydd y Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda'r corff llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau AD sy'n deillio o sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo corff llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i sefydlu'r ganolfan adnoddau arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff ysgolion sydd ar y gofrestr adleoli.

## Materion trafnidiaeth

Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol arfaethedig ar safle Ysgol Gynradd Lakeside yn gwasanaethu disgyblion yng ngogledd/canol Caerdydd a byddai'n lleihau'r pellter a deithir i'r ysgol i blant yn yr ardal hon o'r ddinas sydd angen lleoliad mewn canolfan adnoddau arbenigol ac sy'n teithio i rannau eraill o'r ddinas ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r maen prawf pellter cerdded cymwys statudol o ddwy filltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim o'u cartref i ysgol gynradd, gan gynnwys i ysgolion arbennig ac i gyfleusterau canolfan adnoddau arbenigol. Ni fyddai disgyblion sy'n mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Lakeside ac yn byw o fewn dwy filltir i'r ysgol, yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim oni bai bod hyn yn angenrheidiol er mwyn diwallu eu hanghenion dysgu unigol a'u problemau cymdeithasol.

Mae anghenion unigol disgyblion mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol, ynghyd â'r pellteroedd mwy a deithir, yn cyfyngu ar y cyfle i gael cyfraddau teithio llesol uchel o gymharu â disgyblion ysgolion prif ffrwd.

Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy ymhlith y garfan Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan gynnwys Hyfforddiant Teithio Annibynnol i ddisgyblion hŷn, cynnal a chadw beiciau a hyfforddiant beicio.

Gall rhai disgyblion deithio'n annibynnol neu gyda rhiant/gofalwyr ac os ydynt yn byw o fewn y pellter cymwys o ddwy filltir, efallai na fyddant yn gymwys ar gyfer Trafnidiaeth i Ddysgwyr.

Byddai darparu'r gwelliannau a argymhellir ar gyfer teithio llesol o fudd i'r disgyblion hyn yn ogystal ag unrhyw ddisgyblion prif ffrwd, staff ac ymwelwyr â'r safleoedd. Gallai'r rhain gynnwys gwelliannau diogelwch priodol ar y ffyrdd megis croesfannau, cyfleusterau beicio, parcio beic diogel, a gwelliannau i gyfleusterau aros am fysiau

Gan y byddai uchafswm o 16 o blant yn mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol, rhagwelir y byddai nifer fach o blant yn cyrraedd ar drafnidiaeth ysgol am ddim mewn tacsis a rennir. Bydd angen cyfleusterau priodol ar y Trafnidiaeth i Ddysgwyr yma er mwyn gollwng a chasglu a chaiff hyn ei ystyried fel rhan o'r cynigion.

Rhagwelir y byddai angen ardal gollwng a chasglu ar gyfer trafnidiaeth ysgol i 6 tacsi. Mae'r lle gofynnol ar gael ar y safle drwy ad-drefnu'r cyfleusterau presennol.

Gan fod y Cyngor yn ceisio cyflawni dosbarthiad gwell o ddarpariaeth canolfan adnoddau arbenigol ledled y ddinas, disgwylir y byddai'r pellter teithio cyfartalog i ganolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr unigol yn lleihau yn y dyfodol.

## Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur. Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynigion. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai ohonynt yn unig, fel sydd orau gennych.

Fel arall, gallwch anfon eich barn atom drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn **www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolionADY**
- E-bostio eich barn i: **ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk**
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 19 Ionawr 2024**

# Ysgol Gynradd Springwood



# Cynnig ar gyfer lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol ychwanegol yn Ysgol Gynradd Springwood

Mae Ysgol Gynradd Springwood yn ysgol gynradd gymunedol Saesneg gyda darpariaeth feithrin wedi'i lleoli yn Pennsylvania, Llanedern, Caerdydd, CF23 9LS.

Mae'r ysgol yn gartref i ganolfan adnoddau arbenigol ar gyfer plant ag awtistiaeth. Ni chynigir unrhyw newidiadau i ganolfan adnoddau arbenigol yr ysgol ar gyfer dysgwyr sydd â nam ar eu clyw. ag awtistiaeth.

Mae'r ysgol yn cynnal dosbarth lles ar gyfer disgyblion ag anghenion iechyd a lles emosiynol.

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth arbenigol cynradd, mae'r Cyngor yn cynnig:

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Springwood o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn disodli'r dosbarth lles presennol.

Nodir gwybodaeth sy'n benodol i'r cynnig hwn ar dudalennau 53-59.




## Nifer y lleoedd yn yr ysgol

Mae Tabl 19 isod yn rhoi manylion y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Springwood

**Tabl 19: Lleoedd ar gael yn Ysgol Gynradd Springwood**

| Enw'r ysgol | Capasiti Cyhoeddedig Presennol (4-11 oed) | Lleoedd fesul grŵp blwyddyn (4-11 oed) | Lleoedd Meithrin | Cyfrwng iaith a Chategori'r Ysgol |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Springwood (lleoedd prif ffrwd) | 420 | 60 | 48 | Ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg |
| CAA Awtistiaeth Ysgol Gynradd Springwood | 28 | Dd/B | Dd/B | |
| Ysgol Gynradd Springwood (lleoedd dosbarth lles) | 8 | Dd/B | Dd/B | |

Capasiti presennol Ysgol Gynradd Springwood yw 420 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 234 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Hydref 2023.

## Y galw am leoedd yn yr ysgol

**Mae Tabl 20 isod yn nodi manylion niferoedd diweddar ar y gofrestr ac amcanestyniadau ar gyfer Ysgol Gynradd Springwood.**

**Tabl 210: Niferoedd diweddar ac amcanestynnol ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Springwood**

| Ysgol | Nifer ar y gofrestr (CYBLD) | | | | | Amcanestyniadau disgyblion* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2023/26 | 2026/27 | 2027/28 |
| Ysgol Gynradd Springwood lleoedd prif ffrwd | 207 | 212 | 217 | 235 | 234 | 238 | 250 | 251 | 245 | 237 |

*Galw am leoedd disgyblion yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth a/neu ddata tuedd ADY wedi'i gapio i gapasiti ysgolion

## Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben / risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

**Tabl 21: Sgorau cyflwr ac addasrwydd**

| Sgôr | Cyflwr | Addasrwydd |
|---|---|---|
| A | Da ac yn gweithredu'n effeithlon | Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol |
| B | Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio. | Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd. |
| C | Gwael, gyda diffygion mawr. | Gwael. Amharu ar ddulliau addysgu/effaith wael ar drefn yr ysgol |
| D | Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg ddybryd o fethu. | Gwael iawn. Adeiladau'n amharu'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm. |

Sgôr diweddaraf Ysgol Gynradd Springwood oedd C am gyflwr a B am addasrwydd.

Byddai'r safle, a'r seilwaith lleol oddi ar y safle, yn gallu cefnogi datblygiad darpariaeth ysgol arbennig.

## Gofod Canolfan Adnoddau Arbenigol Arfaethedig

Mae Ysgol Gynradd Springwood yn Llanedern yn ymestyn i tua 6.8 erw. Nid oes angen prynu tir ychwanegol i hwyluso sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn yr ysgol o fis Medi 2024.

Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol angen ystafell ddosbarth i ddarparu amgylchedd meithringar, gan gynnwys ystafell neilltuo i blant sy'n hunanreoleiddio ynghyd â mynediad i ardal ddysgu ddiogel y tu allan a thoiledau. Mae hyn eisoes ar waith ar gyfer darpariaeth y Dosbarth Llesiant presennol.

Cynigir y byddai'r ganolfan yn cael lle yn yr adeiladau presennol ac yn disodli'r dosbarth llesiant presennol.

# Ansawdd a Safonau

Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan Gonsortiwm Canolbarth y De yn ymwneud ag ansawdd a safonau yn Ysgol Gynradd Springwood.

- Mae arferion hunanwerthuso'r ysgol wedi'u sefydlu'n dda, yn gadarn ac yn effeithiol. Mae uwch arweinwyr yn cydweithio â chydweithwyr o ysgolion lleol eraill i gefnogi'r gwaith hwn, gan sicrhau bod sicrwydd ansawdd defnyddiol ar gael.
- Mae'r ysgol yn gweithredu'n gyflym ac yn llwyddiannus pan nodir meysydd i'w gwella. Mae gwaith i wella sgiliau ysgrifennu disgyblion wedi bod yn arbennig o effeithiol yn ddiweddar.
- Cefnogir y pennaeth yn dda gan y dirprwy bennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth. Mae arweinyddiaeth sydd wedi ei ddosbarthu yn effeithiol, ac mae gan bob aelod o staff y cyfle i ddylanwadu ar ymarfer yr ysgol.
- Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol i'r holl staff wedi sicrhau bod ymarfer yr ysgol yn cael ei adolygu'n gyson a'i alluogi i esblygu, yn ôl anghenion y disgyblion.
- Mae'r ysgol wedi datblygu dull creadigol o ymdrin â'i chwricwlwm newydd sy'n canolbwyntio ar y sgiliau, y wybodaeth a'r profiadau sydd eu hangen ar ei disgyblion yn benodol.
- Mae gwaith i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi'i hen sefydlu.
- Mae gan yr ysgol hanes cryf o gynnig darpariaeth effeithiol i ddisgyblion ag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol.

Yn ôl arolwg mwyaf diweddar Estyn ym mis Mawrth 2018 barnwyd bod safonau, llesiant ac agweddau'r ysgol at ddysgu, addysgu a phrofiadau dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheoli yn dda. Barnodd bod gofal, cymorth ac arweiniad yr ysgol yn rhagorol.

## Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (www.addewidcaerdydd.co.uk).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau'n uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae safonau yn yr ysgol yn dda ac ni ddisgwylir y bydd sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol yn effeithio'n negyddol ar yr ysgol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg yn yr ysgol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

## Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn yr ysgol.

Trefnir ysgolion arbennig, dosbarthiadau lles a chanolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr sy'n profi anghenion iechyd a lles emosiynol i ddarparu ystod o ymyriadau a chymorth therapiwtig a meithringar. Bydd llawer o'r dysgwyr yn profi ystod o anawsterau cysylltiedig megis oedi ar lythrennedd a rhifedd, llefaredd, iaith a chyfathrebu, rheoleiddio synhwyraidd ac emosiynol. Mae ysgolion yn sicrhau bod gan staff a gyflogir yn y lleoliad sgiliau a phrofiad priodol i gynllunio a gweithredu ymyriadau gan gynnwys ELSA a THRIVE.

Mae'r lleoliadau'n darparu dysgu dosbarth bach wedi'i deilwra i anghenion dysgu'r disgyblion, gan gynnwys ymyriadau i gefnogi llythrennedd a rhifedd, llefaredd, iaith a chyfathrebu. Mae'r dosbarthiadau lles yn canolbwyntio ar gefnogi ailintegreiddio a dychwelyd i ddysgu prif ffrwd ar bwynt priodol: bwriedir i'r broses ystyried cynnydd ac anghenion y dysgwr.

Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol ac i weithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella gallu'r ysgol i fod yn gynhwysol ac o fudd i holl ddisgyblion yr ysgolion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisïau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Mae'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ysgolion arbennig a'r canolfannau adnoddau arbenigol. Bydd gan bob dysgwr Gynllun Datblygu Unigol sy'n ddogfen statudol sy'n nodi'r hyn sy'n 'bwysig i' ac yn 'bwysig ar gyfer' y plentyn neu'r person ifanc, y deilliannau a ddymunir a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd i'w gweithredu er mwyn cyflawni'r deilliannau.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth ac arweiniad gofal.

## Arwain a Rheoli

Mae'r canolfannau adnoddau arbenigol yn cael eu dirprwyo i ysgolion. Cyrff Llywodraethu sy'n pennu'r model rheoli mwyaf priodol ar gyfer y lleoliad, yn unol â'r dull rheoli ac arweinyddiaeth ysgol gyfan a'r nod o sicrhau bod y ganolfan yn rhan gwbl integredig o'r ysgol. Gall yr awdurdod lleol ddarparu cyngor a chymorth o ran penodiadau arbenigol.

Nid yw lleoliadau newydd fel arfer yn agor i'w capasiti llawn yn y flwyddyn gyntaf. Cyn belled ag y bo modd, mae derbyniadau wedi'u gwasgaru dros 3-5 mlynedd, gan alluogi'r lleoliad i sefydlu ymarfer fesul cam.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

## Beth yw manteision y newid arfaethedig?

- Byddai'r cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd ag anghenion iechyd a lles emosiynol a byddai'n cyfrannu at ateb y galw a ragamcennir.
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol yr ysgol. Byddai hyn o fudd i bob disgybl yn yr ysgol;
- Byddai'r cynnig yn golygu y gallai disgyblion sy'n byw yng ngogledd-ddwyrain y ddinas ac sydd angen lle mewn canolfan adnoddau arbenigol anghenion iechyd a lles emosiynol gael darpariaeth addas yn nes at adref, ac felly'n teithio pellteroedd byrrach i fanteisio ar ddarpariaeth arbenigol.

## Anfanteision posibl y newid arfaethedig

- Gall newid fod yn anodd i rai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Efallai y byddai symud i adeilad newydd ar safle newydd yn peri gofid iddynt. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r lleoliad newydd. Fodd bynnag, byddai digon o amser a phrosesau hirhoedlog i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.
- Gallai fod mwy o dagfeydd traffig o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Fodd bynnag, gan na fyddai nifer y dysgwyr sy'n defnyddio'r ganolfan yn newid o'r nifer sy'n mynychu'r Dosbarth Lles ar hyn o bryd, mae'n debygol na fydd unrhyw effaith wahanol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd y Springwood i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

## Risgiau

- Pe bai angen unrhyw waith adeiladu, addasu ac adnewyddu, gallai hynny effeithio ar weithredu'r newid arfaethedig oherwydd anawsterau annisgwyl wrth benodi contractwyr priodol, oedi wrth gyflawni prosiectau neu sicrhau cyllid digonol. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni ystod o brosiectau adeiladu ysgolion yn llwyddiannus o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr sy'n tyfu a byddai'r gwersi a ddysgwyd drwy hyn yn cyfyngu ar effaith unrhyw faterion annisgwyl a allai godi. Bydd amrywiaeth o opsiynau'n cael eu datblygu yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad. Yna cynhelid gwerthusiad ariannol llawn. Bydd hyn yn sicrhau fforddiadwyedd ac yn cyfyngu ar y pwysau cyllidebol ar y Cyngor.

## Dewisiadau amgen

Gallai opsiynau amgen i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer plant ag anghenion iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Springwood gynnwys:

- Gwneud dim. Nid oes digon o leoedd arbenigol yng Nghaerdydd. Byddai ehangu darpariaeth o fewn y Sir yn cynnig defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau ariannol y Cyngor na dibynnu ar leoedd mewn ysgolion annibynnol.
- Sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill a/neu niferoedd gwahanol o leoedd yn y canolfannau presennol neu arfaethedig.

Fodd bynnag, mae prinder darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol yn yr ardal hon o'r ddinas. Mae safonau yn Ysgol Gynradd Springwood yn dda ac mae gan yr ysgol hanes profedig o gefnogaeth o ansawdd uchel i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae lleoliad yr ysgol hefyd yn cefnogi dosbarthu lleoedd anghenion iechyd a lles emosiynol cynradd ledled y ddinas ac mae lle i ddatblygu'r gofod gofynnol o fewn yr adeiladau presennol.

Felly, ystyrir sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Springwood yn opsiwn a ffefrir.

## Materion Adnoddau Dynol

Byddai cynigion i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Springwood yn gofyn bod y corff llywodraethu yn ystyried y gofynion o ran gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangu. Byddai'r corff llywodraethu'n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion.

Bydd y Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda'r corff llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau AD sy'n deillio o sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo corff llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i sefydlu'r ganolfan adnoddau arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff ysgolion sydd ar y gofrestr adleoli.

## Materion trafnidiaeth

Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol arfaethedig ar safle Ysgol Gynradd Springwood yn gwasanaethu disgyblion yng ngogledd-ddwyrain Caerdydd a byddai'n lleihau'r pellter a deithiwyd i'r ysgol i blant yn y rhan hon o'r ddinas sydd angen lleoliad mewn canolfan adnoddau arbenigol ac sy'n teithio i rannau eraill o'r ddinas ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r maen prawf pellter cerdded cymwys statudol o ddwy filltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim o'u cartref i ysgol gynradd, gan gynnwys i ysgolion arbennig ac i gyfleusterau canolfan adnoddau arbenigol. Ni fyddai disgyblion sy'n mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Springwood ac yn byw o fewn dwy filltir i'r ysgol, yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim oni bai bod hyn yn angenrheidiol er mwyn diwallu eu hanghenion dysgu unigol a'u problemau cymdeithasol.

Mae anghenion unigol disgyblion mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol, ynghyd â'r pellteroedd mwy a deithir, yn cyfyngu ar y cyfle i gael cyfraddau teithio llesol uchel o gymharu â disgyblion ysgolion prif ffrwd.

Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy ymhlith y garfan Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan gynnwys Hyfforddiant Teithio Annibynnol i ddisgyblion hŷn, cynnal a chadw beiciau a hyfforddiant beicio.

Gall rhai disgyblion deithio'n annibynnol neu gyda rhiant/gofalwyr ac os ydynt yn byw o fewn y pellter cymwys o ddwy filltir, efallai na fyddant yn gymwys ar gyfer Trafnidiaeth i Ddysgwyr.

Byddai darparu'r gwelliannau a argymhellir ar gyfer teithio llesol o fudd i'r disgyblion hyn yn ogystal ag unrhyw ddisgyblion prif ffrwd, staff ac ymwelwyr â'r safleoedd. Gallai'r rhain gynnwys gwelliannau diogelwch priodol ar y ffyrdd megis croesfannau, cyfleusterau beicio, parcio beic diogel, a gwelliannau i gyfleusterau aros am fysiau.

Gan y byddai uchafswm o 8 o blant yn mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol, rhagwelir y byddai nifer fach o blant yn cyrraedd ar drafnidiaeth ysgol am ddim mewn tacsis a rennir. Bydd angen cyfleusterau priodol ar y Trafnidiaeth i Ddysgwyr yma er mwyn gollwng a chasglu a chaiff hyn ei ystyried fel rhan o'r cynigion.

Rhagwelir y byddai angen ardal gollwng a chasglu ar gyfer trafnidiaeth ysgol ar gyfer 3 thacsi. Mae'r lle gofynnol ar gael ar y safle drwy ad-drefnu'r cyfleusterau presennol.

Gan fod y Cyngor yn ceisio cyflawni dosbarthiad gwell o ddarpariaeth adnoddau arbenigol ledled y ddinas, disgwylir y byddai'r pellter teithio cyfartalog i ganolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr unigol yn lleihau yn y dyfodol.

## Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur. Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynigion. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai ohonynt yn unig, fel sydd orau gennych.

Fel arall, gallwch anfon eich barn atom drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn **www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolionADY**
- E-bostio eich barn i: **ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk**
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 19 Ionawr 2024**

# Ysgol Gymraeg Pwll Coch



# Cynnig ar gyfer lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol ychwanegol yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch

Mae Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn ysgol gynradd gymunedol Gymraeg gyda darpariaeth feithrin wedi'i lleoli yn Rhodfa Lawrenny, Lecwydd, Caerdydd, CF11 8BR.

Mae'r ysgol yn gartref i ganolfan adnoddau arbenigol i blant ag anghenion dysgu cymhleth. Ni chynigir unrhyw newidiadau i ganolfan adnoddau arbenigol yr ysgol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth.

Mae'r ysgol yn cynnal dosbarth lles ar gyfer disgyblion ag anghenion iechyd a lles emosiynol.

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth arbenigol cynradd, mae'r Cyngor yn cynnig:

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch o fis Medi 2024 yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn disodli'r dosbarth lles presennol.

Nodir gwybodaeth sy'n benodol i'r cynnig hwn ar dudalennau 61-67.



## Nifer y lleoedd yn yr ysgol

Mae tabl 22 isod yn rhoi manylion am leoedd sydd ar gael yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch.

**Tabl 22: Lleoedd ar gael yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch**

| Enw'r ysgol | Capasiti Cyhoeddedig Presennol (4-11 oed) | Lleoedd fesul grŵp blwyddyn (4-11 oed) | Lleoedd Meithrin | Cyfrwng iaith a Chategori'r Ysgol |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gymraeg Pwll Coch (lleoedd prif ffrwd) | 420 | 60 | 80 | Ysgol gynradd gymunedol Gymraeg |
| Ysgol Gymraeg Pwll Coch (CAA ADC/CSA) | 20 | Dd/B | Dd/B | |
| Ysgol Gymraeg Pwll Coch (lleoedd dosbarth lles) | 8 | Dd/B | Dd/B | |

Capasiti presennol Ysgol Gymraeg Pwll Coch yw 420 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 272 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ionawr 2023.

## Y galw am leoedd yn yr ysgol

**Mae Tabl 23 isod yn nodi niferoedd diweddar ac amcanestynnol ar y gofrestr yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch**

| Tabl 23: Niferoedd diweddar ac amcanestynnol ar y gofrestr yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | Nifer ar y gofrestr (CYBLD) | | | | | Amcanestyniadau disgyblion* | | | | |
| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2023/26 | 2026/27 | 2027/28 |
| Ysgol Gymraeg Pwll Coch lleoedd prif ffrwd | 383 | 340 | 321 | 284 | 272 | 260 | 242 | 235 | 231 | 221 |

*Galw am leoedd disgyblion yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth a/neu ddata tuedd ADY wedi'i gapio i gapasiti ysgolion

## Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben / risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

**Tabl 24: Sgorau cyflwr ac addasrwydd**

| Sgôr | Cyflwr | Addasrwydd |
|---|---|---|
| A | Da ac yn gweithredu'n effeithlon | Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol |
| B | Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio. | Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd. |
| C | Gwael, gyda diffygion mawr. | Gwael. Amharu ar ddulliau addysgu/effaith wael ar drefn yr ysgol |
| D | Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg ddybryd o fethu. | Gwael iawn. Adeiladau'n amharu'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm. |

Yn fwyaf diweddar, cafodd Ysgol Gymraeg Pwll Coch sgôr o B am gyflwr a B am addasrwydd.

Byddai'r safle, a'r seilwaith lleol oddi ar y safle, yn gallu cefnogi datblygiad darpariaeth ysgol arbennig.

## Gofod Canolfan Adnoddau Arbenigol Arfaethedig

Mae Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn Lecwydd yn ymestyn i tua 3.6 erw. Nid oes angen prynu tir ychwanegol i hwyluso sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn yr ysgol o fis Medi 2024.

Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol angen ystafell ddosbarth i ddarparu amgylchedd meithringar, gan gynnwys ystafell neilltuo i blant sy'n hunanreoleiddio ynghyd â mynediad i ardal ddysgu ddiogel y tu allan a thoiledau. Mae hyn eisoes ar waith ar gyfer darpariaeth y Dosbarth Lles presennol.

Cynigir y byddai'r ganolfan yn cael lle yn yr adeiladau presennol ac yn disodli'r dosbarth llesiant presennol.

# Ansawdd a Safonau

Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan Gonsortiwm Canolbarth y De yn ymwneud ag ansawdd a safonau yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch.

- Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o brosesau hunanwerthuso sy'n galluogi adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu yn gywir. Mae'r wybodaeth hon yn bwydo cynllun datblygu ysgol priodol gyda blaenoriaethau'n adlewyrchu'n gywir ganfyddiadau hunanwerthuso.
- Mae cynllunio ac asesu'r cwricwlwm yn datblygu'n briodol gyda momentwm cadarnhaol yn gyrru datblygiad pellach, gan weithio ar y cyd â'r holl randdeiliaid, y clwstwr, a phartneriaid eraill.
- Mae'r ysgol wedi ymateb i ofynion diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol ac yn cyflawni ei dyletswyddau statudol yn hyn o beth.
- Defnyddir cyllid grant yn briodol gan ddarparu ymyrraeth a chymorth i ddisgyblion a nodwyd, gan ganolbwyntio ar wella llythrennedd, rhifedd a llesiant.
- Mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau effeithiol gyda'r holl randdeiliaid a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda'r ALl yn ystod datblygu dwy Ganolfan Adnoddau Arbenigol diweddar sydd wedi'u lleoli ar y safle.
- Mae'r Pennaeth ac uwch arweinwyr yn creu diwylliant o arweinyddiaeth sydd wedi ei ddosbarthu, gan weithio mewn partneriaeth â'r Corff Llywodraethu i ddiwallu anghenion pob disgybl, mewn amgylchedd diogel a meithringar.

Yn ôl arolwg mwyaf diweddar Estyn ym mis Chwefror 2018, barnwyd bod safonau, llesiant ac agweddau'r ysgol at ddysgu, addysgu a phrofiadau dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda.

## Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (www.addewidcaerdydd.co.uk).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau'n uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae safonau yn yr ysgol yn dda ac ni ddisgwylir y bydd sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol yn effeithio'n negyddol ar yr ysgol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg yn yr ysgol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

## Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn yr ysgol.

Trefnir ysgolion arbennig, dosbarthiadau lles a chanolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr sy'n profi anghenion iechyd a lles emosiynol i ddarparu ystod o ymyriadau a chymorth therapiwtig a meithringar. Bydd llawer o'r dysgwyr yn profi ystod o anawsterau cysylltiedig megis oedi ar lythrennedd a rhifedd, lleferedd, iaith a chyfathrebu, rheoleiddio synhwyraidd ac emosiynol. Mae ysgolion yn sicrhau bod gan staff a gyflogir yn y lleoliad sgiliau a phrofiad priodol i gynllunio a gweithredu ymyriadau gan gynnwys ELSA a THRIVE.

Mae'r lleoliadau'n darparu dysgu dosbarth bach wedi'i deilwra i anghenion dysgu'r disgyblion, gan gynnwys ymyriadau i gefnogi llythrennedd a rhifedd, llefaredd, iaith a chyfathrebu. Mae'r dosbarthiadau lles yn canolbwyntio ar gefnogi ailintegreiddio a dychwelyd i ddysgu prif ffrwd ar bwynt priodol: bwriedir i'r broses ystyried cynnydd ac anghenion y dysgwr.

Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol ac i weithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella gallu'r ysgol i fod yn gynhwysol ac o fudd i holl ddisgyblion yr ysgolion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisïau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Mae'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ysgolion arbennig a'r canolfannau adnoddau arbenigol. Bydd gan bob dysgwr Gynllun Datblygu Unigol sy'n ddogfen statudol sy'n nodi'r hyn sy'n 'bwysig i' ac yn 'bwysig ar gyfer' y plentyn neu'r person ifanc, y deilliannau a ddymunir a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd i'w gweithredu er mwyn cyflawni'r deilliannau.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth ac arweiniad gofal.

## Arwain a Rheoli

Mae'r canolfannau adnoddau arbenigol yn cael eu dirprwyo i ysgolion. Cyrff Llywodraethu sy'n pennu'r model rheoli mwyaf priodol ar gyfer y lleoliad, yn unol â'r dull rheoli ac arweinyddiaeth ysgol gyfan a'r nod o sicrhau bod y ganolfan yn rhan gwbl integredig o'r ysgol. Gall yr awdurdod lleol ddarparu cyngor a chymorth o ran penodiadau arbenigol.

Nid yw lleoliadau newydd fel arfer yn agor i'w capasiti llawn yn y flwyddyn gyntaf. Cyn belled ag y bo modd, mae derbyniadau wedi'u gwasgaru dros 3-5 mlynedd, gan alluogi'r lleoliad i sefydlu ymarfer fesul cam.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

## Beth yw manteision y newid arfaethedig?

- Byddai'r cynnig yn ateb y galw amcanestynnol am leoedd canolfan adnoddau arbenigol cynradd i ddysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol yn y sector Cymraeg
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol yr ysgol. Byddai hyn o fudd i bob disgybl yn yr ysgol;
- Byddai'r cynigion yn golygu bod disgyblion sy'n byw yng Nghaerdydd sydd angen lle cyfrwng Cymraeg mewn canolfan adnoddau arbenigol iechyd a lles emosiynol yn gallu cael mynediad at y ddarpariaeth hon yng Nghaerdydd.

## Anfanteision posibl y newid arfaethedig

- Gall newid fod yn anodd i rai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Efallai y byddai symud i adeilad newydd ar safle newydd yn peri gofid iddynt. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r lleoliad newydd. Fodd bynnag, byddai digon o amser a phrosesau hirhoedlog i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.
- Gallai fod mwy o dagfeydd traffig o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Fodd bynnag, gan na fyddai nifer y dysgwyr sy'n defnyddio'r ganolfan yn newid o'r nifer sy'n mynychu'r Dosbarth Lles ar hyn o bryd, mae'n debygol na fydd unrhyw effaith wahanol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Pwll Coch i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

## Risgiau

- Pe bai angen unrhyw waith adeiladu, addasu ac adnewyddu, gallai gweithredu'r newid arfaethedig gael ei effeithio oherwydd anawsterau annisgwyl wrth benodi contractwyr priodol, oedi wrth gyflawni prosiectau neu sicrhau cyllid digonol. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni ystod o brosiectau adeiladu ysgolion yn llwyddiannus o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr sy'n tyfu a byddai'r gwersi a ddysgwyd drwy hyn yn cyfyngu ar effaith unrhyw faterion annisgwyl a allai godi. Bydd amrywiaeth o opsiynau'n cael eu datblygu yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad. Yna cynhelid gwerthusiad ariannol llawn. Bydd hyn yn sicrhau fforddiadwyedd ac yn cyfyngu ar y pwysau cyllidebol ar y Cyngor.

## Dewisiadau amgen

Gallai opsiynau amgen i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer plant ag anghenion iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch gynnwys:

- Gwneud dim. Nid oes digon o leoedd arbenigol yng Nghaerdydd. Byddai ehangu darpariaeth o fewn y Sir yn cynnig defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau ariannol y Cyngor na dibynnu ar leoedd mewn ysgolion annibynnol.
- Sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill.

Fodd bynnag nid oes darpariaeth arall ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn y ddinas. Mae safonau yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn dda ac mae gan yr ysgol hanes profedig o gefnogaeth o ansawdd uchel i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae lleoliad yr ysgol hefyd yn cefnogi dosbarthu lleoedd anghenion iechyd a lles emosiynol cynradd ledled y ddinas ac mae lle i ddatblygu'r gofod gofynnol o fewn yr adeiladau presennol.

Felly, ystyrir bod sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol ychwanegol yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn opsiwn a ffefrir.

## Materion Adnoddau Dynol

Byddai cynigion i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn gofyn bod y corff llywodraethu yn ystyried y gofynion o ran y gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangu. Byddai'r corff llywodraethu'n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion.

Bydd y Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda'r corff llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau AD sy'n deillio o sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo corff llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i sefydlu'r ganolfan adnoddau arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff ysgolion sydd ar y gofrestr adleoli.

## Materion trafnidiaeth

Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol arfaethedig ar safle Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn gwasanaethu disgyblion yn nwyrain Caerdydd a byddai'n lleihau'r pellter a deithiwyd i'r ysgol i blant yn y rhan hon o'r ddinas sydd angen lleoliad mewn canolfan adnoddau arbenigol ac sy'n teithio i rannau eraill o'r ddinas ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r maen prawf pellter cerdded cymwys statudol o ddwy filltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim o'u cartref i ysgol gynradd, gan gynnwys i ysgolion arbennig ac i gyfleusterau canolfan adnoddau arbenigol. Ni fyddai disgyblion sy'n mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch ac yn byw o fewn dwy filltir i'r ysgol, yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim oni bai bod hyn yn angenrheidiol er mwyn diwallu eu hanghenion dysgu unigol a'u problemau cymdeithasol.

Mae anghenion unigol disgyblion mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol, ynghyd â'r pellteroedd mwy a deithir, yn cyfyngu ar y cyfle i gael cyfraddau teithio llesol uchel o gymharu â disgyblion ysgolion prif ffrwd.

Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy ymhlith y garfan Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan gynnwys Hyfforddiant Teithio Annibynnol i ddisgyblion hŷn, cynnal a chadw beiciau a hyfforddiant beicio.

Gall rhai disgyblion deithio'n annibynnol neu gyda rhiant/gofalwyr ac os ydynt yn byw o fewn y pellter cymwys o ddwy filltir, efallai na fyddant yn gymwys ar gyfer Trafnidiaeth i Ddysgwyr.

Byddai darparu'r gwelliannau a argymhellir ar gyfer teithio llesol o fudd i'r disgyblion hyn yn ogystal ag unrhyw ddisgyblion prif ffrwd, staff ac ymwelwyr â'r safleoedd. Gallai'r rhain gynnwys gwelliannau diogelwch priodol ar y ffyrdd megis croesfannau, cyfleusterau beicio, parcio beic diogel, a gwelliannau i gyfleusterau aros am fysiau.

Gan y byddai uchafswm o 8 o blant yn mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol, rhagwelir y byddai nifer fach o blant yn cyrraedd ar drafnidiaeth ysgol am ddim mewn tacsis a rennir.  Bydd angen cyfleusterau priodol gollwng a chasglu ar y Trafnidiaeth i Ddysgwyr ymaa chaiff hyn ei ystyried fel rhan o'r cynigion.

Rhagwelir y byddai angen ardal gollwng a chasglu ar gyfer trafnidiaeth ysgol i 3 thacsi.  Mae'r lle gofynnol ar gael ar y safle drwy ad-drefnu'r cyfleusterau presennol.

Gan fod y Cyngor yn ceisio cyflawni dosbarthiad gwell o ddarpariaeth adnoddau arbenigol ledled y ddinas, disgwylir y byddai'r pellter teithio cyfartalog i ganolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr unigol yn lleihau yn y dyfodol.

## Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur.  Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynigion. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai ohonynt yn unig, fel sydd orau gennych.


Fel arall, gallwch anfon eich barn atom drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn **www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolionADY**
- E-bostio eich barn i: **ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk**
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 19 Ionawr 2024**

# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr



# Cynnig ar gyfer lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol ychwanegol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ysgol uwchradd gymunedol Gymraeg yw Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr sydd wedi'i lleoli yn Heol Pentre-baen, Y Tyllgoed, Caerdydd, CF5 3PZ.

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth arbenigol uwchradd, mae'r Cyngor yn cynnig:

- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.




Nodir gwybodaeth sy'n benodol i'r cynnig hwn ar dudalennau 69-75.

## Nifer y lleoedd yn yr ysgol

Mae Tabl 25 isod yn rhoi manylion am leoedd sydd ar gael yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr.

**Tabl 25: Lleoedd yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr**

| Enw'r ysgol | Capasiti Cyhoeddedig Presennol (4-11 oed) | Lleoedd fesul grŵp blwyddyn (4-11 oed) | Lleoedd Meithrin | Cyfrwng iaith a Chategori'r Ysgol |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr | | | | Ysgol gynradd gymunedol Gymraeg |

Capasiti presennol Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yw 1050 o leoedd ac roedd 963 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ionawr 2023.

## Y galw am leoedd yn yr ysgol

**Mae Tabl 26 isod yn nodi niferoedd diweddar ar y gofrestr a'r niferoedd amcanestynnol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr.**

**Tabl 26: Niferoedd diweddar ac amcanestynnol ar y gofrestr yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr**

| Ysgol | Nifer ar y gofrestr (CYBLD) | | | | | Amcanestyniadau disgyblion* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2023/26 | 2026/27 | 2027/28 |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr | 1099 | 1136 | 1146 | 1155 | 1156 | 1232 | 1246 | 1262 | 1264 | 1245 |

*niferoedd disgyblion ysgol yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth a phatrymau galw hanesyddol

## Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben / risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

**Tabl 27: Sgorau cyflwr ac addasrwydd**

| Sgôr | Cyflwr | Addasrwydd |
|---|---|---|
| A | Da ac yn gweithredu'n effeithlon | Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol |
| B | Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio. | Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd. |
| C | Gwael, gyda diffygion mawr. | Gwael. Amharu ar ddulliau addysgu/effaith wael ar drefn yr ysgol |
| D | Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg ddybryd o fethu. | Gwael iawn. Adeiladau'n amharu'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm. |

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr â sgôr o C+ ar gyfer cyflwr a B ar gyfer addasrwydd.

Byddai'r safle, a'r seilwaith lleol oddi ar y safle, yn gallu cefnogi datblygiad darpariaeth ysgol arbennig.

## Gofod Canolfan Adnoddau Arbenigol Arfaethedig

Cynigir y byddai'r ganolfan newydd yn cael lle yn adeiladau presennol yr ysgol.

# Ansawdd a Safonau

Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan Gonsortiwm Canolbarth y De yn ymwneud ag ansawdd a safonau yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr.

- Mae dysgwyr sy'n agored i niwed yn cael eu cefnogi'n dda iawn, ac mae safonau'n cael eu monitro trwy ystod o ymyriadau effeithiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer llesiant dysgwyr o'r fath yn gryfder nodedig i'r ysgol ac yn atgyfnerthu gwybodaeth yr uwch arweinwyr am y ddemograffeg leol ac anghenion disgyblion unigol.
- Mae nifer fach o ddysgwyr ag anghenion ymddygiadol, ac mae'r ysgol yn datblygu prosesau i ddelio â'r anghenion ychwanegol hyn yn effeithiol.
- Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu cwricwlwm cynhwysol a dylunio gweithgareddau dysgu sy'n hyrwyddo mynediad teg at brofiadau i bob disgybl sy'n agored i niwed.
- Mae cynnydd disgyblion yn cael ei dracio'n effeithiol, ac mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd disgwyliedig. Mae gwahaniaeth o hyd yn y cyrhaeddiad rhwng rhai grwpiau agored i niwed ac mae hyn yn parhau i gael ei amlygu ers y pandemig. Mae'r ysgol yn mabwysiadu'r rhaglen CCPIDd (RADY) fel un ymdrech i fynd i'r afael â hyn.
- Mae'r ysgol yn nodi ei chryfderau a'i meysydd i'w datblygu drwy ystod eang o brosesau hunanwerthuso.
- Mae'r ysgol wedi ymateb i ofynion diwygiadau ADY ac yn cyflawni ei dyletswyddau statudol yn hyn o beth.
- Mae'r UDA wedi meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda'r ysgolion clwstwr wrth iddynt weithio ar y cyd i ddatblygu eu cwricwlwm ymhellach i sicrhau continwwm dysgu i bawb.

Nododd arolwg diweddaraf Estyn ym mis Ionawr 2023 fod y gofal a'r gefnogaeth a gynigiwyd gan yr ysgol i bob disgybl yn gryfder nodedig. Roedd arweinwyr ar draws yr ysgol yn cynnig lefelau uchel o gefnogaeth i staff o ran ADY a llesiant. Canmolwyd disgyblion y chweched dosbarth am ddangos agwedd aeddfed iawn a sgiliau arwain rhagorol am redeg gwahanol fforymau ysgol, y mae pob un ohonynt yn effeithiol, ac sy'n mynd i'r afael â nifer o faterion sy'n effeithio ar bob person ifanc yn y gymdeithas heddiw e.e. Merched Mentrus, Bechgyn Bonheddig, Balch, Digon a'r Cyngor Eco.

## Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (www.addewidcaerdydd.co.uk).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau'n uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae safonau yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn dda ac ni ddisgwylir y bydd sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol yn effeithio'n negyddol ar yr ysgol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg yn yr ysgol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

## Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn yr ysgol.

Trefnir ysgolion arbennig, dosbarthiadau lles a chanolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr sy'n profi anghenion iechyd a lles emosiynol i ddarparu ystod o ymyriadau a chymorth therapiwtig a meithringar. Bydd llawer o'r dysgwyr yn profi ystod o anawsterau cysylltiedig megis oedi ar lythrennedd a rhifedd, llefaredd, iaith a chyfathrebu, rheoleiddio synhwyraidd ac emosiynol. Mae ysgolion yn sicrhau

bod gan staff a gyflogir yn y lleoliad sgiliau a phrofiad priodol i gynllunio a gweithredu ymyriadau gan gynnwys ELSA a THRIVE. Mae'r lleoliadau'n darparu dysgu dosbarth bach wedi'i deilwra i anghenion dysgu'r disgyblion, gan gynnwys ymyriadau i gefnogi llythrennedd a rhifedd, llefaredd, iaith a chyfathrebu. Mae'r dosbarthiadau lles yn canolbwyntio ar gefnogi ailintegreiddio a dychwelyd i ddysgu prif ffrwd ar bwynt priodol: bwriedir i'r broses ystyried cynnydd ac anghenion y dysgwr.

Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol ac i weithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella gallu'r ysgol i fod yn gynhwysol ac o fudd i holl ddisgyblion yr ysgolion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisïau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Mae'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ysgolion arbennig a'r canolfannau adnoddau arbenigol. Bydd gan bob dysgwr Gynllun Datblygu Unigol sy'n ddogfen statudol sy'n nodi'r hyn sy'n 'bwysig i' ac yn 'bwysig ar gyfer' y plentyn neu'r person ifanc, y deilliannau a ddymunir a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd i'w gweithredu er mwyn cyflawni'r deilliannau.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth ac arweiniad gofal.

## Arwain a Rheoli

Mae'r canolfannau adnoddau arbenigol yn cael eu dirprwyo i ysgolion. Cyrff Llywodraethu sy'n pennu'r model rheoli mwyaf priodol ar gyfer y lleoliad, yn unol â'r dull rheoli ac arweinyddiaeth ysgol gyfan a'r nod o sicrhau bod y ganolfan yn rhan gwbl integredig o'r ysgol. Gall yr awdurdod lleol ddarparu cyngor a chymorth o ran penodiadau arbenigol.

Nid yw lleoliadau newydd fel arfer yn agor i'w capasiti llawn yn y flwyddyn gyntaf. Cyn belled ag y bo modd, mae derbyniadau wedi'u gwasgaru dros 3-5 mlynedd, gan alluogi'r lleoliad i sefydlu ymarfer fesul cam.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

## Beth yw manteision y newid arfaethedig?

- Byddai'r cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd cyfrwng Cymraeg ag anghenion iechyd a lles emosiynol a byddai'n cyfrannu at ateb y galw amcanestynnol.
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol yr ysgol. Byddai hyn o fudd i bob disgybl yn yr ysgol;
- Byddai'r cynnig yn golygu bod disgyblion sy'n byw yng Nghaerdydd sydd angen lle uwchradd cyfrwng Cymraeg mewn canolfan adnoddau arbenigol iechyd a lles emosiynol yn gallu cael mynediad at y ddarpariaeth hon yng Nghaerdydd.

## Anfanteision posibl y newid arfaethedig

- Gall newid fod yn anodd i rai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Efallai y byddai symud i adeilad newydd ar safle newydd yn peri gofid iddynt. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r lleoliad newydd. Fodd bynnag, byddai digon o amser a phrosesau hirhoedlog i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.
- Gallai fod mwy o dagfeydd traffig o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Gyfun Gymraeg Plamawr i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

## Risgiau

- Pe bai angen unrhyw waith adeiladu, addasu ac adnewyddu, gallai gweithredu'r newid arfaethedig gael ei effeithio oherwydd anawsterau annisgwyl wrth benodi contractwyr priodol, oedi wrth gyflawni prosiectau neu sicrhau cyllid digonol. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni ystod o brosiectau adeiladu ysgolion yn llwyddiannus o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr sy'n tyfu a byddai'r gwersi a ddysgwyd drwy hyn yn cyfyngu ar effaith unrhyw faterion annisgwyl a allai godi. Bydd amrywiaeth o opsiynau'n cael eu datblygu yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad. Yna cynhelid gwerthusiad ariannol llawn. Bydd hyn yn sicrhau fforddiadwyedd ac yn cyfyngu ar y pwysau cyllidebol ar y Cyngor.

## Dewisiadau amgen

Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth arbenigol uwchradd Cymraeg ar draws y ddinas.

Ar hyn o bryd, mae pob un o'r tair ysgol uwchradd Gymraeg yn cefnogi dysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol o fewn eu darpariaeth prif ffrwd bresennol.

Gallai opsiynau amgen i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer plant ag anghenion iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr gynnwys:

- Gwneud dim. Nid oes digon o leoedd arbenigol yng Nghaerdydd. Byddai ehangu darpariaeth o fewn y Sir yn cynnig defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau ariannol y Cyngor na dibynnu ar leoedd mewn ysgolion annibynnol.
- Sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill.

Fodd bynnag, nid oes darpariaeth arall ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol mewn addysg uwchradd Gymraeg yn y ddinas. Mae safonau yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn dda ac mae gan yr ysgol hanes profedig o gefnogaeth o ansawdd uchel i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae lleoliad yr ysgol hefyd yn cefnogi dosbarthu lleoedd anghenion iechyd a lles emosiynol uwchradd ledled y ddinas ac mae lle i ddatblygu'r gofod gofynnol o fewn yr adeiladau presennol.

Felly, ystyrir bod sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol ychwanegol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn opsiwn a ffefrir.

## Materion Adnoddau Dynol

Byddai cynigion i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn gofyn bod y Corff Llywodraethu yn ystyried y gofynion gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangu. Byddai'r Corff Llywodraethu'n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion.

Bydd Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau AD sy'n deillio o sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo corff llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i sefydlu'r ganolfan adnoddau arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff ysgolion sydd ar y gofrestr adleoli.

## Materion trafnidiaeth

Gallai'r canolfan adnoddau arbenigol arfaethedig ar safle Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr leihau'r pellter a deithir i'r ysgol i blant yn rhan orllewinol y ddinas sydd angen lle mewn canolfannau adnoddau arbenigol ac sy'n teithio i rannau eraill o'r ddinas ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r maen prawf pellter cerdded cymwys statudol o dair milltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim o'u cartref i ysgolion uwchradd, gan gynnwys i ysgolion arbennig ac i gyfleusterau canolfan adnoddau arbenigol. Ni fyddai disgyblion sy'n mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr ac yn byw o fewn tair milltir i'r ysgol, yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim oni bai bod hyn yn angenrheidiol er mwyn diwallu eu hanghenion dysgu unigol a'u problemau cymdeithasol.

Mae anghenion unigol disgyblion mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol, ynghyd â'r pellteroedd mwy a deithir, yn cyfyngu ar y cyfle i gael cyfraddau teithio llesol uchel o gymharu â disgyblion ysgolion prif ffrwd.

Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy ymhlith y garfan Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan gynnwys Hyfforddiant Teithio Annibynnol i ddisgyblion hŷn, cynnal a chadw beiciau a hyfforddiant beicio.

Gall rhai disgyblion deithio'n annibynnol neu gyda rhiant/gofalwyr ac os ydynt yn byw o fewn y pellter cymwys o ddwy filltir, efallai na fyddant yn gymwys ar gyfer Trafnidiaeth i Ddysgwyr.

Byddai darparu'r gwelliannau a argymhellir ar gyfer teithio llesol o fudd i'r disgyblion hyn yn ogystal ag unrhyw ddisgyblion prif ffrwd, staff ac ymwelwyr â'r safleoedd. Gallai'r rhain gynnwys gwelliannau diogelwch priodol ar y ffyrdd megis croesfannau, cyfleusterau beicio, parcio beic diogel, a gwelliannau i gyfleusterau aros am fysiau.

Gan y byddai uchafswm o 20 o blant yn mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol, rhagwelir y byddai nifer fach o blant yn cyrraedd ar drafnidiaeth ysgol am ddim mewn tacsis a rennir. Bydd angen cyfleusterau priodol ar y Trafnidiaeth i Ddysgwyr yma er mwyn gollwng a chasglu a chaiff hyn ei ystyried fel rhan o'r cynigion.

Rhagwelir y byddai angen ardal gollwng a chasglu ar gyfer trafnidiaeth ysgol ar gyfer 7 tacsi. Mae'r lle gofynnol ar gael ar y safle drwy ad-drefnu'r cyfleusterau presennol.

Gan fod y Cyngor yn ceisio cyflawni dosbarthiad gwell o ddarpariaeth adnoddau arbenigol ledled y ddinas, disgwylir y byddai'r pellter teithio cyfartalog i ganolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr unigol yn lleihau yn y dyfodol.

## Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur. Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynigion. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai ohonynt yn unig, fel sydd orau gennych.

Fel arall, gallwch anfon eich barn atom drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn **www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolionADY**
- E-bostio eich barn i: **ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk**
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 19 Ionawr 2024**

# Gwybodaeth sy'n Berthnasol i bob Cynnig



## Cymorth Ychwanegol i Ddisgyblion

Mae Tabl 28 isod yn dangos canrannau:

- Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim
- Disgyblion sy'n â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- Disgyblion Ethnig Lleiafrifol

| Ysgol | % y Disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol | % y Disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | % y Disgyblion â datganiad AAA | % y Disgyblion â CDU ysgol | % y Disgyblion â CDU ALl | % y Disgyblion Prydau Ysgol am Ddim – cyfartaledd 3 blynedd | % y Disgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol | % y Disgyblion Ethnig Lleiafrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Baden Powell | * | 4.9% | 4.5% | 3.4% | * | 50.5% | 13.5% | 33.1% |
| Ysgol Gynradd y Tyllgoed | * | * | 4.4% | * | * | 41.7% | 11.1% | 25% |
| Ysgol Gynradd Herbert Thompson | 8.8% | 10.2% | 2.2% | 3.6% | * | 60.6% | 17.4% | 36.9% |
| Ysgol Gynradd Lakeside | * | * | 2% | * | * | 8% | 18.3% | 52.4% |
| Ysgol Gynradd Springwood | 5.4% | 4.4% | 14.6% | * | * | 42.4% | 18.5% | 38% |
| Ysgol Gymraeg Pwll Coch | 3.6% | * | 2.4% | * | * | 16.3% | 2.4% | 24.2% |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr | * | 1.4% | 2.5% | * | * | 12.1% | * | 10.7% |

Ffynhonnell: https://mylocalschool.gov.wales/?lang=cy

*Mae'r eitem ddata hon yn ddatgelol, nid yw'n ddigon cadarn i'w chyhoeddi, nid yw'n berthnasol neu nid yw ar gael fel arall.

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan: fyysgolleol.cymru.gov.uk. Mae Fy Ysgol Leol yn wefan sydd wedi'i chynllunio i agor mynediad at ddata ysgolion i rieni a phawb arall sydd â diddordeb yn eu hysgol leol.

## Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae gan blentyn anghenion addysgol arbennig os oes ganddo anhawster dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth addysgol arbennig. Mae anhawster dysgu yn golygu bod y plentyn yn ei chael hi'n llawer anoddach dysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oed neu fod gan y plentyn anabledd sy'n gofyn am wahanol gyfleusterau addysgol i'r rhai y mae'r ysgol yn eu darparu ar gyfer plant yn gyffredinol.

Daeth Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (Cod ADY) a'r rheoliadau i rym ar 1 Medi 2021 i sicrhau y gall plant a phobl ifanc gael mynediad at gymorth ychwanegol sydd wedi'i gynllunio a'i warchod yn briodol i fodloni eu hanghenion, gyda dysgwyr wrth wraidd y broses.

Mae plant yn symud o'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) i'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) mewn grwpiau dros gyfnod o 3 blynedd o fis Medi 2021, er mwyn sicrhau digon o amser i ysgolion ac awdurdodau lleol drafod y gefnogaeth sydd ei hangen ac i baratoi cynlluniau.

Byddai arbenigedd presennol yr ysgolion yn cael ei gynnal. Byddai sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu staff ac gyfoethogi dysgu disgyblion.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall newid mewn amgylchedd beri gofid i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio ar ddysgwyr unigol ag anghenion dysgu ychwanegol dim ond ar yr adeg y cânt eu derbyn i leoliad arbenigol. Mae gan ysgolion Caerdydd brosesau hirsefydlog ar gyfer cynllunio a chefnogi pontio rhwng lleoliadau. Mae ysgol bresennol ac arfaethedig y disgybl yn gweithio gyda'r dysgwr a'i deulu, ac unrhyw arbenigwyr eraill a allai fod yn gysylltiedig, i sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc wedi'i baratoi'n dda ac yn profi llwyddiant. Bydd y broses hon yr un fath, p'un a yw'r dysgwr yn cael ei dderbyn i leoliad arbenigol sy'n bod eisoes neu leoliad sydd newydd agor.

## Sut yr effeithir ar y cymorth i ddisgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol?

Gellir cefnogi disgyblion sy'n derbyn cymorth gan fod y Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt mewn unrhyw ysgol yng Nghaerdydd.

Mae'r safonau yn yr ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y newidiadau arfaethedig yn dda.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar sut caiff disgyblion sydd â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol eu cefnogi.

Byddai pob ysgol yn parhau i gynnig cymorth sy'n briodol i anghenion unigol pob disgybl.

## Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?

Mae peth o'r arian a gaiff ysgolion wedi ei seilio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r holl ysgolion yng Nghaerdydd yn cael arian ar gyfer y disgyblion hyn.

Mae'r safonau yn yr ysgolion lle cynigir newidiadau yn dda.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.

### Beth fyddai'r effaith ar Ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig?

Mae'r safonau yn yr ysgolion lle cynigir newidiadau yn dda.

Asesir anghenion disgyblion unigol a darperir ar eu cyfer fel y bo'n briodol.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer unrhyw grŵp ethnig.

## Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill?

Mae ysgolion arbennig / canolfannau adnoddau arbenigol yng Nghaerdydd yn cynnig darpariaeth arbenigol ar gyfer Dinas a Sir Caerdydd gyfan. Nid oes digon o leoedd i ateb y galw yn y ddarpariaeth a gynhelir. Mae hyn yn cael effaith ar ysgolion sy'n bodoli eisoes lle mewn rhai achosion efallai y bydd mwy o ddisgyblion ar y gofrestr na'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) neu'r nifer a ddymunir mewn canolfan adnoddau arbenigol.

Ar hyn o bryd mae'n rhaid i Gaerdydd ddibynnu ar brynu rhai lleoedd mewn darpariaeth y tu allan i'r sir ac mewn ysgolion annibynnol i gyflawni ei dyletswyddau statudol. Gallai fod effaith tymor hwy ar ddarparwyr y tu allan i'r sir ac ar ysgolion annibynnol gan ei bod yn debygol y bydd gostyngiad yn nifer y lleoedd a brynir gan y Cyngor.

## Trefniadau derbyn

Does dim cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i ysgolion yn sgil y cynigion hyn.

Ceir gwybodaeth fanwl am drefniadau derbyn yn llyfryn Derbyn i Ysgolion y Cyngor. Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth hon ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk

Y Cyngor sy'n rheoli derbyniadau i ddarpariaeth arbenigol, yn unol â'r Cod ADY. Panel lleoli darpariaeth arbenigol sy'n penderfynu ar leoliadau. Nod y panel yw gosod plant mor agos i'w cyfeiriad cartref â phosibl, fodd bynnag mae pob darpariaeth yn cynnig lleoedd i ddisgyblion o bob rhan o'r ddinas i sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf.

## Trefniadau Teithio i Ddysgwyr

Dan y cynigion hyn, nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant i ac yn ôl o ysgolion.

Bydd unrhyw blentyn y bydd y cynnig hwn yn effeithio arno yn cael yr un cymorth gyda thrafnidiaeth ag a gaiff pawb trwy Gaerdydd ac yn unol â'r un meini prawf sy'n berthnasol ledled Caerdydd. Gellir gweld polisi trafnidiaeth y Cyngor ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol statudol ar y Cyngor i ddarparu trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion cynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf ac i ddisgyblion uwchradd sy'n byw dair milltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf, fel y mesurir yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Wrth benderfynu pa un yw'r ysgol addas agosaf, rhaid i'r Cyngor ystyried unrhyw anabledd sydd gan blentyn ac unrhyw anghenion addysgol arbennig (AAA).

## Materion Ariannol

Byddai rhai o’r newidiadau arfaethedig a nodir yn y ddogfen hon yn arwain at gostau cyfalaf i’r Cyngor, ar gyfer cynnal gwaith ar adeiladu a/neu addasu adeiladau. Byddent hefyd yn arwain at gostau refeniw i’r Cyngor, wrth gyflogi staff.

Nid oes unrhyw ymrwymiadau ariannol ar y cam hwn o’r ymgynghoriad. Bydd amrywiaeth o opsiynau’n cael eu datblygu yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad. Yna cynhelir gwerthusiad ariannol llawn. Bydd hyn yn sicrhau fforddiadwyedd ac yn cyfyngu ar y pwysau cyllidebol ar y Cyngor.

Bydd angen gwerthuso’n llawn yn ariannol unrhyw waith adeiladu/addasu sydd ei angen i ddarparu ar gyfer cynnydd yn nifer y disgyblion a nodi ffynhonnell ariannu. Os bydd gofyn i’r Cyngor wneud cyfraniad tuag at y costau hyn, bydd angen i hyn gael ei ariannu o fewn yr adnoddau presennol a gymeradwywyd neu eu ffactora i gynlluniau Rhaglen Gyfalaf y Cyngor yn y dyfodol.

Nid yw’r cynigion hyn yn rhan o Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy’r Cyngor a byddai angen nodi unrhyw gostau o adnoddau’r Cyngor oni bai bod ffynonellau cyllid eraill yn cael eu nodi. Efallai y bydd cyllid ychwanegol hefyd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau penodol neu ddefnydd cyfalaf Anghenion Dysgu Ychwanegol cyffredinol ond nid yw’r rhain wedi’u nodi na’u cadarnhau eto.

Bydd angen i gostau refeniw y lleoedd ychwanegol hyn gael eu hariannu o’r gyllideb ysgolion ddirprwyedig bresennol.

Bydd angen sicrhau bod y cyllidebau blynyddol a ddyrennir i ysgolion yn adlewyrchu maint a strwythur pob ysgol. Mae cyllidebau ysgolion yn seiliedig yn bennaf ar niferoedd disgyblion ac, felly, bydd angen cynyddu cyllideb yr ysgol yn unol â’r lleoedd ADY ychwanegol.

Bydd angen ystyried costau trafnidiaeth ysgolion ar gyfer pob cynnig hefyd.

## Darpariaeth iechyd

Mae gan rai o’r disgyblion sy’n mynychu ysgolion Caerdydd anghenion iechyd ychwanegol sy’n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion weithio gyda’r bwrdd iechyd.

Cynhaliwyd ystod eang o brosiectau cydweithredol gan y gwasanaethau addysg ac iechyd, i wella sgiliau staff addysg mewn lleoliadau ysgolion arbennig a phrif ffrwd, gan gynyddu eu gallu i roi cyngor gan wasanaethau iechyd ar waith, er budd unigolion a grwpiau. Er enghraifft, fel rhan o’r Dull Gweithredu Ysgol Gyfan o ymdrin ag iechyd a lles emosiynol, sefydlwyd un pwynt cyswllt ar gyfer cyngor a chymorth ar iechyd meddwl, ac mae timau iechyd meddwl yn gweithio’n uniongyrchol gydag ysgolion i wella cymorth ac ymyrraeth gynnar.

Yn ddiweddar, mae’r bwrdd iechyd wedi penodi swyddog prosiect i arwain ar brosiect lleol: ‘Prosiect Twf Ysgolion Arbennig’, sy’n edrych ar greu model o weithio amlasiantaethol er mwyn cefnogi anghenion iechyd plant yn ysgolion Caerdydd a Bro Morgannwg yn y modd gorau. Bydd swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr iechyd er mwyn helpu i symud y prosiect hwn yn ei flaen. Bydd Deddf 2018 yn cael ei gweithredu dros gyfnod o dair blynedd, gan ddechrau ym mis Medi 2020.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn gyda'i gilydd, mae'r Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cynnal adolygiad ar y cyd o ddarpariaeth iechyd ac arbenigol yn ysgolion arbennig Caerdydd ac mewn unedau cyfeirio disgyblion. Bydd canfyddiadau'r adolygiad, a oruchwylir gan grŵp prosiect o gynrychiolwyr o'r meysydd iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion a rhieni, yn llywio dyluniad y ddarpariaeth arbenigol.

## Trefniadau Llywodraethu

Ni fyddai angen unrhyw newidiadau i'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer sefydlu'r ddarpariaeth adnoddau arbenigol arfaethedig yn Ysgol Gynradd Baden Powell, Ysgol Gynradd y Tyllgoed, Ysgol Gynradd Herbert Thompson, Ysgol Gynradd Lakeside, Ysgol Gynradd Springwood, Ysgol Gymraeg Pwll Coch ac Ysgol Gymraeg Plasmawr.

## Effaith y cynigion ar y Gymraeg

Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg yn unol ag Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r strategaeth yn cefnogi 'hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg'. Ei nod yn y tymor hir yw i Gymru gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r strategaeth yn enwi addysg drochi cyfrwng Cymraeg fel y 'prif ddull o sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac o greu siaradwyr newydd' (Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg, tud 21). Felly, bydd argaeledd addysg Gymraeg yn allweddol i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

Y targed cenedlaethol yw:

- Cynyddu cyfran pob grŵp blwyddyn ysgol sy'n derbyn addysg Gymraeg o 22 y cant (yn seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 30 y cant (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2031, ac yna 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2050.

Cydnabyddir yn y strategaeth y bydd y dull yn amrywio ar draws gwahanol ranbarthau yng Nghymru yn dibynnu ar nodweddion eu poblogaethau. Mae'r strategaeth hefyd yn clustnodi ardaloedd sydd â dwysedd poblogaeth uchel ond canran is o siaradwyr Cymraeg fel ardaloedd sydd â photensial penodol ar gyfer twf.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i 'Gaerdydd wirioneddol ddwyieithog' gan gynnwys tyfu'r sector addysg Gymraeg ar draws pob cyfnod er mwyn cynyddu nifer y bobl o bob oed sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r hyder a'r awydd i ddefnyddio eu holl ieithoedd ym mhob agwedd ar eu bywydau.

Yn sail i'r weledigaeth hon mae'r egwyddorion canlynol:

- Cymhwyso egwyddorion y 'cymdogaethau 15-munud' i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cyrchu addysg Gymraeg o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi.
- Gall pob plentyn yn y ddinas ddewis derbyn eu haddysg yn Gymraeg neu Saesneg gyda manteision addysg ddwyieithog yn cael eu hyrwyddo'n weithredol i bob rhiant o eni'r plentyn.
- Bydd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael cyfle ieithyddol cyfartal.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, bydd y Cyngor yn sicrhau:

- Mwy o blant meithrin / tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mwy o blant dosbarth derbyn / pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. 189.

Rhagwelir y byddai effaith gadarnhaol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynigion hyn.

Mae'r cynigion yn ymateb yn uniongyrchol i'r Deilliant 6 CSCA canlynol – Cynnydd mewn darpariaeth addysg Gymraeg i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos ac yn adeiladol gyda phartneriaid ar ei Fforwm Addysg Gymraeg, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau meithrin, cynradd, uwchradd ac addysg bellach, gofal plant, RhAG a Llywodraeth Cymru.  Mae'r Fforwm hwn yn cyflwyno gwybodaeth ar gyfer cynllunio lleoedd cyfrwng Cymraeg, er mwyn parhau i yrru cynllun y Cyngor i gynyddu mewn modd cynaliadwy nifer y dysgwyr mewn ysgolion Cymraeg a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae'r Cyngor, a'i bartneriaid ar y Fforwm Addysg Gymraeg, yn ymrwymo i sbarduno cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, i gyflawni'r targedau yn CSCA Caerdydd, ac i gyflawni'r targedau a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Sefydlwyd canolfan adnoddau arbenigol ag 20 lle i ddysgwyr 4 - 11 oed gydag anghenion dysgu cymhleth ac awtistiaeth yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch ym mis Medi 2018.

Sefydlwyd canolfan adnoddau arbenigol i ddysgwyr â Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth 11 - 19 oed yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ym mis Medi 2023.  Mae gan yr ysgol hefyd ganolfan adnoddau arbenigol i ddysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth.

Mae'r Cyngor yn monitro'r galw am ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol a phatrymau dewis mewn darpariaeth addysg Gymraeg ar oed cynradd ac uwchradd, er mwyn rhoi cynlluniau priodol ar waith i fodloni unrhyw gynnydd yn y galw.

## Cydraddoldeb

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) yn broses sy'n edrych ar bolisi, prosiect neu gynllun i wneud yn siŵr nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail y nodweddion gwarchodedig a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd/cred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol).

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Sengl cyfun cychwynnol, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Daeth i'r casgliad na fyddai'r newidiadau a gynigir yn effeithio'n negyddol ar unrhyw grŵp penodol mewn cymdeithas.

Caiff yr asesiad ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad ac ar adegau allweddol os aiff y cynnig yn ei flaen. Os aiff y cynnig yn ei flaen, bydd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb arall yn cael ei wneud ar yr adeg dylunio. Byddai hyn yn nodi hygyrchedd i'r ddarpariaeth newydd.  Byddai'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn ystyried polisïau megis Deddf Cydraddoldeb 2010, NCT 12:  Dylunio 2014 yn ogystal â rheoliadau adeiladu megis BS8300, Rhan M a Bwletinau Adeiladu perthnasol.

## Effaith Gymunedol

Wrth ystyried y potensial ar gyfer effaith ar y gymuned ehangach yn sgil y newidiadau arfaethedig, ystyrir y canlynol: Man Agored Cyhoeddus, parcdir, y modd y defnyddir cyfleusterau'r ysgol ar hyn o bryd gan y gymuned, sŵn a thagfeydd traffig.

Mae'r ysgolion y gallai'r cynigion effeithio arnynt yn ysgolion sy'n bodoli eisoes. Maent yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau ysgol, ac mae gan rai sefydliadau cymunedol sy'n cynnig gwasanaethau o'r ysgol. Ceisir barn yr ysgolion a'r gymuned ehangach ar unrhyw effeithiau posib fel rhan o'r ymgynghoriad a'u hystyried yn llawn fel rhan o'r broses ddadansoddiad ar ôl ymgynghori.

## Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i ddarparu Ysgolion Lleol i Blant Lleol, ynghyd ag annog y defnydd o ddulliau cynaliadwy o deithio i ysgolion, megis cerdded a beicio.

Mae pob prosiect ysgol yn ystyried materion trafnidiaeth allweddol pan gaiff y prosiectau eu cynllunio ac yn ystyried yr angen i ddarparu llwybrau mwy diogel i annog cerdded, beicio a dulliau teithio llesol eraill i'r ysgol.

Yng ngoleuni'r pandemig a chyda'r buddsoddiadau presennol mewn TGCh ledled y ddinas, gallai symudiadau myfyrwyr leihau ymhellach wrth i dechnoleg symudol ddatblygu ymhellach gan ganiatáu dulliau addysgu hyblyg. Mae gan y rhain y potensial i arwain at Gynllun Teithio mwy effeithlon a chyfrannu ymhellach at dargedau'r Cyngor i leihau ei allyriadau carbon.

## Tarfu Posibl i Ddisgyblion

Mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni prosiectau adeiladu yn llwyddiannus ar safleoedd ysgolion a feddiannir o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr a chynyddol.

Os bwrir ymlaen â'r newidiadau arfaethedig, byddai swyddog arweiniol prosiect yn cael ei neilltuo i weithio gyda'r cyrff llywodraethu perthnasol i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu ffrydiau gwaith i gefnogi'r prosiect.

Byddai unrhyw waith adeiladu a wneir yn cael ei reoli'n effeithiol mewn ymgynghoriad â'r ysgol i sicrhau bod y cwricwlwm llawn yn parhau i gael ei gyflwyno a bod safonau addysg a safonau diogelwch uchel yn cael eu cynnal.

Lle bynnag y bo'n bosibl, byddai gwaith yn digwydd yn ystod y gwyliau ysgol er mwyn lleihau unrhyw effaith bosib ar addysgu a dysgu.

Mae gan ysgolion Caerdydd brosesau hirsefydlog ar gyfer cynllunio a chefnogi pontio rhwng lleoliadau. Mae ysgol bresennol ac arfaethedig y disgybl yn gweithio gyda'r dysgwr a'i deulu, ac unrhyw arbenigwyr eraill a allai fod yn gysylltiedig, i sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc wedi'i baratoi'n dda ac yn profi llwyddiant. Bydd y broses hon yr un fath, p'un a yw'r dysgwr yn cael ei dderbyn i leoliad arbenigol sy'n bod eisoes neu leoliad sydd newydd agor.

# Camau nesaf, sut gallwch fynegi eich barn a'r ffurflen adborth

## Beth sy'n digwydd nesaf?

### Dyddiadau Allweddol

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi'r adborth a ddaw o'r ymgynghoriad hwn. Bydd swyddogion y Cyngor wedyn yn adrodd hyn i Gabinet y Cyngor i roi gwybod i aelodau etholedig am farn rhanddeiliaid, ac i fwydo'r broses o wneud penderfyniadau. Bydd yr adroddiad ymgynghori ar gael i unrhyw un ei weld/lawrlwytho ar wefan y Cyngor. Cewch hefyd gopi trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Os yn dilyn yr ymgynghoriad y cytunir fod y cynigion yn mynd yn eu blaenau, mae nifer o gamau pellach y bydd yn rhaid i'r Cyngor eu cymryd cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

**Nodir y camau hyn yn Nhabl 30 isod:**

**Tabl 29: Camau yn y dyfodol (Mae'n bosibl y bydd yr amserlen hon yn newid)**

| Proses Statudol | Amserlen |
|---|---|
| Cyfnod Ymgynghori | 20 Tachwedd – 19 Ionawr 2024 |
| Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor | Mawrth 2024 |
| Dyddiad cychwyn a ddisgwylir ar gyfer y Cyfnod Gwrthwynebu, ar ôl cyflwyno'r hysbysiad statudol (pan ellir gwneud gwrthwynebiadau ffurfiol) | Ebrill 2024 |
| Dyddiad y disgwylir i'r Cyfnod Gwrthwynebu ddod i ben | Mai 2024 |
| Y penderfyniad terfynol gan Gabinet y Cyngor | Gorffennaf 2024 |
| Cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebiadau ar wefan y Cyngor ynghyd â hysbysiad o benderfyniad y Cabinet | Gorffennaf 2024 |

### Cyfnod ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion hyn yn dechrau ar 20 Tachwedd 2023 ac yn dod i ben ar 19 Ionawr 2024.

Gweler tudalen 86 am ragor o fanylion am sut i ymateb a mynegi eich barn.

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori ar ei wefan. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol.

Gallwch ofyn hefyd am gopi caled o'r adroddiad.

Bydd yr adroddiad yn trafod y materion a godwyd gan bobl yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn rhoi ymateb y Cyngor i'r materion hyn. Bydd yr adroddiad yn cynnwys barn Estyn am y cynigion ac unrhyw ymatebion ffurfiol a dderbyniwyd gan aelodau etholedig, cyrff llywodraethu ysgolion, penaethiaid ac unrhyw gyrff cynrychioliadol. Bydd y pwyntiau a godir mewn ymatebion unigol yn cael eu crynhoi a'u hystyried ond heb eu cyhoeddi'n llawn.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu bwrw ymlaen â'r newidiadau a gynigir neu beidio.

Os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r newidiadau, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi dogfen o'r enw 'hysbysiad statudol'. Datganiad swyddogol yw hwn sy'n dweud y bydd y newidiadau'n mynd rhagddynt.

## Hysbysiad Statudol

Hysbysiad Statudol yw'r cyhoeddiad swyddogol ar gynnig terfynol. Rhaid i Gabinet y Cyngor roi'r gymeradwyaeth i gyhoeddi hysbysiad statudol. Byddai hyn ond yn cael ei ystyried wedi i adroddiad ar yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ddod i law'r Cabinet. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel sydd wedi ei amlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Byddai'r Cyngor yn cyhoeddi'r hysbysiad(au) statudol hwn ar ei wefan. Byddai hefyd yn rhoi copïau o'r hysbysiad(au) yn neu ger prif fynedfa'r ysgol(ion)/safle(oedd) y mae'r hysbysiad yn effeithio arnynt. Rhoddir copïau o'r hysbysiad i ysgolion yr effeithir arnynt hefyd, i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd anfon yr hysbysiad drwy e-bost). Mae'r hysbysiad statudol yn nodi manylion y cynigion ac yn gofyn i unrhyw un sydd am wrthwynebu wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig. Rhaid eu hanfon i'r Cyngor o fewn y dyddiadau a nodir ar yr hysbysiad.

## Penderfynu ar y cynigion

Cabinet Cyngor Caerdydd fyddai'n penderfynu ar y cynnig. Mae hyn yn golygu y bydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y newidiadau yn mynd yn eu blaen. Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynnig, neu ei gymeradwyo â rhai newidiadau (addasiadau). Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a ddaeth i law yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu wrth wneud ei benderfyniad.

## Hysbysiad o'r Penderfyniad

Wedi penderfynu, byddai Cyngor Caerdydd yn rhoi gwybod i bawb y byddai'r cynnig yn effeithio arno beth oedd y penderfyniad hwnnw. Caiff ei gyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor.

# Dweud Eich Dweud!

**Mae eich barn o bwys. Rhannwch eich barn ar y cynigion gyda ni drwy:**

- Lenwi a dychwelyd yr holiadur cysylltiedig i'r cyfeiriad a roddir ar waelod y ffurflen.
- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- Ysgrifennwch lythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW
- Os byddai'n well gennych, gallwch e-bostio eich sylwadau i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 19 Ionawr 2024.**

**Yn anffodus ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.**

## A ydych chi'n ymateb fel (ticiwch bob un sy'n berthnasol):

- ☐ Rhiant neu Warcheidwad Presennol*
- ☐ Rhiant neu Warcheidwad yn y Dyfodol*
- ☐ Disgybl*
- ☐ Aelod o staff*
- ☐ Llywodraethwr*
- ☐ Preswylydd Lleol
- ☐ Aelod Etholedig
- ☐ Arall (rhowch fanylion) ____________________

***A fyddech cystal â chadarnhau pa ysgol(ion) rydych yn gysylltiedig â hi/nhw?**

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

## 1. A ydych yn cefnogi'r cynlluniau a gyflwynwyd i wella'r ddarpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

## 2. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig ar gyfer pob un o'r safleoedd ysgol?

| Yr ysgol a'r cynnig | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Baden Powell**<br>• sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Baden Powell o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. | | | |
| **Ysgol Gynradd y Tyllgoed**<br>• sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn disodli'r dosbarth lles presennol. | | | |
| **Ysgol Gynradd Herbert Thompson**<br>• sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 16 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. | | | |
| **Ysgol Gynradd Lakeside**<br>• sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 16 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Lakeside o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn disodli'r dosbarth lles presennol. | | | |
| **Ysgol Gynradd Springwood**<br>• Sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Springwood o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn disodli'r dosbarth lles presennol. | | | |
| **Ysgol Gymraeg Pwll Coch**<br>• sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch o fis Medi 2024 yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn disodli'r dosbarth lles presennol. | | | |
| **Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr**<br>• sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 20 lle ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. | | | |

3. Os ydych chi neu os nad ydych chi'n cefnogi'r newidiadau a gynigir, eglurwch pam.

4. A hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen i'r opsiynau a gynigir?

## 5. A hoffech chi ychwanegu unrhyw sylwadau eraill?

Enw ______________________________

Cyfeiriad ______________________________

Cod post ______________________________

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 19 Ionawr 2024

**Ni fydd** y Cyngor yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

**Ni fydd** yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig.

Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cyflwyno gwrthwynebiadau.

Os hoffech gael gwybod pan gyhoeddir adroddiad yr Ymgynghoriad, nodwch eich cyfeiriad e-bost. Os na roddwch gyfeiriad e-bost i ni, ni fydd modd i ni roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

**Diolch i chi am eich sylwadau.**
**Dychwelwch y ffurflen hon at y Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW neu drwy e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk erbyn 19 Ionawr 2024 ar yr hwyraf .**

Caiff y wybodaeth a rowch yn y ffurflen hon ei thrin yn gyfrinachol, yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a'r Egwyddorion Diogelu Data Cyffredinol.

Caiff unrhyw ddata a roddir gennych ar y ffurflen hon ei brosesu yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data ac, wrth ei roi, rydych chi'n caniatáu i'r Cyngor ei brosesu at y diben y'i rhoddwyd. Bydd yr holl wybodaeth bersonol a rowch yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol a dim ond at ddibenion a ganiateir gan y gyfraith y bydd y Cyngor yn ei defnyddio neu ei datgelu i eraill.

Os hoffech dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg e-bostiwch ymgynghoriad@caerdydd.gov.uk
I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd rydym yn prosesu eich data personol, cyfeiriwch at ein Polisi Preifatrwydd – neu cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data, Ystafell 357, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW, e-bost: diogeludata@caerdydd.gov.uk

## AMDANOCH CHI

Rhowch eich cod post isod i'n galluogi i nodi barn ac anghenion yr ymatebwyr yn fanylach fesul ardal:

☐

**Beth oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?**

☐ Dan 16 ☐ 25-34 ☐ 45-54 ☐ 65-74 ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud
☐ 16-24 ☐ 35-44 ☐ 55-64 ☐ 75+

**A ydych chi'n…**

☐ Benyw ☐ Gwryw ☐ Arall ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud

**A ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?**

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud

**Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:**

☐ Byddar / Wedi Colli Clyw / Trwm Eich Clyw ☐ Nam ar y golwg
☐ Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor(e.e. canser, diabetes neu asthma)
☐ Anawsterau iechyd meddwl ☐ Defnyddiwr cadair olwyn ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud
☐ Nam / anawsterau dysgu ☐ Nam symudedd ☐ Arall

Rhowch fanylion ______________________________

**Beth yw eich grŵp ethnig?**

Pan ddefnyddir y term 'Prydeinig', mae hyn yn cyfeirio at unrhyw un o'r pedair cenedl gartref, sef Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu gyfuniad o'r rhain.

☐ Gwyn - Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig
☐ Gwyn - Gwyddelig
☐ Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
☐ Gwyn - Unrhyw gefndir gwyn arall
☐ Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn ac Asiaidd
☐ Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Caribïaidd
☐ Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Affricanaidd
☐ Cymysg/Grwpiau Aml-ethnig - Unrhyw un arall
☐ Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Tsieineaidd
☐ Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Pacistanaidd
☐ Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Bangladeshaidd
☐ Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Indiaidd
☐ Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Unrhyw un arall
☐ Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Affricanaidd
☐ Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Caribïaidd
☐ Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Unrhyw un arall
☐ Arabaidd
☐ Unrhyw grŵp ethnig arall (rhowch fanylion)
______________________________
☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud

Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi ei phrosesu gan Gyngor Caerdydd yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni yn ymwneud â'r ymgynghoriad hwn ei thrin yn gyfrinachol ond gallai gael ei defnyddio gan y Cyngor neu'i datgelu i eraill yn ôl gofynion y gyfraith. Mae angen prosesu'r data personol er mwyn cyflawni tasg benodol er budd y cyhoedd. Gydag unrhyw ymatebion a ddaw i law, bydd modd gwneud cais amdani o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid ei gwneud yn gyhoeddus. Wedi dweud hynny, byddai gwybodaeth sy'n cynnwys manylion personol fel enw a chyfeiriad unigolyn yn cael ei thynnu allan.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut mae Cyngor Caerdydd yn rheoli gwybodaeth bersonol, darllenwch ein Polisi Preifatrwydd ar wefan y Cyngor.
**Hysbysiad Preifatrwydd (caerdydd.gov.uk)**

# Ysgolion yr 21ain Ganrif
# Dogfen Ymgynghori 2023

## DARPARIAETH ARBENIGOL I DDYSGWYR CYNRADD SYDD AG ANGHENION DYSGU CYMHLETH A / NEU AWTISTIAETH

**20 TACHWEDD 2023 – 19 IONAWR 2024**



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Mae fersiwn gryno o'r ddogfen hon ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolionADY
Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni ar 029 2087 2720 i drefnu hyn



# Tabl Cynnwys


**Cyflwyniad**
- Beth yw pwrpas y llyfryn hwn?
- Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

**Ymgynghoriad**
- Gyda phwy yr ydym yn ymgynghori?
- Barn plant a phobl ifanc ar y newidiadau arfaethedig
- Sut mae cael rhagor o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?
- Cyfarfodydd cyhoeddus (yn bersonol / ar-lein)
- Sesiynau galw heibio (yn bersonol /ar-lein)
- Mae eich barn yn bwysig i ni

**Eglurhad o dermau yn y ddogfen hon**

**Cefndir**

**Yr Ymagwedd tuag at Gefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghaerdydd**

**Digonolrwydd yn y Sector Arbennig**

**Canolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth / Awtistiaeth**

**Lleoliadau Anghenion Dysgu Cymhleth / Awtistiaeth**
- Darpariaeth bresennol
- Dosbarthiad daearyddol Darpariaeth Arbenigol

**Galw am leoedd**
- Galw am leoedd
- Cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr oed cynradd sydd ag Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth

**YSGOL GYNRADD COED GLAS**

**Cynnig ar gyfer lleoedd ychwanegol yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Coed Glas**
- Nifer y lleoedd yn yr ysgol
- Y galw am lefydd yn yr ysgol
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
- Adeilad Canolfan Adnoddau Arbenigol Arfaethedig

**Ansawdd a Safonau**
- Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?
- Profiadau dysgu ac addysgu
- Gofal, cymorth ac arweiniad
- Arweinyddiaeth a rheoli

**Beth yw manteision y newid arfaethedig?**
**Anfanteision posibl y newid arfaethedig**
**Risgiau**
**Dewisiadau amgen**
**Materion Adnoddau Dynol**
**Materion Trafnidiaeth**
**Dweud eich dweud**

## YSGOL GYNRADD GREENWAY

**Cynnig ar gyfer lleoedd ychwanegol yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Greenway**

- Nifer y lleoedd yn yr ysgol
- Y galw am lefydd yn yr ysgol
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
- Adeilad Canolfan Adnoddau Arbenigol Arfaethedig

**Ansawdd a Safonau**

- Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?
- Profiadau dysgu ac addysgu
- Gofal, cymorth ac arweiniad
- Arweinyddiaeth a rheoli

**Beth yw manteision y newid arfaethedig?**
**Anfanteision posibl y newid arfaethedig**
**Risgiau**
**Dewisiadau amgen**
**Materion Adnoddau Dynol**
**Materion Trafnidiaeth**
**Dweud eich dweud**

## YSGOL GYNRADD SEVERN

**Cynnig ar gyfer lleoedd ychwanegol yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Severn**

- Nifer y lleoedd yn yr ysgol
- Y galw am lefydd yn yr ysgol
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol
- Adeilad Canolfan Adnoddau Arbenigol Arfaethedig

**Ansawdd a Safonau**

- Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?
- Profiadau dysgu ac addysgu
- Gofal, cymorth ac arweiniad
- Arweinyddiaeth a rheoli

**Beth yw manteision y newid arfaethedig?**
**Anfanteision posibl y newid arfaethedig**
**Risgiau**
**Dewisiadau amgen**
**Materion Adnoddau Dynol**
**Materion Trafnidiaeth**
**Dweud eich dweud**

**Gwybodaeth sy'n berthnasol i bob cynnig**

**Cymorth ychwanegol i ddisgyblion**

- Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol?
- Sut yr effeithir ar y cymorth i ddisgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion Ethnig Lleiafrifol?

**Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill?**

**Trefniadau derbyn**

**Trefniadau Teithio i Ddysgwyr**

**Materion Ariannol**

**Darpariaeth Iechyd**

**Trefniadau Llywodraethu**

**Effaith y cynigion ar y Gymraeg**

**Cydraddoldeb**

**Effaith Gymunedol**

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

**Tarfu Posibl i Ddisgyblion**

**Camau nesaf, sut gallwch fynegi eich barn a'r ffurflen adborth**

- Beth sy'n digwydd nesaf?
- Dyddiadau Allweddol
- Cyfnod ymgynghori
- Hysbysiad Statudol
- Penderfynu ar y cynigion
- Hysbysiad o'r Penderfyniad

**Dweud eich dweud**

- Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

**Amdanoch Chi**

# CYFLWYNIAD

## Beth yw pwrpas y llyfryn hwn?

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer rhieni/gofalwyr, staff ysgolion, llywodraethwyr ysgolion ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghaerdydd.   Bydd o ddiddordeb arbennig i rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc sy'n mynychu neu'n disgwyl mynychu ysgolion arbennig neu ganolfannau adnoddau arbenigol (CAAau) a'r rhai sydd wedi gweithio neu sydd ar hyn o bryd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag anghenion dysgu cymhleth (ADC) a/ neu Awtisitiaeth.

Mae gan blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu cymhleth  amrywiaeth o faterion a chyfuniad o anghenion haenog. Gallai'r rhain gynnwys anghenion sy'n gysylltiedig â dysgu, cyfathrebu, anableddau corfforol neu synhwyraidd.

Mae'r Cyngor am wneud newidiadau i'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr oed cynradd sydd ag anghenion dysgu cymhleth.

Mae'r llyfryn hwn yn nodi ystod o gynigion i gynyddu nifer y lleoedd canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr cynradd sydd ag anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth a'r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig hyn.

## Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth arbenigol i ddysgwyr cynradd sydd ag anghenion dysgu cymhleth a / neu awtistiaeth, bwriedir:

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Coed Glas o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Greenway o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Severn o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r cynigion hyn ar y camau cychwynnol. Byddai unrhyw newid i osodiad neu ddyluniad manwl safle'r ysgolion, os oedd eu hangen, yn cael eu hystyried yn ddiweddarach.  pe byddai angen newidiadau o'r fath, byddai cyfleoedd i roi sylwadau ar gynlluniau manwl adeg y camau cyn cynllunio a'r cais cynllunio, pe bai'r cynnigion yn cael ei ddatblygu.

Rydym hefyd yn ymgynghori ar gynigion ar wahân i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr cynradd ac uwchradd sydd ag anghenion iechyd a lles emosiynol mewn amrywiaeth o ysgolion ledled Caerdydd.

Gallwch ddod o hyd i fanylion y cynigion hyn yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

# Ymgynghoriad

## Gyda phwy yr ydym yn ymgynghori?

Rhaid i'r broses ymgynghori ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru sydd wedi eu nodi yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Fel rhan o hyn, rydym yn gofyn i bobl am eu barn ynghylch y newidiadau rydym yn eu cynnig. Mae sawl modd y gall pobl gynnig eu barn i ni.

**Mae Tabl 1 isod yn nodi â phwy y mae'r Cyngor yn ymgynghori.**

| Tabl 1: Grwpiau y mae'r Cyngor yn ymgynghori â nhw: | |
|---|---|
| Plant a phobl ifanc | Gweinidogion Cymru |
| Rhieni/gofalwyr | Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Staff ysgol | Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD) |
| Cyrff Llywodraethu Ysgolion | Comisiynydd y Gymraeg |
| Preswylwyr lleol | Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) |
| Cynghorau Cymuned | Undebau Llafur |
| Aelodau Lleol/Aelodau Etholaeth a Rhanbarthol y Senedd (AoS)/Aelodau Seneddol (ASau) | Darparwyr gofal plant |
| Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol | Mudiad Meithrin |
| Awdurdodau Cymdogol | Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru |
| Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cymdogol o fewn Caerdydd | Clybiau Plant Cymru |
| Estyn | Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd |
| Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf | Welsh Education Forum |
| Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro | Sefydliadau Sector Gwirfoddol |
| Busnesau/sefydliadau lleol | Comisiynydd Traffig Cymru |

## Barn plant a phobl ifanc ar y newidiadau arfaethedig

Mae Caerdydd yn Ddinas sy'n Dda i Blant ac mae barn plant a phobl ifanc yn allweddol i'r modd y darperir addysg. Mae'n bwysig wrth ddatblygu cynigion, fod trefniadau addas yn cael eu gwneud i ymgynghori â disgyblion. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â disgyblion yn yr ysgolion sy'n rhan o'r cynigion hyn a bydd y wybodaeth a gaiff ei chasglu yn y sesiynau hyn yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol.

## Sut mae cael mwy o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?

Mae'r ddogfen ymgynghori hon a ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Os na allwch gael mynediad i'r dogfennau ar-lein, bydd copïau print ar gael drwy'r post ar gais. Gallwch ofyn am gopi drwy e-bost ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk neu drwy ffonio 029 2087 2720.

Byddwn yn dweud wrth deuluoedd â phlant yn yr ysgolion dan sylw sut y gallant gael gafael ar gopi o'r ddogfen.

Bydd gwybodaeth hefyd yn cael ei rhoi i breswylwyr a busnesau sy'n agos at yr ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, byddwn yn cynnal cyfres o gyfarfodydd lle eglurir y newidiadau arfaethedig a lle bydd cyfle i ofyn cwestiynau.

## Cyfarfodydd Cyhoeddus (yn bersonol / ar-lein)

Byddwn yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus i unrhyw un fynychu lle bydd y newidiadau yr ydym yn eu cynnig yn cael eu hesbonio. Bydd cyflwyniad yn nodi manylion y newidiadau arfaethedig a chewch gyfle i ofyn cwestiynau fel rhan o'r cyfarfodydd hyn. Mae dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod cyhoeddus i fynd iddo'n bersonol yn y tabl isod.

Rydym yn cynnig cyfarfod ar-lein trwy Microsoft Teams. Bydd hyn yn debyg i'r cyfarfod cyhoeddus personol gyda chyflwyniad yn nodi manylion y newidiadau arfaethedig a chyfle i ofyn cwestiynau. Os hoffech fynychu'r cyfarfod cyhoeddus mewn person/ar-lein, bydd angen i chi archebu hwnnw ymlaen llaw. Cysylltwch â ni drwy e-bost ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk ac fe rown fanylion /dolen a chyfarwyddiadau i chi ar sut y gallwch fynychu.

## Sesiynau galw heibio (yn bersonol / ar-lein)

Byddwn hefyd yn cynnal sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb ar yr amseroedd / lleoliadau a nodir yn y tabl isod. Mae'r sesiynau galw heibio yn gyfle i unrhyw un fynychu ac maent yn gyfle i siarad â swyddogion am y cynigion a gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych. Nid oes angen archebu lle ar gyfer sesiwn galw heibio personol, dim ond mynychu'r lleoliad ar ryw adeg yn ystod yr amser pan fydd swyddogion ar gael.

Rydym yn cynnig sesiynau galw heibio ar-lein trwy Microsoft Teams. Mae'r rhain yn debyg i'r sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb gan eu bod yn gyfle anffurfiol i siarad â swyddogion am y cynigion a gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych. Byddai gofyn archebu slotiau ar gyfer y sesiynau galw heibio ar-lein ymlaen llaw. Os hoffech fynychu sesiwn ar-lein, cysylltwch â ni trwy e-bost: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk gan gadarnhau pa sesiwn yr hoffech ei mynychu ac fe anfonwn ddolen atoch a chyfarwyddiadau ar sut y gallwch gael mynediad i'r cyfarfod.

Bydd swyddogion y Cyngor yn cyfarfod â chyrff llywodraethu a staff yr ysgolion dan sylw.

Gallwch hefyd ysgrifennu at y Cyngor i roi eich barn.

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus wedi eu nodi isod.

**Tabl 2: Dyddiadau'r Cyfarfodydd Ymgynghori**

| Ymgynghoriad | Dyddiad ac Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| Sesiwn galw i mewn | Dydd Mercher 29 Tachwedd 2023<br>9am – 11am | Hyb Treali a Chaerau |
| Sesiwn galw i mewn | Dydd Mawrth 5 Rhagfyr 2023<br>9am – 11am | Hyb Powerhouse Llanedern |
| Sesiwn galw i mewn | Dydd Llun 8 Ionawr 2024<br>2pm – 4pm | Hyb Partneriaeth Tredelerch |
| Sesiwn galw I mewn ar-lein | Dydd Mawrth 12 Rhagfyr 2023<br>10am – 12 hanner dydd | Microsoft Teams |
| Sesiwn galw I mewn ar-lein | Dydd Gwener 12 Ionawr 2024<br>2pm – 4pm | Microsoft Teams |
| Cyfarfod cyhoeddus | Dydd Iau11 Ionawr 2024<br>5pm – 7pm | Hyb y Llyfrgell Ganolog (Yr Aes) |
| Cyfarfod cyhoeddus ar-lein (yn Gymraeg) | Dydd Llun15 Ionawr 2024<br>5:30pm – 7pm | Microsoft Teams |
| Cyfarfod cyhoeddus ar-lein (yn Saesneg) | Dydd Mawrth16 Ionawr 2024<br>5:30pm – 7pm | Microsoft Teams |

## Mae eich barn yn bwysig i ni

Mae eich barn yn bwysig ac rydym yn awyddus i chi ddweud wrthym beth rydych yn ei feddwl am y newidiadau rydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen.

Gallwch wneud hyn drwy:

- Fynychu cyfarfod cyhoeddus neu'r sesiynau galw heibio uchod.
- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- Cwblhau ffurflen ymateb yr ymgynghoriad, sydd i'w chael ar dudalen 50. Mae'r ffurflen ymgynghori ar gael yn Gymraeg, Saesneg ac amrywiaeth o ieithoedd cymunedol ar ein gwefan. Ar ôl ei llenwi, gallwch sganio'r ffurflen a'i hanfon atom i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk Os nad oes gennych fodd i ddefnyddio sganiwr, gallwch ymweld â'ch hyb lleol a gofyn iddynt sganio'r ffurflen a'i hanfon atom ar eich rhan.
- Cysylltu â'r tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk, dros y ffôn ar (029) 2087 2720 neu drwy'r post i Ystafell 463, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW. Gall hyn gynnwys gofyn i swyddog ffonio'n ôl os oes gennych gwestiwn penodol y teimlwch yr hoffech gael rhagor o wybodaeth amdano.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 19 Ionawr 2024.**

Ni fydd y Cyngor yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a geir ar ôl y dyddiad hwn.

# Eglurhad o dermau yn y ddogfen hon

Sylwer ar y termau canlynol a ddefnyddir gydol y ddogfen hon:

**Nifer Derbyn** - mae pob ysgol a gynhelir yn derbyn disgyblion hyd at eu Nifer Derbyn Cyhoeddedig o leiaf. Y nifer derbyn yw nifer y llefydd sydd ar gael i ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn.

**ADY** - Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ystyrir bod gan blentyn neu berson ifanc Anghenion Dysgu Ychwanegol os oes ganddo anawsterau sy'n cael effaith hirdymor sylweddol ar ei ddysgu. Gall anawsterau fod yn gysylltiedig â dysgu; cyfathrebu a rhyngweithio; anabledd corfforol neu synhwyraidd; neu ddatblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. (Cyfeirir weithiau at ADY fel Anghenion Addysgol Arbennig).

**Awtisitiaeth** - Mae awtistiaeth yn anabledd datblygiadol gydol oes sy'n effeithio ar sut mae pobl yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio â'r byd. Sbectrwm yw awtistiaeth. Mae hyn yn golygu bod pawb ag awtistiaeth yn wahanol. Ychydig iawn o gefnogaeth sydd ei angen ar rai pobl awtistig neu ddim cymorth o gwbl. Efallai y bydd eraill angen help rhiant neu ofalwr bob dydd.

**Ysgolion Cymunedol** – ysgol gynradd neu uwchradd lle mae'r Cyngor yn trefnu derbyniadau i ysgolion.

**Anghenion Dysgu Cymhleth** - plant a phobl ifanc sydd ag amrywiaeth o broblemau a chyfuniad o anghenion haenog. Gallai'r rhain gynnwys anghenion sy'n gysylltiedig â dysgu, cyfathrebu, anableddau corfforol neu synhwyraidd.

**Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol** – mae gan blant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol broblemau o ran meddwl, teimlo ac ymddwyn. Mae hyn yn cael effaith ar reoli sut mae bywyd yn effeithio arnynt, sut maent yn ymdopi, sut maent yn ymgysylltu ag eraill a'r dewisiadau a wnânt. Weithiau o ganlyniad i drawma. Gall plant a phobl ifanc arddangos gorbryder, hunan-barch isel, ffobia ysgol, neu anawsterau ymddygiadol.

**Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY)** - darpariaeth addysg i ddiwallu anghenion penodol disgyblion na allant, am wahanol resymau, fynychu ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig. Mae AHY yn cyfeirio at addysg a ddarperir gan yr awdurdod lleol ac nid yw'n cwmpasu addysg ddewisol yn y cartref.

**Darpariaeth yn y Sir** - Cyngor yn cynnal ac yn ariannu lleoedd mewn ysgolion neu ganolfannau adnoddau arbenigol yng Nghaerdydd.

**Cynllun Datblygu Unigol (CDU)** – Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc ag angen a nodwyd sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol Gynllun Datblygu Unigol gorfodol (CDU). Mae'r cynllun yn nodi anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc a'r camau sydd eu hangen i'w cefnogi. Mae CDU wedi disodli datganiadau AAA. Mae gan bob plentyn mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol CDU. Cyfrifoldeb naill ai yr ysgol neu'r awdurdod lleol fydd y CDU.

**Prif ffrwd** - mae ysgol brif ffrwd yn ysgol sy'n cael ei rhedeg gan y Cyngor nad yw'n ysgol arbennig. Nid yw ysgolion prif ffrwd/arbennig a gynhelir gan y Cyngor yn dethol disgyblion ac nid ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr dalu ffioedd.

**Data Nifer ar y Gofrestr** – nifer y disgyblion sydd mewn ysgol (heb gynnwys disgyblion meithrin)

**Darpariaeth y tu allan i'r Sir** - lle nad oes gan y Cyngor ddarpariaeth addas ar gyfer disgyblion sydd angen lle arbenigol, efallai y bydd yn rhaid ariannu lleoedd mewn ysgol neu ganolfan adnoddau arbenigol mewn awdurdod lleol arall neu mewn darpariaeth sy'n cael ei rhedeg gan sefydliad annibynnol.

**CYBLD** – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Ym mis Ionawr bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth gan ysgolion. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion ymhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd, data ar y Gymraeg, Anghenion Addysgol Arbennig, mamiaith a disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol Am Ddim.

**Gweithredu gan yr Ysgol** – Pan fo athro dosbarth neu bwnc yn rhoi cymorth ychwanegol i ddisgybl ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy** – Pan fo arbenigwyr o'r tu allan yn helpu staff dosbarth neu ysgol i roi cymorth ychwanegol i ddisgybl ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn wahanol neu'n ychwanegol i gymorth a roddir drwy Gweithredu gan yr Ysgol.

**Ysgol Arbennig** – ysgol ar gyfer plant ag angen dysgu ychwanegol neu anabledd, na ellir diwallu eu hanghenion mewn ysgol brif ffrwd. Mae gan y disgyblion mewn ysgol arbennig ddatganiad AAA, neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU).

**Canolfan Adnoddau Arbennigol (CAA)** - Dosbarth bach mewn ysgol brif ffrwd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol. Mae gan bob disgybl sy'n mynychu CAA ddatganiad AAA neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU) ac fe'u haddysgir gan athrawon arbenigol a chynorthwywyr cymorth dysgu, ac maent yn cael cyfleoedd i ddysgu, chwarae neu gymdeithasu â disgyblion prif ffrwd eraill.

**Datganiad AAA** - Dogfen sy'n disgrifio'n fanwl anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol ac sy'n nodi'r ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud i'w cefnogi. Mae'r rhain bellach yn cael eu disodli gan Gynlluniau Datblygu Unigol (CDUau).

## Cefndir

Mae gweledigaeth 2030 Caerdydd ar gyfer addysgu a dysgu yng Nghaerdydd yn gosod nod ‘Hawl Dysgu’, lle gall pob plentyn a pherson ifanc:

- gael mynediad at lwybrau priodol i gyfleoedd addysgu a dysgu
- ffynnu a chyflawni eu potensial
- gwireddu eu breuddwydion a’u huchelgeisiau unigol

Er mwyn gwella deilliannau dysgwyr mwyaf agored i niwed Caerdydd, â llawer ohonynt yn wynebu rhwystrau i ymgysylltu ag addysgu a dysgu, mae mynd i’r afael ag anghydraddoldeb yn allweddol.

Mae gweledigaeth Caerdydd 2030 ar gael i’w gweld ar cardiff.gov.uk/cardiff2030

## Yr Ymagwedd tuag at Gefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghaerdydd

Mae ymagwedd effeithiol a chynhwysol o gefnogi anghenion dysgu ychwanegol yng Nghaerdydd yn cynnwys yr egwyddorion canlynol:

- Ysgolion a lleoliadau sy’n cyflwyno cwricwlwm arloesol gyda dulliau ysgol-gyfan effeithiol o ran addysgu a dysgu, iechyd a lles emosiynol.
- Gwasanaethau arbenigol rhagorol i wella gallu ysgolion a lleoliadau eraill i gynnwys plant a phobl ifanc ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol.
- Trefniadau effeithiol ar gyfer nodi’n gynnar ac ymyrraeth sy’n seiliedig ar ymchwil i atal anghenion dysgu ychwanegol rhag dwysáu lle bynnag y bo modd.
- Lefelau uchel o hygyrchedd ym mhob adeilad ysgol, gyda digon o ofod hyblyg ym mhob ysgol sy’n briodol i oedran a’r cyfnod dysgu.
- Partneriaethau cryf i sicrhau ymateb holistig, cydweithredol i anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc (gan gynnwys iechyd, gwasanaethau plant ac oedolion, darparwyr blynyddoedd cynnar ac Addysg Bellach).
- Cynllunio pontio amlasiantaethol effeithiol ar bob cam, o’r blynyddoedd cynnar hyd at gyrchfannau cynradd, uwchradd, ôl-16 ac oedolion, i gefnogi mynediad yn ddi-oed.

Mae nifer y plant a’r bobl ifanc sydd angen lleoliad arbenigol o ganlyniad i’w hanableddau dysgu wedi bod yn cynyddu yng Nghaerdydd dros y 5 mlynedd diwethaf, a chymerwyd camau ers 2018 i gynyddu nifer y lleoedd arbenigol sydd ar gael.

Mae’r cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon yn ceisio gwella mynediad i addysg yn unol â’r egwyddorion cynhwysiant uchod.

## Digonolrwydd yn y Sector Arbennig

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i egwyddorion cynhwysiant. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn mynychu ysgol brif ffrwd leol, ac yn elwa ar Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) effeithiol. Nid oes angen i’r dysgwyr hyn fynychu ysgol arbennig na chanolfan adnoddau arbenigol.

Fodd bynnag, cydnabyddir, er mwyn ffynnu a chyflawni eu potensial, fod angen i blant a phobl ifanc sydd â'r anghenion dysgu ychwanegol mwyaf cymhleth gael mynediad i amgylcheddau arbenigol ac arbenigedd ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol.

Mae nifer y disgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol wedi parhau i dyfu.

Mae hyn oherwydd:

- Cyfraddau goroesi gwell ar gyfer plant sy'n cael eu geni ag anableddau sylweddol, gan arwain at nifer uwch o ddisgyblion ag anableddau difrifol a chymhleth.
- Mwy o gymhlethdod o ran anghenion, sydd wedi golygu bod y galw am ddarpariaeth arbenigol wedi parhau i dyfu. Mae'r ystod o arbenigedd, cymorth arbenigol a chyfleusterau sydd eu hangen mewn ysgolion arbennig a CAAau hefyd wedi cynyddu.
- Mwy o achosion a mwy o gofnodi mewn perthynas ag anghenion penodol fel awtistiaeth, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADCG), anableddau corfforol a namau ar y synhwyrau.
- Mwy o blant a phobl ifanc ag anghenion iechyd a lles emosiynol. Roedd hyn yn duedd cyn COVID 19 ond mae wedi'i waethygu gan ysgolion yn cau a mesurau eraill i reoli'r pandemig.

## Canolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth

Dosbarth bychan mewn ysgol prif ffrwd yw canolfan adnoddau arbenigol sy'n cael ei addysgu gan staff arbenigol.

Ar hyn o bryd, mae ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghaerdydd yn cynnal canolfannau adnoddau arbenigol. Mae rhai wedi'u dynodi i gefnogi plant ag anghenion dysgu cymhleth sydd angen cwricwlwm arbenigol a addysgir mewn amgylchedd dosbarth bach; mae rhai wedi'u dynodi ar gyfer dysgwyr ag awtistiaeth neu nam ar eu clyw sydd angen cymorth arbenigol i gael mynediad at ddysgu prif ffrwd, gyda mynediad i ganolfan anogaeth ar gyfer rhywfaint o amser dysgu ac anstrwythuredig.

Diben canolfan adnoddau arbenigol yw galluogi dysgwyr ag anawsterau dysgu i lwyddo mewn amgylchedd ysgol prif ffrwd. Caiff disgyblion eu haddysgu mewn dosbarth bach gan staff arbenigol ac maent yn elwa ar gwricwlwm arbenigol, tra'n elwa ar yr ystod lawn o gyfleoedd addysg sydd ar gael i bob disgybl yn yr ysgol. Lle bo'n briodol, gall disgyblion fynd i wersi a gweithgareddau ochr yn ochr â disgyblion nad ydynt yn mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol.

# Lleoedd Anghenion Dysgu Cymhleth/Awtistiaeth

## Darpariaeth bresennol

Ar hyn o bryd mae Caerdydd yn cynnal pedair ysgol arbennig a naw o ganolfannau adnoddau arbenigol i blant cynradd ag anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth.

**Mae Tabl 3 yn nodi'r ddarpariaeth gynradd ar gyfer anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghaerdydd.**

| Tabl 3: Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu leoedd Awtistiaeth i ddysgwyr oed cynradd yng Nghaerdydd 2023/24 | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Capasiti Presennol Anghenion Dysgu Cymhleth/ Awtistiaeth Cynradd 2023/2024** |
| Ysgol Arbennig Meadowbank | 98 |
| Ysgol Arbennig Riverbank | 78 |
| Ysgol Arbennig The Hollies | 150 |
| Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn | 80** |
| Ysgol Gynradd Bryn Hafod (Canolfan Adnoddau Arbenigol) | 20 |
| Ysgol Gynradd Llanedern (Canolfan Adnoddau Arbenigol) | 20 |
| Ysgol Gynradd Llanisien Fach (Canolfan Adnoddau Arbenigol) | 30 |
| Ysgol Gynradd Marlborough (Canolfan Adnoddau Arbenigol) | 30 |
| Ysgol Gynradd Moorland (Canolfan Adnoddau Arbenigol) | 20 |
| Ysgol Gynradd Pentre-baen (Canolfan Adnoddau Arbenigol) | 24 |
| Ysgol Gynradd Springwood (Canolfan Adnoddau Arbenigol) | 28 |
| Ysgol Gynradd Windsor Clive (Canolfan Adnoddau Arbenigol) | 20 |
| Ysgol Pwll Coch (Canolfan Adnoddau Arbenigol) | 20 |
| Is-gyfanswm Ysgolion Arbennig | 406 |
| Is-gyfanswm Canolfannau Adnoddau Arbenigol | 212 |
| **Cyfanswm lleoedd** | **618** |

*Cyfanswm capasiti Ysgol Tŷ Gwyn yw 240 o leoedd. Mae tua 80 ohonynt yn gwasanaethu dysgwyr cynradd gyda'r 160 o leoedd sy'n weddill yn gwasanaethu dysgwyr 11-19 oed.

Bydd cynigion a gytunwyd yn flaenorol i ymestyn ac ailadeiladu Ysgol Arbennig Riverbank, yn cynyddu'r cyfanswm i 652 o leoedd o 2026.

Er bod nifer o leoliadau arbenigol ledled Caerdydd ar hyn o bryd, nid oes digon o leoedd ar gael. Mae nifer y plant a fyddai'n elwa o le wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ac amcanestynnir y bydd y niferoedd yn cynyddu ymhellach dros y blynyddoedd nesaf.

Gan nad oes digon o leoedd ysgol arbennig yng Nghaerdydd, mae'r Cyngor hefyd wedi ariannu rhai lleoedd mewn ysgolion arbennig mewn ardaloedd cynghorau eraill neu mewn ysgolion annibynnol. Mae'r Cyngor wedi ysgwyddo costau cynyddol lleoliadau mewn ysgolion annibynnol i gwrdd â'r diffyg darpariaeth yn y sir ac i sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu'n llawn.

Cyfanswm y gwariant ar y lleoedd hyn i ddysgwyr o bob oed oedd £8.9m yn 2022/23. Mae'r gyllideb ar gyfer 2023/24 ar gyfer y mathau hyn o leoedd wedi'i phennu ar hyn o bryd ar £10.3m.

Yn gyffredinol, byddai ehangu darpariaeth o fewn y Sir yn cynnig defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau ariannol y Cyngor na dibynnu ar leoedd mewn ysgolion annibynnol.

Mae'r Cyngor felly'n blaenoriaethu datblygu cynigion i ehangu darpariaeth a gynhelir y Cyngor a fyddai'n cefnogi nifer fwy o ddysgwyr Caerdydd i gael addysg yn y ddinas ac yn eu cymuned leol a byddai'n cael effaith gadarnhaol ar ddosbarthiad adnoddau ariannol y Cyngor i ysgolion ledled y ddinas.


## Dosbarthiad daearyddol darpariaeth arbenigol

Nid yw lleoliad canolfannau adnoddau arbenigol wedi'u dosbarthu'n dda ar draws y ddinas.

Gall diffyg canolfannau adnoddau arbenigol mewn rhai ardaloedd roi dysgwyr sy'n byw yn yr ardaloedd hynny dan anfantais.  Mae rhai teuluoedd yn anghyfarwydd â'r ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth wedi'i lleoli.  Mae'n bosibl na all rhieni neu ofalwyr deithio'n hawdd i'r ardaloedd hynny.

Er bod trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gael i blant o'r fath, mae anfon plentyn ifanc i'r ysgol mewn ardal anghyfarwydd yn benderfyniad anodd i rieni/gofalwyr. Byddai dosbarthiad gwell o ganolfannau adnoddau arbenigol ar draws y ddinas yn gwella mynediad i ddisgyblion.  Byddai'n lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael.

**Darpariaeth ADY Arbenigol Caerdydd 2023/24**



# Galw am leoedd

## Galw am leoedd


Mae monitro parhaus y Cyngor o anghenion unigol dysgwyr, a sut mae anghenion pob dysgwr yn esblygu, yn caniatáu i dueddiadau data gael eu nodi sydd wedyn yn llywio'r broses o gynllunio lleoedd a chymorth i ddysgwyr.

Mae tabl 4 isod yn nodi'r twf yn nifer y dysgwyr sy'n cyrchu darpariaeth arbenigol yn ystod y blynyddoedd diwethaf:

**Tabl 4: Disgyblion Caerdydd mewn lleoliad arbenigol, 2017/18 i 2022/2023**

| Darpariaeth a gynhelir Caerdydd | 17-18 | 18-19 | 19-20 | 20-21 | 21-22 | 22-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canolfan Adnoddau Arbenigol Cynradd | 174 | 192 | 192 | 192 | 213 | 204 |
| Canolfan Adnoddau Arbenigol Uwchradd | 219 | 274 | 274 | 294 | 341 | 365 |
| Cynradd Arbennig (4-11) | 204 | 216 | 240 | 254 | 282 | 299 |
| Uwchradd Arbennig(11-19) | 186 | 196 | 205 | 208 | 210 | 227 |
| Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn (3-19) | 184 | 177 | 190 | 198 | 208 | 222 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion (cofrestriad unigol i Uned Cyfeirio Disgyblion) | 38 | 51 | 57 | 64 | 72 | 68 |
| **Is-gyfanswm - ysgolion arbennig Caerdydd, canolfannau adnoddau arbenigol ac Uned Cyfeirio Disgyblion** | **1005** | **1106** | **1158** | **1210** | **1326** | **1385** |
| Cynradd - wedi'i leoli mewn ardal Awdurdod Lleol arall | 17 | 14 | 14 | 13 | 11 | 13 |
| Uwchradd – wedi'i leoli mewn ardal Awdurdod Lleol arall | 68 | 55 | 59 | 59 | 51 | 40 |
| Cynradd Annibynnol / Addysg Heblaw yn yr Ysgol | 3 | 4 | 9 | 9 | 15 | 37 |
| Uwchradd Annibynnol / Addysg Heblaw yn yr ysgol | 312 | 279 | 267 | 228 | 257 | 272 |
| **Is-gyfanswm - arall** | **400** | **352** | **349** | **309** | **334** | **362** |
| **Cyfanswm Lleoliadau** | **1405** | **1458** | **1507** | **1519** | **1660** | **1747** |

DISGYBLION OED CYNRADD CAERDYDD YN MANTEISIO AR LEOLIADAU ARBENIGOL





Wrth gymharu nifer y dysgwyr sydd mewn darpariaeth arbenigol gyda phoblogaeth gyffredinol yr ysgolion yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gellir nodi cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yng nghyfran y boblogaeth ddisgyblion sy'n defnyddio darpariaeth arbenigol.

Mae'r tabl isod yn cynrychioli parhad o'r duedd amcanestyniad hon yn y gofyniad am leoliadau arbenigol, yn erbyn y poblogaethau disgyblion a amcanestynnir yn y cyfnodau oed cynradd, uwchradd ac ôl-16.

**Tabl 5: Parhad y duedd ddiweddar i ddisgyblion Caerdydd ddefnyddio lleoliad arbenigol**

| | 22-23 | 23-24 | 24-25 | 25-26 | 26-27 | 27-28 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcanestyniad twf parhaus | 1747 | 1776 | 1817 | 1854 | 1887 | 1915 |
| Amcanestyniad twf parhaus - % o'r boblogaeth | 3.4% | 3.4% | 3.5% | 3.6% | 3.7% | 3.8% |

DISGYBLION CAERDYDD YN MANTEISIO AR LEOLIADAU ARBENIGOL A PHARHAD Y DUEDD




Byddai tuedd y twf a nodwyd o tua 2.9% yn 2017/18 i oddeutu 3.4% yn 2022/23, pe bai'n parhau, yn cyrraedd tua 3.8% (1,915 o ddisgyblion) erbyn 2027/28. Fodd bynnag, er bod hyn yn atgyfnerthu'r angen am gynigion i ehangu'r ddarpariaeth arbenigol hyd yma, ni ellir modelu tueddiadau twf o'r fath i barhau'n amhenodol uwch law 3.8% o'r boblogaeth ysgolion gyfan.

Ni ragwelir y dylid gosod cyfran mor uchel o ddysgwyr mewn darpariaeth arbenigol, megis ysgolion arbennig, canolfannau adnoddau arbenigol ac unedau cyfeirio disgyblion. Dylai'r gefnogaeth mewn ysgolion prif ffrwd, lle bo'n briodol, ganiatáu i ddysgwyr aros o fewn eu cymuned ysgol gartref. Mae'r Cyngor yn ymchwilio i gyfleoedd i wella cyfleusterau ar gyfer atal ac ymyrryd yn gynnar mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, gan gynnwys mannau hyblyg i ganiatáu ar gyfer dosbarthiadau llai ac ar gyfer sefydlu trefniadau anogaeth a gwahardd mewnol.

## Cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr cynradd sydd ag Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu a chynyddu'r ddarpariaeth ymhellach ar gyfer dysgwyr cynradd sydd ag anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth mewn darpariaeth arbenigol lle mae lleoliadau parhaol yn briodol.

Byddai'r cynigion hyn yn darparu 60 o leoedd arbenigol anghenion dysgu cymhleth oed cynradd parhaol ychwanegol.

Mae'r ystod o gynigion yn canolbwyntio ar gefnogi disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd, lle bo hynny'n briodol, ac ar dwf cynaliadwy darpariaeth arbenigol sefydledig a llwyddiannus. Byddai hyn yn lleihau dibyniaeth y Cyngor ar lefydd y tu allan i'r sir a rhai annibynnol yn y blynyddoedd i ddod.

Byddai'r cynnydd cyffredinol yn y ddarpariaeth, i gyd-fynd yn agosach â'r angen a ragwelir am leoedd, yn galluogi nifer fwy o ddysgwyr i gael eu lleoli mewn darpariaeth sydd o fewn neu'n agosach at eu cymuned leol ac yn lleihau amseroedd teithio.

# Ysgol Gynradd Coed Glas



# Cynnig ar gyfer lleoedd ychwanegol yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Coed Glas

Mae Ysgol Gynradd Coed Glas yn ysgol gynradd gymunedol Saesneg gyda darpariaeth feithrin wedi'i lleoli yn Rhodfa Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DW.

Mae'r ysgol yn gartref i ganolfan adnoddau arbenigol ar gyfer plant sydd ag amhariad ar eu clyw  Ni chynigir unrhyw newidiadau i ganolfan adnoddau arbenigol yr ysgol ar gyfer dysgwyr sydd ag amhariad ar eu clyw.

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth arbenigol gynradd, mae'r Cyngor yn cynnig:

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol ag 20 lle ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth a/neu awtisitiaeth yn Ysgol Gynradd Coed Glas o fis Medi 2024.




Nodir gwybodaeth sy'n benodol i'r cynnig hwn ar dudalennau 17-23.

## Nifer y lleoedd yn yr ysgol

**Mae Tabl 6 isod yn rhoi manylion y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Coed Glas**

| Enw'r ysgol | Capasiti Cyhoeddedig Presennol (4-11 oed) | Lleoedd fesul grŵp blwyddyn (4-11 oed) | Lleoedd Meithrin | Cyfrwng iaith a Chategori'r Ysgol |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Coed Glas (lleoedd prif ffrwd) | 525 | 75 | 112 | Ysgol gynradd gymunedol Saesneg |
| Ysgol Gynradd Coed Glas (lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol Nam Clyw) | 15 | N/A | N/A | Ysgol gynradd gymunedol Saesneg |

Capasiti presennol Ysgol Gynradd Coed Glas yw 525 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 471 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ionawr 2023.

Mae gan yr ysgol ddigon o lety i hyd at 112 o ddysgwyr fanteisio ar addysg feithrin ac ar hyn o bryd mae'n cael ei ariannu i hyd at 80 o ddysgwyr fynychu.

## Y galw am leoedd yn yr ysgol

**Mae Tabl 7 isod yn nodi manylion rhifau diweddar ac a amcanestynnir ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Coed Glas.**

**Tabl 7: Niferoedd diweddar ac a amcanestynnir ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Coed Glas**

| Ysgol | Nifer ar y gofrestr (CYBLD) | | | | | Amcanestyniadau niferoedd disgyblion* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2023/26 | 2026/27 | 2027/28 |
| Coed Glas Primary School mainstream places | 484 | 474 | 478 | 475 | 471 | 444 | 436 | 427 | 412 | 412 |

*Galw am leoedd disgyblion yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth a/neu ddata tuedd ADY wedi'i gapio i gapasiti'r ysgol

## Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben / risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

**Tabl 8: Sgorau cyflwr ac addasrwydd**

| Sgôr | Cyflwr | Addasrwydd |
|---|---|---|
| A | Da ac yn gweithredu'n effeithlon | Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant yn yr ysgol |
| B | Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio. | Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd. |
| C | Gwael, gyda diffygion mawr. | Gwael. Amharu ar ddulliau addysgu/effaith wael ar drefn yr ysgol |
| D | Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg ddybryd o fethu. | Gwael iawn. Adeiladau'n amharu'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm. |

Cafodd Ysgol Gynradd Coed Glas ei graddio'n fwyaf diweddar ag C am gyflwr a B am addasrwydd.

Byddai'r safle, a'r seilwaith lleol oddi ar y safle, yn gallu cefnogi datblygu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol.

### Gofod Canolfan Adnoddau Arbenigol Arfaethedig

Mae Ysgol Gynradd Coed Glas yn Llanisien yn ymestyn i tua 6 erw. Nid oes angen prynu tir ychwanegol i hwyluso sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 20 lle ar gyfer anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Coed Glas o fis Medi 2024.

Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol angen dwy ystafell ddosbarth i ddarparu amgylchedd meithringar, gan gynnwys ystafell grŵp fechan ynghyd â mynediad i ardal ddysgu ddiogel y tu allan a thoiledau hygyrch.

Cynigir y byddai'r ganolfan yn cael ei lletya yn adeiladau'r ysgol bresennol.

## Ansawdd a Safonau

Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan Gonsortiwm Canolbarth y De yn ymwneud ag ansawdd a safonau yn Ysgol Gynradd Coed Glas.

- Mae'r ysgol yn ymwybodol o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen eu datblygu ac mae'r rhain wedi eu hadlewyrchu yng nghynllun gwella'r ysgol. Mae blaenoriaethau diweddar wedi cynnwys cynllunio ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd, sicrhau profiadau dilys a phwrpasol i ddisgyblion y blynyddoedd cynnar a sicrhau bod dysgwyr ag anghenion ychwanegol yn cael cymorth effeithiol ac yn gwneud cynnydd.
- Mae arweinwyr wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer dysgu a llesiant. Mae ganddynt uchelgeisiau ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd ac o ganlyniad, mae'r ysgol yn rhan annatod o'i chymuned amrywiol.
- Mae arweinwyr wedi creu amgylchedd gofalgar a chynhwysol lle mae pawb yn meddu ar ymdeimlad o berthyn. Mae cynnwys dysgwyr o'r Ganolfann Adnoddau Nam ar y Clyw ym mywyd yr ysgol yn nodwedd gref. Mae cymuned yr ysgol yn falch o'i statws Aur fel Ysgol sy'n Parchu Hawliau.
- Mae ffocws cryf ar ddatblygu iechyd a lles corfforol, meddyliol ac emosiynol disgyblion gan adlewyrchu anghenion llawer o ddysgwyr. Darperir cefnogaeth ac anogaeth effeithiol a phwrpasol o fewn darpariaeth 'Y Nyth'.
- Mae llawer o ddisgyblion yn helpu i siapio meysydd allweddol i fywyd yr ysgol ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o gyfrifoldebau yn frwdfrydig. Er enghraifft, maent yn trefnu gweithgareddau i'w cyfoedion fel rhan o wythnos iechyd meddwl ac yn hyrwyddo iaith arwyddion. Mae'r gweithgareddau gwerth chweil hyn yn sicrhau bod barn a syniadau'r disgyblion yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ymarfer yr ysgol ac yn gwneud cyfraniad nodedig at sgiliau cymdeithasol a bywyd disgyblion.
- Mae'r ysgol yn meithrin perthnasoedd cref gyda rhieni a theuluoedd. Mae cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol yn dda iawn ac o ganlyniad, mae rhieni'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am y mentrau cyfredol ac am y cynnydd y mae eu plant yn ei wneud.

Yn ôl arolwg mwyaf diweddar Estyn ym mis Ionawr 2023, barnwyd bod safonau, llesiant ac agweddau'r ysgol at ddysgu, addysgu a phrofiadau dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda.

### Sut byddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (www.addewidcaerdydd.co.uk).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau'n uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae safonau yn yr ysgol yn dda ac ni ddisgwylir y bydd sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbeigol yn yr ysgol yn effeithio'n negyddol ar yr ysgol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg yn yr ysgol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

## Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn yr ysgol.

Mae lleoliadau anghenion dysgu cymhleth (gan gynnwys awtistiaeth) yn darparu cwricwlwm arbenigol mewn lleoliad dosbarth bach sy'n addas ar gyfer dysgwyr ag anableddau dysgu cyffredinol difrifol. Efallai y bydd gan rai disgyblion anawsterau cysylltiedig hefyd, gan gynnwys awtistiaeth, anghenion corfforol neu feddygol, anawsterau lleferydd ac iaith. Mae ysgolion yn sicrhau bod gan staff a gyflogir yn y lleoliad sgiliau a phrofiad priodol i gynllunio a chyflwyno cwricwlwm arbenigol, ac i gynllunio a gweithredu strategaethau priodol i gefnogi datblygiad iaith a chyfathrebu, cyfathrebu cymdeithasol a rhyngweithio, rheolaeth synhwyraidd ac emosiynol.

Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol ac i weithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella gallu'r ysgol o ran cynhwysiant ac o fudd i holl ddisgyblion yr ysgol.

## Cymorth gofal ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisïau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Mae'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ysgolion arbennig a'r canolfannau adnoddau arbenigol. Bydd gan bob dysgwr Gynllun Datblygu Unigol sy'n ddogfen statudol sy'n nodi'r hyn sy'n 'bwysig i' ac yn 'bwysig ar gyfer' y plentyn neu'r person ifanc, y deilliannau a ddymunir a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd i'w gweithredu er mwyn cyflawni'r deilliannau.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal gofal, cymorth ac arweiniad.

## Arwain a Rheoli

Mae'r canolfannau adnoddau arbenigol yn cael eu dirprwyo i ysgolion. Cyrff Llywodraethu sy'n pennu'r model rheoli mwyaf priodol ar gyfer y lleoliad, yn unol â'r dull rheoli ac arweinyddiaeth ysgol gyfan a'r nod o sicrhau bod y ganolfan yn rhan gwbl integredig o'r ysgol. Gall yr awdurdod lleol roi cyngor a chymorth o ran penodiadau arbenigol.

Nid yw lleoliadau newydd fel arfer yn agor i'w capasiti llawn yn y flwyddyn gyntaf. Cyn belled ag y bo modd, mae derbyniadau wedi'u gwasgaru dros 3-5 mlynedd, gan alluogi'r lleoliad i sefydlu ei ymarfer fesul cam.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth na llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

## Beth yw manteision y newid arfaethedig?

- Byddai'r cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr cynradd sydd ag anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth ac yn helpu i ateb y galw a amcanestynnir.
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol yr ysgol. Byddai hyn o fudd i bob disgybl yn yr ysgol;
- Byddai'r cynnig yn golygu y gallai disgyblion sy'n byw yng ngogledd y ddinas sydd angen lle mewn canolfan adnoddau arbenigol anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth gael darpariaeth addas yn nes at adref, ac felly'n teithio pellteroedd byrrach i allu manteisio ar ddarpariaeth arbenigol.

## Anfanteision posibl y newid arfaethedig

- Gall newid fod yn anodd i rai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Efallai y byddai symud i adeilad newydd ar safle newydd yn peri gofid iddynt. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r lleoliad newydd. Fodd bynnag, byddai digon o amser a phrosesau hirhoedlog i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.
- Mae'n bosib y gallai fod mwy o dagfeydd traffig ger safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Coed Glas i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

## Risgiau

- Pe bai angen unrhyw waith adeiladu, addasu ac adnewyddu, gallai gweithredu'r newid arfaethedig gael ei effeithio oherwydd anawsterau annisgwyl wrth benodi contractwyr priodol, oedi wrth gyflawni prosiectau neu sicrhau cyllid digonol. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni ystod o brosiectau adeiladu ysgolion yn llwyddiannus o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr sy'n tyfu a byddai'r gwersi a ddysgwyd drwy hyn yn cyfyngu ar effaith unrhyw faterion annisgwyl a allai godi. Bydd amrywiaeth o opsiynau'n cael eu datblygu yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad. Yna cynhelid gwerthusiad ariannol llawn. Bydd hyn yn sicrhau fforddiadwyedd ac yn cyfyngu ar y pwysau cyllidebol ar y Cyngor.

## Dewisiadau amgen

Gallai opsiynau amgen i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Coed Glas gynnwys:

- Gwneud dim. Nid oes digon o leoedd arbenigol yng Nghaerdydd. Byddai ehangu darpariaeth o fewn y Sir yn cynnig defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau ariannol y Cyngor na dibynnu ar leoedd mewn ysgolion annibynnol.
- Sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill a/neu niferoedd gwahanol o leoedd yn y canolfannau presennol neu arfaethedig.

Fodd bynnag, mae prinder darpariaeth anghenion dysgu cymhleth yn yr ardal hon o'r ddinas. Mae safonau Ysgol Gynradd Coed Glas yn dda ac mae gan yr ysgol hanes profedig o gefnogaeth o ansawdd uchel i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae lleoliad yr ysgol hefyd yn cefnogi dosbarthu lleoedd anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth cynradd ledled y ddinas ac mae lle i ddatblygu'r gofod gofynnol o fewn yr adeiladau presennol.

Felly, ystyrir bod sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Coed Glas yn opsiwn a ffefrir.

## Materion Adnoddau Dynol

Byddai cynigion i sefydlu canolfannau adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Coed Glas yn gofyn bod y Corff Llywodraethu yn ystyried gofynion y gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangu. Byddai'r Corff Llywodraethu'n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion.

Bydd Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau AD sy'n deillio o sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i sefydlu'r ganolfan adnoddau arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff mewn ysgolion sydd ar y gofrestr adleoli.

## Materion trafnidiaeth

Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol arfaethedig ar safle Ysgol Gynradd Coed Glas yn gwasanaethu disgyblion yng ngogledd Caerdydd a byddai'n lleihau'r pellter a deithiwyd i'r ysgol i blant yn yr ardal hon o'r ddinas sydd angen lleoliad mewn canolfan adnoddau arbenigol ac sy'n teithio i rannau eraill o'r ddinas ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r maen prawf pellter cerdded cymwys statudol o ddwy filltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim o'u cartref i ysgol gynradd, gan gynnwys i ysgolion arbennig ac i gyfleusterau canolfan adnoddau arbenigol. Ni fyddai disgyblion sy'n mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Coed Glas, sy'n byw o fewn dwy filltir i'r ysgol, yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim oni bai bod hyn yn angenrheidiol er mwyn diwallu eu hanghenion dysgu unigol.

Mae anghenion unigol disgyblion mewn Ysgolion Arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol, ynghyd â'r pellteroedd mwy a deithir, yn cyfyngu ar y cyfle i gael cyfraddau teithio llesol uchel o gymharu â disgyblion ysgolion prif ffrwd.

Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy ymhlith y garfan anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys Hyfforddiant Teithio Annibynnol i ddisgyblion hŷn, cynnal a chadw beiciau a hyfforddiant beicio.

Gall rhai disgyblion deithio'n annibynnol neu gyda rhiant/gofalwyr ac os ydynt yn byw o fewn y pellter cymwys o ddwy filltir, efallai na fyddant yn gymwys ar gyfer Trafnidiaeth i Ddysgwyr.

Byddai darparu'r gwelliannau a argymhellir ar gyfer teithio llesol o fudd i'r disgyblion hyn yn ogystal ag unrhyw ddisgyblion prif ffrwd, staff ac ymwelwyr â'r safleoedd. Gallai'r rhain gynnwys gwelliannau diogelwch priodol ar y ffyrdd megis croesfannau, cyfleusterau beicio, parcio beic diogel, a gwelliannau i gyfleusterau aros am fysiau.

Gan y byddai uchafswm o 20 o blant yn mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol, rhagwelir y byddai nifer fach o blant yn cyrraedd ar drafnidiaeth ysgol am ddim mewn tacsis a rennir. Bydd angen cyfleusterau priodol ar y Trafnidiaeth i Ddysgwyr yma ar gyfer gollwng a chasglu a gaiff eu hystyried fel rhan o'r cynigion.

Rhagwelir y byddai angen ardal gollwng a chasglu i drafnidiaeth ysgol ar gyfer 7 tacsi. Mae'r lle gofynnol ar gael ar y safle drwy ad-drefnu'r cyfleusterau presennol.

Gan fod y Cyngor yn ceisio cyflawni dosbarthiad gwell o ddarpariaeth adnoddau arbenigol ledled y ddinas, disgwylir y byddai'r pellter teithio cyfartalog i ganolfannau adnoddau arbenigol i ddysgwyr unigol yn lleihau yn y dyfodol.

## Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur. Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynigion. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai ohonynt yn unig, fel sydd orau gennych.

Fel arall, gallwch anfon eich barn atom drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- E-bostiwch eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennwch lythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 19 Ionawr 2024.**

# Ysgol Gynradd Greenway



# Cynnig ar gyfer lleoedd ychwanegol yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Greenway

Mae Ysgol Gynradd Greenway yn ysgol gynradd gymunedol Saesneg gyda darpariaeth feithrin wedi'i lleoli yn Heol Llansteffan, Tredelerch, CF3 3JG.

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth arbenigol cynradd, mae'r Cyngor yn cynnig:

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Greenway o fis Medi 2024.

Nodir gwybodaeth sy'n benodol i'r cynnig hwn ar dudalennau 25-31.

## Nifer y lleoedd yn yr ysgol

Mae Tabl 9 isod yn rhoi manylion y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Greenway.

**Tabl 9: Lleoedd yn Ysgol Gynradd Greenway**

| Enw'r ysgol | Capasiti Cyhoeddedig Presennol (4-11 oed) | Lleoedd fesul grŵp blwyddyn (4-11 oed) | Lleoedd Meithrin | Cyfrwng iaith a Chategori'r Ysgol |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Greenway | 210 | 30 | 48 | Ysgol gynradd gymunedol Saesneg |

Capasiti presennol Ysgol Gynradd Greenway yw 210 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 209 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ionawr 2020.

## Y galw am leoedd yn yr ysgol

**Mae Tabl 10 isod yn nodi manylion niferoedd diweddar ar y gofrestr ac amcanestyniadau ar gyfer Ysgol Gynradd Greenway.**

**Tabl 10: Niferoedd diweddar ar y gofrestr ac amcanestyniadau ar gyfer Ysgol Gynradd Greenway**

| Ysgol | Nifer ar y gofrestr (CYBLD) | | | | | Amcanestyniadau niferoedd disgyblion* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2023/26 | 2026/27 | 2027/28 |
| Greenway Primary School mainstream places | 191 | 203 | 201 | 205 | 204 | 209 | 200 | 194 | 190 | 190 |

*Galw am leoedd disgyblion yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth a/neu ddata tuedd ADY wedi'i gapio i gapasiti'r ysgol

## Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben / risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).



**Tabl 11 Sgorau cyflwr ac addasrwydd**

| Sgôr | Cyflwr | Addasrwydd |
|---|---|---|
| A | Da ac yn gweithredu'n effeithlon | Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant yn yr ysgol |
| B | Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio. | Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd. |
| C | Gwael, gyda diffygion mawr. | Gwael. Amharu ar ddulliau addysgu/effaith wael ar drefn yr ysgol |
| D | Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg ddybryd o fethu. | Gwael iawn. Adeiladau'n amharu'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm. |

Mae Ysgol Gynradd Greenway â sgôr diweddara o B ar gyfer cyflwr a B ar gyfer addasrwydd.

Byddai'r safle, a'r seilwaith lleol oddi ar y safle, yn gallu cefnogi datblygu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol.

## Gofod Canolfan Adnoddau Arbenigol Arfaethedig

Mae Ysgol Gynradd Greenway yn Nhredelerch yn ymestyn i tua 8 erw. Nid oes angen prynu tir ychwanegol i hwyluso sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 20 lle ar gyfer anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Greenway o fis Medi 2024.

Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol angen dwy ystafell ddosbarth i ddarparu amgylchedd meithringar, gan gynnwys ystafell grŵp fechan ynghyd â mynediad i ardal ddysgu ddiogel y tu allan a thoiledau hygyrch.

Cynigir y byddai'r ganolfan yn cael ei lletya yn adeiladau'r ysgol bresennol.

# Ansawdd a Safonau

Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan Gonsortiwm Canolbarth y De yn ymwneud ag ansawdd a safonau yn Ysgol Gynradd Greenway.

- Mae'r ysgol yn gwybod ei chryfderau a'i meysydd i'w datblygu gan fod ganddi galendr manwl o weithgareddau monitro, sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn academaidd. Defnyddir y wybodaeth a gesglir o'r gweithgareddau hyn i lywio'r cynllun gwella ysgol, sy'n adlewyrchu anghenion yr ysgol yn gywir.
- Fel rhan o waith y Ffederasiwn, mae'r ysgol wedi ymgysylltu'n effeithiol â dylunio'r cwricwlwm ac yn parhau i ddatblygu cwricwlwm i adlewyrchu cymuned yr ysgol. Mae datblygiadau'n seiliedig ar benderfyniadau ar sail gwybodaeth trwy ymweld ag ysgolion eraill; darllen proffesiynol personol ac ymchwil gweithredol. Mae gwaith sylweddol wedi digwydd ar lefel clwstwr i fapio cynnydd dros amser.
- Mae'r ysgol wedi gweithio'n effeithiol i ddatblygu system newydd ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion dros amser sy'n adlewyrchu'r cwricwlwm newydd y mae wedi'i ddatblygu.
- Mae'r ysgol wedi ymgysylltu'n effeithiol iawn â diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol ac wedi ymateb i'r gofynion statudol.
- Mae arweinwyr yr ysgol yn gweithio'n galed i ddiwallu anghenion ei chymuned ac wedi sefydlu ethos cefnogol cadarnhaol yn yr ysgol. Mae buddsoddi yn ELSA wedi helpu i roi cefnogaeth emosiynol i ddisgyblion a'u teuluoedd. Mae'r ysgol wedi ennill ei gwobr Parchu Hawliau Arian.
- Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth uwch dîm arwain, yn gweithio'n ddiflino i gefnogi pob disgybl a'u teuluoedd i sicrhau na chaiff yr un disgybl ei adael ar ôl naill ai'n academaidd neu'n fugeiliol.
- Gan fod yr ysgol yn rhan o Ffederasiwn Oaks, mae'n gweithio'n agos gydag Ysgol Gynradd Trowbridge. Mae'r ysgol hefyd yn aelod gweithgar o grŵp Clwstwr Ysgol Uwchradd y Dwyrain.

Roedd arolwg diweddaraf Estyn o Ysgol Gynradd Greenway ym mis Hydref 2022 yn barnu fod dysgu, llesiant ac agweddau'r ysgol tuag at ddysgu, addysgu a phrofiadau dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda yn ogystal â chydnabod y cynnydd a wnaed gan ddisgyblion dros amser, yn enwedig y rhai mewn grwpiau allweddol.

## Sut fyddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (www.addewidcaerdydd.co.uk).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau'n uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae safonau yn yr ysgol yn dda ac ni ddisgwylir y bydd sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol yn effeithio'n negyddol ar yr ysgol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg yn yr ysgol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

## Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn yr ysgol.

Mae lleoliadau anghenion dysgu cymhleth (gan gynnwys awtistiaeth) yn cynnig cwricwlwm arbenigol mewn lleoliad dosbarth bach sy'n addas ar gyfer dysgwyr ag anableddau dysgu cyffredinol difrifol. Efallai y bydd gan rai disgyblion anawsterau cysylltiedig hefyd, gan gynnwys awtistiaeth, anghenion corfforol neu feddygol, anawsterau lleferydd ac iaith. Mae ysgolion yn sicrhau bod gan staff a gyflogir yn y lleoliad sgiliau a phrofiad priodol i gynllunio a chyflwyno cwricwlwm arbenigol, ac i gynllunio a gweithredu strategaethau priodol i gefnogi datblygiad iaith a chyfathrebu, cyfathrebu cymdeithasol a rhyngweithio, rheolaeth synhwyraidd ac emosiynol.

Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol ac i weithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella gallu'r ysgol i fod yn gynhwysol ac o fudd i holl ddisgyblion yr ysgolion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisïau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Mae'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ysgolion arbennig a'r canolfannau adnoddau arbenigol. Bydd gan bob dysgwr Gynllun Datblygu Unigol sy'n ddogfen statudol sy'n nodi'r hyn sy'n 'bwysig i' ac yn 'bwysig ar gyfer' y plentyn neu'r person ifanc, y deilliannau a ddymunir a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd i'w gweithredu er mwyn cyflawni'r deilliannau.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal gofal, cymorth ac arweiniad.

## Arwain a Rheoli

Mae'r canolfannau adnoddau arbenigol yn cael eu dirprwyo i ysgolion. Cyrff Llywodraethu sy'n pennu'r model rheoli mwyaf priodol ar gyfer y lleoliad, yn unol â'r dull rheoli ac arweinyddiaeth ysgol gyfan a'r nod o sicrhau bod y ganolfan yn rhan gwbl integredig o'r ysgol. Gall yr awdurdod lleol ddarparu cyngor a chymorth o ran penodiadau arbenigol.

Nid yw lleoliadau newydd fel arfer yn agor i'w capasiti llawn yn y flwyddyn gyntaf. Cyn belled ag y bo modd, mae derbyniadau wedi'u gwasgaru dros 3-5 mlynedd, gan alluogi'r lleoliad i sefydlu ymarfer fesul cam.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth na llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

## Beth yw manteision y newid arfaethedig?

- Byddai'r cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr cynradd sydd ag anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth ac yn helpu i ateb y galw a amcanestynnir.
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol yr ysgol. Byddai hyn o fudd i bob disgybl yn yr ysgol;
- Byddai'r cynnig yn golygu y gallai disgyblion sy'n byw yng ngogledd y ddinas sydd angen lle mewn canolfan adnoddau arbenigol anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth gael darpariaeth addas yn nes at adref, ac felly'n teithio pellteroedd byrrach i allu manteisio ar ddarpariaeth arbenigol.

## Anfanteision posibl y newid arfaethedig

- Gall newid fod yn anodd i rai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Efallai y byddai symud i adeilad newydd ar safle newydd yn peri gofid iddynt. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r lleoliad newydd. Fodd bynnag, byddai digon o amser a phrosesau hirhoedlog i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.
- Mae'n bosib y gallai fod mwy o dagfeydd traffig ger safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Coed Glas i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

## Risgiau

- Pe bai angen unrhyw waith adeiladu, addasu ac adnewyddu, gallai gweithredu'r newid arfaethedig gael ei effeithio oherwydd anawsterau annisgwyl wrth benodi contractwyr priodol, oedi wrth gyflawni prosiectau neu sicrhau cyllid digonol. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni ystod o brosiectau adeiladu ysgolion yn llwyddiannus o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr sy'n tyfu a byddai'r gwersi a ddysgwyd drwy hyn yn cyfyngu ar effaith unrhyw faterion annisgwyl a allai godi. Bydd amrywiaeth o opsiynau'n cael eu datblygu yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad. Yna cynhelid gwerthusiad ariannol llawn. Bydd hyn yn sicrhau fforddiadwyedd ac yn cyfyngu ar y pwysau cyllidebol ar y Cyngor.

## Dewisiadau amgen

Gallai opsiynau amgen i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu cymhlet a/neu awtistiaeth yng Nghanolfan Ysgol Gynradd Greenway gynnwys:

- Gwneud dim. Nid oes digon o leoedd arbenigol yng Nghaerdydd. Byddai ehangu darpariaeth o fewn y Sir yn cynnig defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau ariannol y Cyngor na dibynnu ar leoedd mewn ysgolion annibynnol.
- Sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill a/neu niferoedd gwahanol o leoedd yn y canolfannau presennol neu arfaethedig.

Fodd bynnag, mae prinder darpariaeth anghenion dysgu cymhleth yn yr ardal hon o'r ddinas. Mae safonau yn Ysgol Gynradd Greenway yn dda ac mae gan yr ysgol hanes profedig o gefnogaeth o ansawdd uchel i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae lleoliad yr ysgol hefyd yn cefnogi dosbarthu lleoedd anghenion cymhleth cynradd ar draws y ddinas ac mae lle i ddatblygu'r gofod gofynnol o fewn yr adeiladau presennol.

Felly, ystyrir sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Greenway yn opsiwn a ffefrir.

## Materion Adnoddau Dynol

Byddai cynigion i sefydlu Canolfannau Adnoddau Arbenigol yn gofyn bod Cyrff Llywodraethu perthnasol yn ystyried gofynion y gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangiadau. Byddai'r Corff Llywodraethu'n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion.

Bydd Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau AD sy'n deillio o sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i sefydlu'r ganolfan adnoddau arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff mewn ysgolion sydd ar y gofrestr adleoli.

## Materion trafnidiaeth

Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol arfaethedig ar safle Ysgol Gynradd Greenway yn gwasanaethu disgyblion yn nwyrain Caerdydd a byddai'n lleihau'r pellter a deithiwyd i'r ysgol i blant yn y rhan hon io'r ddinas sydd angen lleoliad mewn canolfan adnoddau arbenigol ac sy'n teithio i rannau eraill o'r ddinas ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r maen prawf pellter cerdded cymwys statudol o ddwy filltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim o'u cartref i ysgol gynradd, gan gynnwys i ysgolion arbennig ac i gyfleusterau canolfan adnoddau arbenigol. Ni fyddai disgyblion sy'n mynychu'r ganolfan adnoddau arbennigol yn Ysgol Gynradd Greenway, sy'n byw o fewn dwy filltir i'r ysgol, yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim oni bai bod hyn yn angenrheidiol er mwyn bodloni eu hanghenion dysgu unigol.

Mae anghenion unigol disgyblion mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol, ynghyd â'r pellteroedd mwy a deithir, yn cyfyngu ar y cyfle i gael cyfraddau teithio llesol uchel o gymharu â disgyblion ysgolion prif ffrwd.

Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy ymhlith y garfan Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan gynnwys Hyfforddiant Teithio Annibynnol i ddisgyblion hŷn, cynnal a chadw beiciau a hyfforddiant beicio.

Gall rhai disgyblion deithio'n annibynnol neu gyda rhiant/gofalwyr ac os ydynt yn byw o fewn y pellter cymwys o ddwy filltir, efallai na fyddant yn gymwys ar gyfer Trafnidiaeth i Ddysgwyr.

Byddai darparu'r gwelliannau a argymhellir ar gyfer teithio llesol o fudd i'r disgyblion hyn yn ogystal ag unrhyw ddisgyblion prif ffrwd, staff ac ymwelwyr â'r safleoedd. Gallai'r rhain gynnwys gwelliannau diogelwch priodol ar y ffyrdd megis croesfannau, cyfleusterau beicio, parcio beic diogel, a gwelliannau i gyfleusterau aros am fysiau.

Gan y byddai uchafswm o 20 o blant yn mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol, rhagwelir y byddai nifer fach o blant yn cyrraedd ar drafnidiaeth ysgol am ddim mewn tacsis a rennir. Bydd angen cyfleusterau priodol ar y Trafnidiaeth i Ddysgwyr yma ar gyfer gollwng a chasglu a gaiff eu hystyried fel rhan o'r cynigion.

Rhagwelir y byddai angen ardal gollwng a chasglu i drafnidiaeth ysgol ar gyfer 7 tacsi. Mae'r lle gofynnol ar gael ar y safle drwy ad-drefnu'r cyfleusterau presennol.

Mae tagfeydd wrth y mynediad presennol i gerbydau felly byddai angen gwella hyn.

Gan fod y Cyngor yn ceisio cyflawni dosbarthiad gwell o ddarpariaeth adnoddau arbenigol ledled y ddinas, disgwylir y byddai'r pellter teithio cyfartalog i ganolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr unigol yn lleihau yn y dyfodol.

## Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur. Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynigion. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai ohonynt yn unig, fel sydd orau gennych.

Fel arall, gallwch anfon eich barn atom drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- E-bostiwch eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennwch lythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 19 Ionawr 2024.**

# Ysgol Gynradd Severn



# Cynnig ar gyfer lleoedd ychwanegol yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Severn

Mae Ysgol Gynradd Severn yn ysgol gynradd gymunedol Saesneg gyda darpariaeth feithrin wedi'i lleoli yn Severn Road, Treganna, Caerdydd, CF11 9DZ.

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth arbenigol cynradd, mae'r Cyngor yn cynnig:

- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ag 20 o leoedd ar gyfer anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Severn o fis Medi 2024.

Nodir gwybodaeth sy'n benodol i'r cynnig hwn ar dudalennau 33-39.

## Nifer y lleoedd yn yr ysgol

Mae Tabl 12 isod yn rhoi manylion y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Severn

**Tabl 12: Lleoedd ar gael yn Ysgol Gynradd Severn**

| Enw'r ysgol | Capasiti Cyhoeddedig Presennol (4-11 oed) | Lleoedd fesul grŵp blwyddyn (4-11 oed) | Lleoedd Meithrin | Cyfrwng iaith a Chategori'r Ysgol |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Severn (lleoedd prif ffrwd) | 420 | 60 | 128 | Ysgol gynradd gymunedol Saesneg |

Capasiti presennol Ysgol Gynradd Severn yw 420 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 377 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ionawr 2023.

Yn ogystal â hyn, mae safle'r ysgol yn cynnal y ddarpariaeth Addysgu Cymunedol sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc sydd ag anghenion dysgu sy'n gysylltiedig ag iechyd neu amgylchiadau eithriadol ac y mae addysg prif ffrwd, arbenigol neu hyd yn oed grŵp Addysg Heblaw yn yr Ysgol, yn anaddas.

Mae gan yr ysgol ddigon o le i hyd at 144 o ddysgwyr fanteisio ar addysg feithrin ac ar hyn o bryd mae'n cael ei ariannu i hyd at 128 o ddysgwyr fynychu.

## Y galw am leoedd yn yr ysgol

**Mae Tabl 13 isod yn nodi manylion niferoedd diweddar ar y gofrestr ac amcanestyniadau ar gyfer Ysgol Gynradd Severn.**

**Tabl 13: Niferoedd diweddar ar y gofrestr ac amcanestyniadau ar gyfer Ysgol Gynradd Severn**

| Ysgol | Nifer ar y gofrestr (CYBLD) | | | | | Amcanestyniadau niferoedd disgyblion* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2023/26 | 2026/27 | 2027/28 |
| Severn Primary School mainstream places | 396 | 386 | 379 | 381 | 377 | 370 | 362 | 364 | 358 | 358 |

*Galw am leoedd disgyblion yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth a/neu ddata tuedd ADY wedi'i gapio i gapasiti ysgolion



## Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr  o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben / risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

**Tabl 14: Sgorau cyflwr ac addasrwydd**

| Sgôr | Cyflwr | Addasrwydd |
|---|---|---|
| A | Da ac yn gweithredu'n effeithlon | Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant yn yr ysgol |
| B | Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio. | Boddhaol.  Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd. |
| C | Gwael, gyda diffygion mawr. | Gwael. Amharu ar ddulliau addysgu/effaith wael ar drefn yr ysgol |
| D | Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg ddybryd o fethu. | Gwael iawn.  Adeiladau'n amharu'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm. |

Yn fwyaf diweddar, cafodd Ysgol Gynradd Severn sgôr o C am gyflwr a B am addasrwydd.

Byddai'r safle, a'r seilwaith lleol oddi ar y safle, yn gallu cefnogi datblygu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol.

## Gofod Canolfan Adnoddau Arbenigol Arfaethedig

Mae Ysgol Gynradd Severn yn Nhreganna yn ymestyn i tua 2.3 erw. Nid oes angen prynu tir ychwanegol i hwyluso sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 20 lle ar gyfer anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Severn o fis Medi 2024.

Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol angen dwy ystafell ddosbarth i ddarparu amgylchedd meithringar, gan gynnwys ystafell grŵp fechan ynghyd â mynediad i ardal ddysgu ddiogel y tu allan a thoiledau hygyrch.

Cynigir y byddai'r ganolfan yn cael ei lletya yn adeiladau'r ysgol bresennol.

## Ansawdd a Safonau

Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan Gonsortiwm Canolbarth y De yn ymwneud ag ansawdd a safonau yn Ysgol Gynradd Severn.

- Mae'r ysgol yn gwybod ei chryfderau a'i meysydd i'w datblygu gan fod ganddi galendr manwl o weithgareddau monitro, sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn academaidd. Defnyddir y wybodaeth a gesglir o'r gweithgareddau hyn i lywio'r cynllun gwella ysgol, sy'n adlewyrchu anghenion yr ysgol yn gywir.
- Mae'r ysgol wedi ymgysylltu â chynllunio'r cwricwlwm ac yn parhau i ddatblygu cwricwlwm i adlewyrchu cymuned amrywiol yr ysgol. Mae dau uwch arweinydd wedi arwain gyda'r gwaith hwn a sicrhau bod y datblygiadau'n seiliedig ar benderfyniadau ar sail gwybodaeth trwy ymweld ag ysgolion eraill: darllen proffesiynol personol ac ymchwil gweithredol. Mae'r ysgol wedi ymgysylltu â'r clwstwr lleol i fapio cynnydd ym mhob MDPhau yn ogystal â datblygu cwricwlwm ACRh pwrpasol.
- Mae'r ysgol wedi gweithio'n effeithiol i ddatblygu system newydd ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion dros amser sy'n adlewyrchu'r cwricwlwm newydd y mae wedi'i ddatblygu.
- Mae'r ysgol wedi ymgysylltu'n effeithiol iawn â diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol ac wedi ymateb i'r gofynion statudol. Mae darpariaeth dda ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gyda'r ddarpariaeth a chynnydd yn cael eu monitro'n ofalus dros amser.
- Mae arweinwyr yr ysgol yn gweithio'n galed i ddiwallu anghenion ei chymuned amrywiol ac wedi sefydlu ethos cefnogol cadarnhaol yn yr ysgol. Bu cryn waith yn gysylltiedig â hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb gyda buddsoddiad mewn ystod o gefnogaeth emosiynol i ddisgyblion a'u teuluoedd. Mae'r ysgol wedi ennill ei gwobr Parchu Hawliau Arian.
- Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth uwch dîm arwain, yn gweithio'n ddiflino i gefnogi pob disgybl a'u teuluoedd i sicrhau na chaiff yr un disgybl ei adael ar ôl naill ai'n academaidd neu'n fugeiliol.
- Mae'r ysgol yn aelod gweithgar o grŵp Clwstwr Ysgol Uwchradd Fitzalan, gan elwa o weithio gydag ysgolion ag anghenion a heriau tebyg.

Yn ôl arolwg mwyaf diweddar Estyn ym mis Mai 2016 barnwyd bod safonau, llesiant ac agweddau'r ysgol at ddysgu, addysgu a phrofiadau dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheoli yn dda.

### Sut byddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar safonau yn yr ysgol?

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (www.addewidcaerdydd.co.uk).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau'n uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae safonau yn yr ysgol yn dda ac ni ddisgwylir y bydd sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol yn effeithio'n negyddol ar yr ysgol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg yn yr ysgol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

## Profiadau dysgu ac addysgu

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn yr ysgol.

Mae lleoliadau anghenion dysgu cymhleth (gan gynnwys awtistiaeth) yn cynnig cwricwlwm arbenigol mewn lleoliad dosbarth bach sy'n addas ar gyfer dysgwyr ag anableddau dysgu cyffredinol difrifol. Efallai y bydd gan rai disgyblion anawsterau cysylltiedig hefyd, gan gynnwys awtistiaeth, anghenion corfforol neu feddygol, anawsterau lleferydd ac iaith. Mae ysgolion yn sicrhau bod gan staff a gyflogir yn y lleoliad sgiliau a phrofiad priodol i gynllunio a chyflwyno cwricwlwm arbenigol, ac i gynllunio a gweithredu strategaethau priodol i gefnogi datblygiad iaith a chyfathrebu, cyfathrebu cymdeithasol a rhyngweithio, rheolaeth synhwyraidd ac emosiynol.

Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol ac i weithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella gallu'r ysgol i fod yn gynhwysol ac o fudd i holl ddisgyblion yr ysgolion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisïau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Mae'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ysgolion arbennig a'r canolfannau adnoddau arbenigol. Bydd gan bob dysgwr Gynllun Datblygu Unigol sy'n ddogfen statudol sy'n nodi'r hyn sy'n 'bwysig i' ac yn 'bwysig ar gyfer' y plentyn neu'r person ifanc, y deilliannau a ddymunir a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd i'w gweithredu er mwyn cyflawni'r deilliannau.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal gofal, cymorth ac arweiniad.

## Arwain a Rheoli

Mae'r canolfannau adnoddau arbenigol yn cael eu dirprwyo i ysgolion. Cyrff Llywodraethu sy'n pennu'r model rheoli mwyaf priodol ar gyfer y lleoliad, yn unol â'r dull rheoli ac arweinyddiaeth ysgol gyfan a'r nod o sicrhau bod y ganolfan yn rhan gwbl integredig o'r ysgol. Gall yr awdurdod lleol ddarparu cyngor a chymorth o ran penodiadau arbenigol.

Nid yw lleoliadau newydd fel arfer yn agor i'w capasiti llawn yn y flwyddyn gyntaf. Cyn belled ag y bo modd, mae derbyniadau wedi'u gwasgaru dros 3-5 mlynedd, gan alluogi'r lleoliad i sefydlu ymarfer fesul cam.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinwyr yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth na llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

## Beth yw manteision y newid arfaethedig?

- Byddai'r cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr cynradd sydd ag anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth ac yn helpu i ateb y galw a amcanestynnir.
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol yr ysgol. Byddai hyn o fudd i bob disgybl yn yr ysgol;
- Byddai'r cynnig yn golygu y gallai disgyblion sy'n byw yn ne'r ddinas sydd angen lle mewn canolfan adnoddau arbenigol anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth gael darpariaeth addas yn nes at adref, ac felly'n teithio pellteroedd byrrach i fanteisio ar ddarpariaeth arbenigol.

## Anfanteision posibl y newid arfaethedig

- Gall newid fod yn anodd i rai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Efallai y byddai symud i adeilad newydd ar safle newydd yn peri gofid iddynt. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r lleoliad newydd. Fodd bynnag, byddai digon o amser a phrosesau hirhoedlog i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.
- Mae'n bosib y gallai fod mwy o dagfeydd traffig ger safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Severn i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

## Risgiau

- Pe bai angen unrhyw waith adeiladu, addasu ac adnewyddu, gallai hynny effeithio ar weithredu'r newid arfaethedig oherwydd anawsterau annisgwyl wrth benodi contractwyr priodol, oedi wrth gyflawni prosiectau neu sicrhau cyllid digonol. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni ystod o brosiectau adeiladu ysgolion yn llwyddiannus o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr sy'n tyfu a byddai'r gwersi a ddysgwyd drwy hyn yn cyfyngu ar effaith unrhyw faterion annisgwyl a allai godi. Bydd amrywiaeth o opsiynau'n cael eu datblygu yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad. Yna cynhelid gwerthusiad ariannol llawn. Bydd hyn yn sicrhau fforddiadwyedd ac yn cyfyngu ar y pwysau cyllidebol ar y Cyngor.

## Dewisiadau amgen

Gallai opsiynau amgen i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu cymhlet a/neu awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Severn gynnwys:

- Gwneud dim. Nid oes digon o leoedd arbenigol yng Nghaerdydd. Byddai ehangu darpariaeth o fewn y Sir yn cynnig defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau ariannol y Cyngor na dibynnu ar leoedd mewn ysgolion annibynnol.
- Sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill a/neu niferoedd gwahanol o leoedd yn y canolfannau presennol neu arfaethedig.

Fodd bynnag, mae prinder darpariaeth anghenion dysgu cymhleth yn y rhan hon o'r ddinas. Mae safonau yn Ysgol Gynradd Severn yn dda ac mae gan yr ysgol hanes profedig o gefnogaeth o ansawdd uchel i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae lleoliad yr ysgol hefyd yn cefnogi dosbarthu lleoedd anghenion cymhleth cynradd ledled y ddinas ac mae lle i ddatblygu'r gofod gofynnol o fewn yr adeiladau presennol.

Felly, ystyrir sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Severn yn opsiwn a ffefrir.

## Materion Adnoddau Dynol

Byddai cynigion i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Severn yn gofyn bod Cyrff Llywodraethu yn ystyried y gofynion o ran gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangu. Byddai'r Corff Llywodraethu'n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion.

Bydd Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau AD sy'n deillio o sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i sefydlu'r ganolfan adnoddau arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff mewn ysgolion sydd ar y gofrestr adleoli.

## Materion trafnidiaeth

Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol arfaethedig ar safle Ysgol Gynradd Severn yn gwasanaethu disgyblion yn ne Caerdydd a byddai'n lleihau'r pellter teithio i'r ysgol i blant yn y rhan hon o'r ddinas sydd angen lleoliad mewn canolfan adnoddau arbenigol ac sy'n teithio i rannau eraill o'r ddinas ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r maen prawf pellter cerdded cymwys statudol o ddwy filltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim o'u cartref i ysgol gynradd, gan gynnwys i ysgolion arbennig ac i gyfleusterau canolfan adnoddau arbenigol. Ni fyddai disgyblion sy'n mynychu'r ganolfan adnoddau arbennigol yn Ysgol Gynradd Severn ac yn byw o fewn dwy filltir i'r ysgol, yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim oni bai bod hyn yn angenrheidiol er mwyn diwallu eu hanghenion dysgu unigol.

Mae anghenion unigol disgyblion mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol, ynghyd â'r pellteroedd mwy a deithir, yn cyfyngu ar y cyfle i gael cyfraddau teithio llesol uchel o gymharu â disgyblion ysgolion prif ffrwd.

Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy ymhlith y garfan anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys Hyfforddiant Teithio Annibynnol i ddisgyblion hŷn, cynnal a chadw beiciau a hyfforddiant beicio.

Gall rhai disgyblion deithio'n annibynnol neu gyda rhiant/gofalwyr ac os ydynt yn byw o fewn y pellter cymwys o ddwy filltir, efallai na fyddant yn gymwys ar gyfer Trafnidiaeth i Ddysgwyr.

Byddai darparu'r gwelliannau a argymhellir ar gyfer teithio llesol o fudd i'r disgyblion hyn yn ogystal ag unrhyw ddisgyblion prif ffrwd, staff ac ymwelwyr â'r safleoedd. Gallai'r rhain gynnwys gwelliannau diogelwch priodol ar y ffyrdd megis croesfannau, cyfleusterau beicio, parcio beic diogel, a gwelliannau i gyfleusterau aros am fysiau.

Gan y byddai uchafswm o 20 o blant yn mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol, rhagwelir y byddai nifer fach o blant yn cyrraedd ar drafnidiaeth ysgol am ddim mewn tacsis a rennir. Bydd angen cyfleusterau priodol ar y Trafnidiaeth i Ddysgwyr yma ar gyfer gollwng a chasglu a gaiff eu hystyried fel rhan o'r cynigion.

Rhagwelir y byddai angen man gollwng a chasglu ar gyfer trafnidiaeth ysgol i 7 tacsi ar gyfer y ganolfan adnoddau arbenigol. Mae lle ar y safle yn gyfyngedig a byddai angen astudiaeth dichonoldeb pellach.

Mae'r safle wedi'i leoli'n ganolog gyda chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da.

Gan fod y Cyngor yn ceisio cyflawni dosbarthiad gwell o ddarpariaeth adnoddau arbenigol ledled y ddinas, disgwylir y byddai'r pellter teithio cyfartalog i ganolfannau adnoddau arbenigol i ddysgwyr unigol yn lleihau yn y dyfodol.

## Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur.  Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynigion. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai ohonynt yn unig, fel sydd orau gennych.

Fel arall, gallwch anfon eich barn atom drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- E-bostiwch eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennwch lythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 19 Ionawr 2024.**

# Gwybodaeth sy'n Berthnasol i bob Cynnig



# Cymorth Ychwanegol i Ddisgyblion

Mae Tabl 15 isod yn dangos canrannau

- Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim
- Disgyblion sy'n â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- Disgyblion Ethnig Lleiafrifol

| Ysgol | % y Disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol | % y Disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | % y Disgyblion â datganiad AAA | % y Disgyblion â CDU ysgol | % y Disgyblion â CDU ALl | % y Disgyblion Prydau Ysgol am Ddim – cyfartaledd 3 blynedd | % y Disgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol | % y Disgyblion Ethnig Lleiafrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Coed Glas | 2.8% | * | 5.5% | 2.8% | * | 28.7% | 23.7% | 37.7% |
| Ysgol Gynradd Greenway | * | * | 3.4% | * | * | 63.2% | 8.5% | 47.2% |
| Ysgol Gynradd Severn | * | 6.7% | 3.4% | * | * | 28.3% | 53.2% | 84.9% |

Ffynhonnell:https://mylocalschool.gov.wales/?lang=cy

*Mae'r eitem ddata hon yn ddatgelol, nid yw'n ddigon cadarn i'w chyhoeddi, nid yw'n berthnasol neu nid yw ar gael fel arall.

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan: fyysgolleol.cymru.gov.uk  Mae Fy Ysgol Leol yn wefan sydd wedi'i chynllunio i agor mynediad at ddata ysgolion i rieni a phawb arall sydd â diddordeb yn eu hysgol leol.

## Beth fyddai'r effaith ar y gefnogaeth i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol?

Mae gan blentyn anghenion addysgol arbennig os oes ganddo anhawster dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth addysgol arbennig ar ei gyfer. Mae anhawster dysgu yn golygu bod y plentyn yn ei chael hi'n llawer anoddach dysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oed neu fod gan y plentyn anabledd sy'n gofyn am wahanol gyfleusterau addysgol i'r rhai y mae'r ysgol yn eu darparu ar gyfer plant yn gyffredinol.

Daeth Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (Cod ADY) a'r rheoliadau i rym ar 1 Medi 2021 i sicrhau y gall plant a phobl ifanc gael mynediad at gymorth ychwanegol sydd wedi'i gynllunio a'i warchod yn briodol i fodloni eu hanghenion, gyda dysgwyr wrth wraidd y broses.

Mae plant yn symud o'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) i'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) mewn grwpiau dros gyfnod o 3 blynedd o fis Medi 2021, er mwyn sicrhau digon o amser i ysgolion ac awdurdodau lleol drafod y gefnogaeth sydd ei hangen ac i baratoi cynlluniau.

Byddai arbenigedd presennol yr ysgolion yn cael ei gynnal.  Byddai sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu staff ac i wella dysgu disgyblion mewn cyfleusterau pwrpasol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall newid mewn amgylchedd beri gofid i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio ar ddysgwyr unigol ag anghenion dysgu ychwanegol dim ond ar yr adeg y cânt eu derbyn i leoliad arbenigol. Mae gan ysgolion Caerdydd brosesau hirsefydlog ar gyfer cynllunio a chefnogi pontio rhwng lleoliadau. Mae ysgol bresennol ac arfaethedig y disgybl yn gweithio gyda'r dysgwr a'i deulu, ac unrhyw arbenigwyr eraill a allai fod yn gysylltiedig, i sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc wedi'i baratoi'n dda ac yn profi llwyddiant. Bydd y broses hon yr un fath, p'un a yw'r dysgwr yn cael ei dderbyn i leoliad arbenigol sy'n bod eisoes neu leoliad sydd newydd agor.

## Sut yr effeithir ar y gefnogaeth sydd i ddisgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol?

Gellir cefnogi disgyblion sy'n derbyn cymorth am fod y Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt mewn unrhyw ysgol yng Nghaerdydd.

Mae'r safonau yn y dir ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y newidiadau arfaethedig yn dda.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar sut caiff disgyblion sydd â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol eu cefnogi.

Byddai pob ysgol yn parhau i gynnig cymorth sy'n briodol i anghenion unigol pob disgybl.

## Beth fyddai'r effaith ar ddysgwyr sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?

Mae peth o'r arian a gaiff ysgolion wedi ei seilio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r holl ysgolion yng Nghaerdydd yn cael arian ar gyfer y disgyblion hyn.

Mae'r safonau yn y dair ysgol lle cynigir newidiadau yn dda.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.

## Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion Ethnig Lleiafrifol?

Mae'r safonau yn y dair ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y newidiadau arfaethedig yn dda.

Asesir anghenion disgyblion unigol a darperir ar eu cyfer fel y bo'n briodol.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer unrhyw grŵp ethnig.

## Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill?

Mae ysgolion arbennig / canolfannau adnoddau arbenigol yng Nghaerdydd yn cynnig darpariaeth arbenigol ar gyfer Dinas a Sir Caerdydd gyfan. Nid oes digon o leoedd i ateb y galw yn y ddarpariaeth a gynhelir. Mae hyn yn cael effaith ar ysgolion sy'n bodoli eisoes lle mewn rhai achosion efallai y bydd mwy o ddisgyblion ar y gofrestr na'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) neu'r nifer a ddymunir mewn canolfan adnoddau arbenigol.

Ar hyn o bryd mae'n rhaid i Gaerdydd ddibynnu ar brynu rhai lleoedd mewn darpariaeth y tu allan i'r sir ac mewn ysgolion annibynnol i gyflawni ei dyletswyddau statudol. Gallai fod effaith tymor hwy ar ddarparwyr y tu allan i'r sir ac ar ysgolion annibynnol gan ei bod yn debygol y bydd gostyngiad yn nifer y lleoedd a brynir gan y Cyngor.

## Trefniadau derbyn

Does dim cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i ysgolion yn sgil y cynigion hyn.

Ceir gwybodaeth fanwl am drefniadau derbyn yn llyfryn Derbyn i Ysgolion y Cyngor. Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth hon ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk

Y Cyngor sy'n rheoli derbyniadau i ddarpariaeth arbennigol, yn unol â'r Cod ADY. Panel lleoli darpariaeth arbenigol sy'n penderfynu ar leoliadau. Nod y panel yw gosod plant mor agos i'w cyfeiriad cartref â phosibl, fodd bynnag mae pob darpariaeth yn cynnig lleoedd i ddisgyblion o bob rhan o'r ddinas i sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf.

## Trefniadau Teithio i Ddysgwyr

Dan y cynigion hyn, nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant i ac yn ôl o ysgolion.

Bydd unrhyw ddisgybl a gaiff ei effeithio gan y cynnig hwn yn cael yr un cymorth gyda thrafnidiaeth ag a gaiff pawb yng Nghaerdydd ac yn unol â'r un meini prawf sy'n berthnasol ledled Caerdydd. Gellir gweld polisi trafnidiaeth y Cyngor ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol statudol ar y Cyngor i ddarparu trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion ysgol gynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf, fel y mesurir yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Wrth benderfynu pa un yw'r ysgol addas agosaf, rhaid i'r Cyngor ystyried unrhyw anabledd sydd gan blentyn ac unrhyw anghenion addysgol arbennig (AAA).

## Materion Ariannol

Byddai rhai o'r newidiadau arfaethedig a nodir yn y ddogfen hon yn arwain at gostau cyfalaf i'r Cyngor, ar gyfer cynnal gwaith ar adeiladu a/neu addasu adeiladau. Byddent hefyd yn arwain at gostau refeniw i'r Cyngor, wrth gyflogi staff.

Nid oes unrhyw ymrwymiadau ariannol ar y cam hwn o'r ymgynghoriad. Bydd amrywiaeth o opsiynau'n cael eu datblygu yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad. Yna cynhelir gwerthusiad ariannol llawn. Bydd hyn yn sicrhau fforddiadwyedd ac yn cyfyngu ar y pwysau cyllidebol ar y Cyngor.

Bydd angen gwerthuso'n llawn yn ariannol unrhyw waith adeiladu/addasu sydd ei angen i ddarparu ar gyfer cynnydd yn nifer y disgyblion a nodi ffynhonnell ariannu. Os bydd gofyn i'r Cyngor wneud cyfraniad tuag at y costau hyn, bydd angen i hyn gael ei ariannu o fewn yr adnoddau presennol a gymeradwywyd neu eu ffactora i gynlluniau Rhaglen Gyfalaf y Cyngor yn y dyfodol.

Nid yw'r cynigion hyn yn rhan o Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'r Cyngor a byddai angen nodi unrhyw gostau o adnoddau'r Cyngor oni bai bod ffynonellau cyllid eraill yn cael eu nodi. Efallai y bydd cyllid ychwanegol hefyd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau penodol neu ddefnydd cyfalaf Anghenion Dysgu Ychwanegol cyffredinol ond nid yw'r rhain wedi'u nodi na'u cadarnhau eto.

Bydd angen i gostau refeniw y lleoedd ychwanegol hyn gael eu hariannu o'r gyllideb ysgolion ddirprwyedig bresennol.

Bydd angen sicrhau bod y cyllidebau blynyddol a ddyrennir i ysgolion yn adlewyrchu maint a strwythur pob ysgol.  Mae cyllidebau ysgolion yn seiliedig yn bennaf ar niferoedd disgyblion ac, felly, bydd angen cynyddu cyllideb yr ysgol yn unol â'r lleoedd ADY ychwanegol.

Bydd angen ystyried costau trafnidiaeth ysgolion ar gyfer pob cynnig hefyd.

## Darpariaeth iechyd

Mae gan rai o'r disgyblion sy'n mynychu ysgolion Caerdydd anghenion iechyd ychwanegol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion weithio gyda'r bwrdd iechyd.

Cynhaliwyd ystod eang o brosiectau cydweithredol gan y gwasanaethau Addysg ac Iechyd, i wella sgiliau staff addysg mewn lleoliadau ysgolion arbennig a phrif ffrwd, gan gynyddu eu gallu i roi cyngor gan wasanaethau iechyd ar waith, er budd unigolion a grwpiau. Er enghraifft, fel rhan o'r Dull Gweithredu Ysgol Gyfan o ymdrin ag iechyd emosiynol a lles, sefydlwyd un pwynt cyswllt ar gyfer cyngor a chymorth ar iechyd meddwl, ac mae timau iechyd meddwl yn gweithio'n uniongyrchol gydag ysgolion i wella cymorth ac ymyrraeth gynnar.

Yn ddiweddar, mae'r bwrdd iechyd wedi penodi swyddog prosiect i arwain ar brosiect lleol:  'Prosiect Twf Ysgolion Arbennig', sy'n edrych ar greu model o weithio amlasiantaethol er mwyn cefnogi anghenion iechyd plant yn ysgolion Caerdydd a Bro Morgannwg yn y modd gorau. Bydd swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr iechyd er mwyn helpu i symud y prosiect hwn yn ei flaen. Bydd Deddf 2018 yn cael ei gweithredu dros gyfnod o dair blynedd, gan ddechrau ym mis Medi 2020.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn gyda'i gilydd, mae'r Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cynnal adolygiad ar y cyd o ddarpariaeth iechyd ac arbenigol yn ysgolion arbennig Caerdydd ac mewn unedau cyfeirio disgyblion. Bydd canfyddiadau'r adolygiad, a oruchwylir gan grŵp prosiect o gynrychiolwyr o'r meysydd iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion a rhieni, yn llywio dyluniad y ddarpariaeth arbenigol.

## Trefniadau Llywodraethu

Ni fyddai angen unrhyw newidiadau i'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Gynradd Coed Glas, Ysgol Gynradd Greenway ac Ysgol Gynradd Hafren.

## Effaith y cynigion ar y Gymraeg

Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth Gymraeg Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg yn unol ag Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r strategaeth yn cefnogi 'hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg'. Ei nod tymor hir yw i Gymru gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r strategaeth yn enwi addysg drochi cyfrwng Cymraeg fel y 'prif ddull o sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac o greu siaradwyr newydd' (Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg, tud 21). Felly, bydd argaeledd addysg Gymraeg yn allweddol i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

Y targed cenedlaethol yw:

- Cynyddu cyfran pob grŵp blwyddyn ysgol sy'n derbyn addysg Gymraeg o 22 y cant (yn seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 30 y cant (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2031, ac yna 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2050.

Cydnabyddir yn y strategaeth y bydd y dull yn amrywio ar draws gwahanol ranbarthau yng Nghymru yn dibynnu ar nodweddion eu poblogaethau. Mae'r strategaeth hefyd yn clustnodi ardaloedd sydd â dwysedd poblogaeth uchel ond canran is o siaradwyr Cymraeg fel ardaloedd sydd â photensial penodol ar gyfer twf.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i 'Gaerdydd wirioneddol ddwyieithog' gan gynnwys tyfu'r sector addysg Gymraeg ar draws pob cyfnod er mwyn cynyddu nifer y bobl o bob oed sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r hyder a'r awydd i ddefnyddio eu holl ieithoedd ym mhob agwedd ar eu bywydau.

Yn sail i'r weledigaeth hon mae'r egwyddorion canlynol:

- Cymhwyso egwyddorion y 'cymdogaethau 15-munud' i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cyrchu addysg Gymraeg o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi.
- Gall pob plentyn yn y ddinas ddewis derbyn eu haddysg yn Gymraeg neu Saesneg gyda manteision addysg ddwyieithog yn cael eu hyrwyddo'n weithredol i bob rhiant o eni'r plentyn.
- Bydd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael cyfle ieithyddol cyfartal.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, bydd y Cyngor yn sicrhau:

- Mwy o blant meithrin / tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mwy o blant dosbarth derbyn / pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. 189.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos ac yn adeiladol gyda phartneriaid ar ei Fforwm Addysg Gymraeg, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau meithrin, cynradd, uwchradd ac addysg bellach, gofal plant, RhAG a Llywodraeth Cymru. Mae'r Fforwm hwn yn cyflwyno gwybodaeth ar gyfer cynllunio lleoedd cyfrwng Cymraeg, er mwyn parhau i yrru cynllun y Cyngor i gynyddu mewn modd cynaliadwy nifer y dysgwyr mewn ysgolion Cymraeg a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae'r Cyngor, a'i bartneriaid ar y Fforwm Addysg Gymraeg, yn ymrwymo i sbarduno cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, i gyflawni'r targedau yn CSCA Caerdydd, ac i gyflawni'r targedau a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Sefydlwyd canolfan adnoddau arbenigol ag 20 lle i ddysgwyr 4 - 11 oed gydag anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch ym mis Medi 2018.

Sefydlwyd canolfan adnoddau arbenigol i ddysgwyr ag Awtistiaeth 11 - 19 oed yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ym mis Medi 2023. Mae gan yr ysgol hefyd ganolfan adnoddau arbenigol i ddysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth.

Mae'r Cyngor yn monitro'r galw am ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol a phatrymau dewis mewn darpariaeth addysg Gymraeg ar oed cynradd ac uwchradd, er mwyn rhoi cynlluniau priodol ar waith i fodloni unrhyw gynnydd yn y galw.

## Cydraddoldeb

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) yn broses sy'n edrych ar bolisi, prosiect neu gynllun i wneud yn siŵr nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail y nodweddion gwarchodedig a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd/cred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol).

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Sengl cyfun cychwynnol gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Daeth i'r casgliad na fyddai'r newidiadau a gynigir yn effeithio'n negyddol ar unrhyw grŵp penodol mewn cymdeithas.

Caiff yr asesiad ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad ac ar adegau allweddol os aiff y cynnig yn ei flaen. Os aiff y cynnig yn ei flaen, bydd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb arall yn cael ei wneud ar yr adeg dylunio. Byddai hyn yn nodi hygyrchedd i'r ddarpariaeth newydd. Byddai'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn ystyried polisïau megis Deddf Cydraddoldeb 2010, NCT 12: Dylunio 2014 yn ogystal â rheoliadau adeiladu megis BS8300, Rhan M a Bwletinau Adeiladu perthnasol.

## Effaith Gymunedol

Wrth ystyried y potensial ar gyfer effaith ar y gymuned ehangach yn sgil y newidiadau arfaethedig, ystyrir y canlynol: Man Agored Cyhoeddus, parcdir, y modd y defnyddir cyfleusterau'r ysgol ar hyn o bryd gan y gymuned, sŵn a thagfeydd traffig.

Mae'r ysgolion y gallai'r cynigion effeithio arnynt yn ysgolion sy'n bodoli eisoes. Maent yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau ysgol, ac mae gan rai sefydliadau cymunedol sy'n cynnig gwasanaethau o'r ysgol. Ceisir barn yr ysgolion a'r gymuned ehangach ar unrhyw effeithiau posib fel rhan o'r ymgynghoriad a'u hystyried yn llawn fel rhan o'r broses ddadansoddiad ar ôl ymgynghori.

## Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i ddarparu Ysgolion Lleol i Blant Lleol, ynghyd ag annog y defnydd o ddulliau cynaliadwy o deithio i ysgolion, megis cerdded a beicio.

Mae pob prosiect ysgol yn ystyried materion trafnidiaeth allweddol pan gaiff y prosiectau eu cynllunio ac yn ystyried yr angen i ddarparu llwybrau mwy diogel i annog cerdded, beicio a dulliau teithio llesol eraill i'r ysgol.

Yng ngoleuni'r pandemig a chyda'r buddsoddiadau presennol mewn TGCh ledled y ddinas, gallai symudiadau myfyrwyr leihau ymhellach wrth i dechnoleg symudol ddatblygu ymhellach gan ganiatáu dulliau addysgu hyblyg. Mae gan y rhain y potensial i arwain at Gynllun Teithio mwy effeithlon a chyfrannu ymhellach at dargedau'r Cyngor i leihau ei allyriadau carbon.

## Tarfu Posibl i Ddisgyblion

Mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni prosiectau adeiladu, addasu ac ail-wampio yn llwyddiannus ar safleoedd ysgolion sydd wedi'u meddiannu o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr ac sy'n tyfu.

Os bwrir ymlaen â'r newidiadau arfaethedig, byddai swyddog arweiniol prosiect yn cael ei neilltuo i weithio gyda'r cyrff llywodraethu perthnasol i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu ffrydiau gwaith i gefnogi'r prosiect.

Byddai unrhyw waith adeiladu a wneir yn cael ei reoli'n effeithiol mewn ymgynghoriad â'r ysgolion yn y cynigion hyn i sicrhau bod y cwricwlwm yn parhau i gael ei gyflwyno a bod safonau uchel o ran addysg a diogelwch yn cael eu cynnal.

Lle bynnag y bo'n bosibl, byddai gwaith yn digwydd yn ystod y gwyliau ysgol er mwyn lleihau unrhyw effaith bosib ar addysgu a dysgu.

Mae gan ysgolion Caerdydd brosesau hirsefydlog ar gyfer cynllunio a chefnogi pontio rhwng lleoliadau. Mae ysgol bresennol ac arfaethedig y disgybl yn gweithio gyda'r dysgwr a'i deulu, ac unrhyw arbenigwyr eraill a allai fod yn gysylltiedig, i sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc wedi'i baratoi'n dda ac yn profi llwyddiant. Bydd y broses hon yr un fath, p'un a yw'r dysgwr yn cael ei dderbyn i leoliad arbenigol sy'n bod eisoes neu leoliad sydd newydd agor.

# Camau nesaf, sut gallwch fynegi eich barn a'r ffurflen adborth

## Beth sy'n digwydd nesaf?

## Dyddiadau Allweddol

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi'r adborth a ddaw o'r ymgynghoriad hwn. Bydd swyddogion y Cyngor wedyn yn adrodd hyn i Gabinet y Cyngor i roi gwybod i aelodau etholedig am farn rhanddeiliaid, ac i fwydo'r broses o wneud penderfyniadau. Bydd yr adroddiad ymgynghori ar gael i unrhyw un ei weld/lawrlwytho ar wefan y Cyngor. Cewch hefyd gopi trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Os yn dilyn yr ymgynghoriad y cytunir fod y cynigion yn mynd yn eu blaenau, mae nifer o gamau pellach y bydd yn rhaid i'r Cyngor eu cymryd cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

**Nodir y camau hyn yn Nhabl 16 isod:**

**Tabl 16: Camau yn y dyfodol (Gall yr amserlen hon newid)**

| Proses Statudol | Amserlen |
|---|---|
| Cyfnod Ymgynghori | 20 Tachwedd – 19 Ionawr 2024 |
| Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor | Mawrth 2024 |
| Dyddiad cychwyn a ddisgwylir ar gyfer y Cyfnod Gwrthwynebu, ar ôl cyflwyno'r hysbysiad statudol (pan ellir gwneud gwrthwynebiadau ffurfiol) | Ebrill 2024 |
| Dyddiad y disgwylir i'r Cyfnod Gwrthwynebu ddod i ben | Mai 2024 |
| Y penderfyniad terfynol gan Gabinet y Cyngor | Gorffennaf 2024 |
| Cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebiadau ar wefan y Cyngor ynghyd â hysbysiad o benderfyniad y Cabinet | Gorffennaf 2024 |

## Cyfnod ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion hyn yn dechrau ar 20 Tachwedd 2023 ac yn dod i ben ar 19 Ionawr 2024.

Gweler tudalen 50 am ragor o fanylion am sut i ymateb a mynegi eich barn.

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori ar ei wefan. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol.

Gallwch ofyn hefyd am gopi caled o'r adroddiad.

Bydd yr adroddiad yn nodi'r materion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn rhoi ymateb y Cyngor i'r materion hyn. Bydd yr adroddiad yn cynnwys barn Estyn am y cynigion ac unrhyw ymatebion ffurfiol a dderbyniwyd gan aelodau etholedig, cyrff llywodraethu ysgolion, penaethiaid ac unrhyw gyrff cynrychioliadol. Bydd y pwyntiau a godir mewn ymatebion unigol yn cael eu crynhoi a'u hystyried ond heb eu cyhoeddi'n llawn.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu bwrw ymlaen â'r newidiadau a gynigir neu beidio.

Os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r newidiadau, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi dogfen o'r enw 'hysbysiad statudol'. Datganiad swyddogol yw hwn sy'n dweud y bydd y newidiadau'n mynd rhagddynt.

## Hysbysiad Statudol

Hysbysiad Statudol yw'r cyhoeddiad swyddogol ar gynnig terfynol. Rhaid i Gabinet y Cyngor roi'r gymeradwyaeth i gyhoeddi hysbysiad statudol. Byddai hyn ond yn cael ei ystyried wedi i adroddiad ar yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ddod i law'r Cabinet. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel sydd wedi ei amlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Byddai'r Cyngor yn cyhoeddi'r hysbysiad(au) statudol hwn ar ei wefan. Byddai hefyd yn rhoi copïau o'r hysbysiad(au) yn neu ger prif fynedfa'r ysgol(ion)/safle(oedd) y mae'r hysbysiad yn effeithio arnynt. Rhoddir copïau o'r hysbysiad i ysgolion yr effeithir arnynt hefyd, i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd anfon yr hysbysiad drwy e-bost). Mae'r hysbysiad statudol yn nodi manylion y cynigion ac yn gofyn i unrhyw un sydd am wrthwynebu wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig. Rhaid eu hanfon i'r Cyngor o fewn y dyddiadau a nodir ar yr hysbysiad.

## Penderfynu ar y cynigion

Cabinet Cyngor Caerdydd fyddai'n penderfynu ar y cynnig. Mae hyn yn golygu y bydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y newidiadau yn mynd yn eu blaen. Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynigion, neu gymeradwyo'r cynigion â rhai newidiadau (addasiadau). Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a ddaeth i law yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu wrth wneud ei benderfyniad.

## Hysbysiad o'r Penderfyniad

Wedi penderfynu, byddai Cyngor Caerdydd yn rhoi gwybod i bawb y byddai'r cynnig yn effeithio arno beth oedd y penderfyniad hwnnw. Caiff ei gyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor.

# Dweud Eich Dweud!

**Mae eich barn o bwys. Rhannwch eich barn ar y cynigion gyda ni drwy:**

- Lenwi a dychwelyd yr holiadur cysylltiedig i'r cyfeiriad a roddir ar waelod y ffurflen.
- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- Ysgrifennwch lythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW
- Os byddai'n well gennych, gallwch e-bostio eich sylwadau i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 19 Ionawr 2024.**

**Yn anffodus ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.**

## A ydych chi'n ymateb fel (ticiwch bob un sy'n berthnasol):

- ☐ Rhiant neu Warcheidwad Presennol*
- ☐ Rhiant neu Warcheidwad yn y Dyfodol*
- ☐ Disgybl*
- ☐ Aelod o staff*
- ☐ Llywodraethwr*
- ☐ Preswylydd Lleol
- ☐ Aelod Etholedig
- ☐ Arall (rhowch fanylion) ________________

***A fyddech cystal â chadarnhau pa ysgol(ion) rydych yn gysylltiedig â hi/nhw?**

________________________________________

## 1. A ydych yn cefnogi'r cynlluniau a gyflwynwyd i wella'r ddarpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

## 2. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig ar gyfer pob un o'r safleoedd ysgol?

| Ysgol a chynnig | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Coed Glas**<br>• sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 20 lle ar gyfer anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Coed Glas o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. | | | |
| **Ysgol Gynradd Greenway**<br>• sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 20 lle ar gyfer anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Greenway o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. | | | |
| **Ysgol Gynradd Severn**<br>• sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 20 lle ar gyfer anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Severn o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol | | | |

3. Os ydych chi neu os nad ydych chi'n cefnogi'r newidiadau a gynigir, eglurwch pam.

4. A hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen i'r opsiynau a gynigir?

## 5. A hoffech chi ychwanegu unrhyw sylwadau eraill?

Enw ______________________________

Cyfeiriad ______________________________

Cod post ______________________________

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 19 Ionawr 2024

**Ni fydd** y Cyngor yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

**Ni fydd** yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig.

Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cyflwyno gwrthwynebiadau.

Os hoffech gael gwybod pan gyhoeddir adroddiad yr Ymgynghoriad, nodwch eich cyfeiriad e-bost. Os na roddwch gyfeiriad e-bost i ni, ni fydd modd i ni roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

**Diolch i chi am eich sylwadau.**
**Dychwelwch y ffurflen hon at y Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW neu drwy e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk erbyn 19 Ionawr 2024 ar yr hwyraf .**

Caiff y wybodaeth a rowch yn y ffurflen hon ei thrin yn gyfrinachol, yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a'r Egwyddorion Diogelu Data Cyffredinol.

Caiff unrhyw ddata a roddir gennych ar y ffurflen hon ei brosesu yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data ac, wrth ei roi, rydych chi'n caniatáu i'r Cyngor ei brosesu at y diben y'i rhoddwyd. Bydd yr holl wybodaeth bersonol a rowch yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol a dim ond at ddibenion a ganiateir gan y gyfraith y bydd y Cyngor yn ei defnyddio neu ei datgelu i eraill.

Os hoffech dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg e-bostiwch ymgynghoriad@caerdydd.gov.uk
I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd rydym yn prosesu eich data personol, cyfeiriwch at ein Polisi Preifatrwydd – neu cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data, Ystafell 357, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW, e-bost: diogeludata@caerdydd.gov.uk

## AMDANOCH CHI

Rhowch eich cod post isod i'n galluogi i nodi barn ac anghenion yr ymatebwyr yn fanylach fesul ardal:

☐

### Beth oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?

☐ Dan 16 ☐ 25-34 ☐ 45-54 ☐ 65-74 ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud

☐ 16-24 ☐ 35-44 ☐ 55-64 ☐ 75+

### A ydych chi'n…

☐ Benyw ☐ Gwryw ☐ Arall ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud

### A ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud

### Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:

☐ Byddar / Wedi Colli Clyw / Trwm Eich Clyw ☐ Nam ar y golwg

☐ Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor(e.e. canser, diabetes neu asthma)

☐ Anawsterau iechyd meddwl ☐ Defnyddiwr cadair olwyn ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud

☐ Nam / anawsterau dysgu ☐ Nam symudedd ☐ Arall

Rhowch fanylion ________________________________

### Beth yw eich grŵp ethnig?

Pan ddefnyddir y term 'Prydeinig', mae hyn yn cyfeirio at unrhyw un o'r pedair cenedl gartref, sef Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu gyfuniad o'r rhain.

☐ Gwyn - Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig
☐ Gwyn - Gwyddelig
☐ Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
☐ Gwyn - Unrhyw gefndir gwyn arall
☐ Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn ac Asiaidd
☐ Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Caribïaidd
☐ Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Affricanaidd
☐ Cymysg/Grwpiau Aml-ethnig - Unrhyw un arall
☐ Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Tsieineaidd
☐ Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Pacistanaidd
☐ Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Bangladeshaidd
☐ Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Indiaidd
☐ Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Unrhyw un arall
☐ Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Affricanaidd
☐ Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Caribïaidd
☐ Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Unrhyw un arall
☐ Arabaidd
☐ Unrhyw grŵp ethnig arall (rhowch fanylion)
________________________________
☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud

Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi ei phrosesu gan Gyngor Caerdydd yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni yn ymwneud â'r ymgynghoriad hwn ei thrin yn gyfrinachol ond gallai gael ei defnyddio gan y Cyngor neu'i datgelu i eraill yn ôl gofynion y gyfraith. Mae angen prosesu'r data personol er mwyn cyflawni tasg benodol er budd y cyhoedd. Gydag unrhyw ymatebion a ddaw i law, bydd modd gwneud cais amdani o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid ei gwneud yn gyhoeddus. Wedi dweud hynny, byddai gwybodaeth sy'n cynnwys manylion personol fel enw a chyfeiriad unigolyn yn cael ei thynnu allan.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut mae Cyngor Caerdydd yn rheoli gwybodaeth bersonol, darllenwch ein Polisi Preifatrwydd ar wefan y Cyngor.
**Hysbysiad Preifatrwydd (caerdydd.gov.uk)**